

**Bangor University**

## **DOCTOR OF PHILOSOPHY**

**Llysieuilyfr William Salesbury : testun o lawysgrif LI.G.C. 4581, Ynghyd a rhagymadrod ac astudiaeth o'r enwau llyisiau Cymraeg a geir ynddo.**

Edgar, Iwan Rhys

*Award date:*  
1984

*Awarding institution:*  
Prifysgol Bangor

[Link to publication](#)

### **General rights**

Copyright and moral rights for the publications made accessible in the public portal are retained by the authors and/or other copyright owners and it is a condition of accessing publications that users recognise and abide by the legal requirements associated with these rights.

- Users may download and print one copy of any publication from the public portal for the purpose of private study or research.
- You may not further distribute the material or use it for any profit-making activity or commercial gain
- You may freely distribute the URL identifying the publication in the public portal ?

### **Take down policy**

If you believe that this document breaches copyright please contact us providing details, and we will remove access to the work immediately and investigate your claim.

## Talfyriadau a throednodiadau

R.M.: Roger Morris, Coed y Talwrn. Oni nodir yn wahanol, y mae'r cyfan yn y testun hwn yn ei law ef.

E.T.: Evan Thomas, Cwm Chwilfod. Nodir rhai o'i ychwanegiadau yn y troednodiadau a bu imi gynnwys rhai ohonynt yng nghorff y testun.

Y mae'r troednodiadau a ddynodir â'r rhifau Rhufeinig yn cyfeirio at ddiwygiadau a nodweddion o fewn y testun ei hun.

Y mae'r troednodiadau â'r rhifau Arabaidd yn dangos y gwahaniaeth sydd rhwng y llawysgrif hon a llawysgrif Caerdydd 2.973. (Digwydd y troednodiadau hyn ym mbenodau 1,4,5,8,9,10 yn unig.)

O fewn y troednodiadau Rhufeinig ceisiais fod yn gyson wrth ymdrin â diwygiadau. Pan newidiai R.M. lythyren drwy ei hystumio yn llythyren arall cyfeiriais at hynny fel "addasu". Gwneuthum hyn er mwyn gwahaniaethu rhwng y math hwnnw o ddiwygio a'r diwygio mwy ffurfiol y cyfeiriai ato fel "cywiro".

Yn gam neu'n gymwys bernais mai gwell oedd peidio â defnyddio "sic" i ddynodi gwall rhag iddo ambell dro ddifetha gwedd y testun, yn enwedig pan fo nifer o ddotiau tanlythrennol ar goll. Can hynny gobeithiaf na cheir hyd i ormodedd o wallau o'm heiddo i.

Cynrychiolir ysgrifên Eidal â llythrennu tywyll. A noder mai ystyr "q" y sonnir amdani'n fynych yn y troednodiadau, fyddai "quare".

**Y TESTUN**

## Y Wermod.

Yr enuæ

Absynthium yn Groec a Latin, Wermod yn Saesnaec a<sup>1</sup> Chamberaec./

Y rhyuæ.

Tri rhyu uermod syd sef Ponticum, Marinū, a Santonicum.

Ponticū absynthium yr hunn a elir ei alu yn Saesonaec Wormod gentle ac yn Gamberaec y Wermod ryuoc nid yu yn tyfu yn Loegr hyd y dyuaid Mr Turner ac nid hunn (med ef) hefyd ydyu yr vn o'r deuryu Wermod sy ar dail lydain idynt ac yn tyfu ynn sathredic meun lauer o vannæ, ac am hynny somedic yu/r/saufl bynnac (med ef) a dybio vod y wermod gyphredic ar dail breision yn uir uermod Pontic. A doudyd y mae ef pan yu yr Wermod yma gyphredin a dleit ei galu yn Latin Absynthiū rusticū. sef yu hynny y Wermod gartrefic. A doedyt drachefn y mae nad lai somedic yu yr rhei sy yn arfer or[la] Wermod a dyf yn glann y môr yn le<sup>1</sup> y Wermod Pontic, canys nad ynt vn ansod nac vn artempr ai gilyd./

Ar Wermod a dyf ynglann y mor nei yn y môr a eluir yn Latin Absynthiū marinū nei Seriphiū ac a elir Cambraeico Wermod y môr ac yn enuedic yr hunn a buyla Dioscorides o honau./

Y trydy rhyu o Wermod a eluir Absynthiū Santonicū am ido dyfu meun bro yn Phrainc le geluir y presuyluyr Santonieit a elir ei alu y Wermod Santonic nei/r/Wermod Phrengic./

Y phuryf

Ponticū absynthiū sef y Wermod Pontic nei/r/Wermod ryuoc sy ai dail ai vlodæ yn lai lauer nor Wermod eil ac arogle nid yn vnic yn ber eithr yn leosoc neu vn arogl a lysse siopæ a saur yr eil ol sy dreuedic

Absynthiū rusticū seu vulgare y wermod uladaid neu y Wermod gyphredin id a phaladr cangoc<sup>2</sup> a dail ynn luyd a lauer o amryu fylchæ ar[lb] ei emylæ a blodæ eurued, hadæ crynnion yn rhestri urth ei gilyd

Absynthiū marinū aut Seriphiū, Wermod y mōr id<sup>3</sup> lyseūn a dail tra eidilionn nei a deilios bychedigion mal yr Abrotanum<sup>4</sup> leiaf yn duyn hād bychain meun codæ ac aroglæ arno ac yn chueru

Absynthiū Santonicū y Wermod Santonic nei/r/Wermod Phrengic id gyphelib ir Wermod anid nad yu ynn hadu cynn amplet.

Y le y tyfant

Y Wermod Pontic nid yu yn tyfu yn yr Ynys honn med mastr Turner eithr mae ef yn dangos duyn o hono ef o ryuogæth hunnu alan<sup>5</sup> o ulad Germania ai ossod i dyfu yngard ei veistr y Duc o Somerset yn emyl ei duy yn Seion. Y rhyu hunn o wermod a dyf oi natur ehun yn Ynys Pontus nid amgenach na/r/fro y deoluyt y bonedigfard Ouyd Naso.

Absynthiū rusticū sef y Wermod gartrefic neu/r/Wermod gyphredin a dyf meun amyl o leoed ac yn enuedic gar[2a]lau/r/phyrd ac yngoror presuylua a thrigianle vegis ac y mae yn uir a dyuot y pennadur Plinius sef ein bod ni yn sathru lauer lyseun y dān ein traed puy rei pei guypem ei rhinuedæ a dyrchafem a moliant y entrych auyr./

Absynthiū Santonicū a dyf (mal yd yspysuyt vchod) yn Phreinc ac y mae mastr Turner yn dyuedut na ueles er ei oet y rhyu hunn yn Loegr anid vnuaitth./

Yr amser.

Yn diued mis Gorphenhaf y mae ei godi, o bleit yr amser hunnu y mae yn ei flodæ ai hād

Grad yr artempr

Y wermod Pontic sy uresoc yn y rad gyntaf a sych yn y drydy yn ol medul Galen, Aetius, a Phaulus Aegineta, eithr yn ol Mesue nid yu ef sych amyn yn yr ail rad, eithyr iaunach yu credu Galen na Mesue./

Wermot y mor yn ol barn Aegineta sy uresoc yn y rad gyntaf a sych yn y gyntaf./

Y uermod Phrengic id uannach na[2b] wermod y môr y oyscaru gulybyroed meun gures a sychdur. A suc y wermod Pontic yn ol barn yr audurieit pennaf sy uresogach o lauer na'r dail./

Y rhinuedæ<sup>ii</sup>

Y Wermod sy yndo ansodion attaliedic chueru yn lym yn guresogy yn rhascly ymaith yn cryfhay ac yn sychy eruyd pam y par darymret ac escor druy yr phord issaf a gyd ar vrin nei'r trunc y duc hefyd y color a gulybyroed afiach alan or cyla ac y par yn enuedic yr defnyd color a fo yn y guythi ymescor y vaes./ Mal hynn yd escrifenna Galenn.

Y Wermod a bair i vn galhel piso yn rhuyd od yfir gyd a Syler mynydic ac Spicnard Phrengic./ Da ydyu rhac guynt nei gurfa or cyla nei'r boly, e duc y cyla guann y gary buyt./ Od yfir beunydy ynghylch pump vns o iscel y uermod nei or guin y gulychuyt yntho e iachaa y cryd melyn./ E bar ei guaedlin annianol ar y merchet oei gymryd y meun nei ei dody urtho o y alan gyd a mēl./ E ueryd y[3a] mygiadæ a dau o vuyta buyt y lyphaint od yfir gyd a vinegr./ Da ydyu gyd a guin yn erbyn guenuyn ixia a hefyd yn erbyn y cecut, brath lyc a dragon y môr./ Ef a elir iachay yr hychcruc a'r lyseun hunn od irir ac ef gyd a mēl a salpetr anianol. Ac fely y gyd a dufyr yd iachaa y dolur o giliae lygaid dyfyrlyd./ Y mae e yn da gyd a mēl yn erbyn ysictot a thyuylluc lygaid./ Ac vely ydyu ar les y clustiae o byd gor yn rhedec o nadynt./ Iscel uermot y gyd ar dacrae a vygdartho o hono a ueryt y dolur or danned ac or clustiae./ Yr iscel gyd a malsai sy da i iro lygaid

dolurus. Gyd ar eli [a eluir]<sup>iii</sup> Tiprin y medignaetha dolur o'r cyla; gyd a phicus vinecr a blaüd y buluc yr hausa a y dropsi a dolur or duec./

Wermot gyd a rut pypr a halen a gymorth y buyt y veruy ac y dreulio./ E dilea dyfrlydryd y cyla./

Y popul gynt yn yr hên amser ai dodynt ef y garthy nei y gael darymret gyd a pheintieit a hanner o hên heli môr chuech dramm oy hâd dau uns o vel a dau dramm./

Pan dêl yr hychgruc yd yfir i gyd[3b] ar persli ambrud a gualt y voruyn./

Y mae e yn da iaun y egluro y goluc E iachaa archolion neu ydfriu cyn dêl dim dufyr ydyn./ E dilea hefyd gosi ne ymgrafy. Ni thâl dim ei gymryd pan fo yr crŷd./ O dodir ymplith dilad e lud ir pryfed ei ysy uy./ Ei vuc a darfa ymaith adnoc ne'r guybet./ O chymyscir yr ink ai suc nyd<sup>iv</sup> ysa y lygod dim or escrifen./ O chymyscir ludu y uermot ac oleu y rhos e dua ualt./

Mesûe a dengys y dogyn neir meint a elir ei gymryd or iscel nei o hunn y gulychet y uermot yntho o bemp o vnsys yd uyth, or sŷc o dri dramm y beduar, or poudr o dau dram y dri: ac vely y carth nei y guasanaetha yn burgassiun./ Eithr o bleit na ueithia ef anyd yn uann ehunan, ef elir cymeryd maid gyd ac ef a resyns uedy/r/tyny alan y cerric nei gyd a Ros a muc y dayar./

Nyd cŷmesur arver o uermot y mor yn le'r iaun uermot can ys ei vod yn druc ar les y duyfrôn mal y testiolaetha Dioscorides a Galen./

Ac ny uasanaetha chuaith cymeryd y uermot gyphredin yn le y uir uer[4a]mot, o gelir ei gahel./

i Bu bron i'r gair hwn gael ei ddileu yn llwyr.

ii Crynhowyd llawer o'r rhinweddau ar hyd yr ymyl mewn llaw gyfoes.

- iii Cromfachau gwreiddiol.
- iv Addaswyd "nid".

- 1. ag yn
- 2. conglog
- 3. sidd
- 4. Aprotatū
- 5. alan-

---

## Sothernuod. 2.

Yr enuæ

Abrotonon yn Groec, a Latin a Sothernuod yn Saesonaec a Camberaec. ac o Gamberaec hefyd Brytun

Y rhyuiæ.

Deuryu Sothernuod y syd yn ol medul guyr dyscedic o bob oes y gurryu ar benyu./ Y gurryu ydyu hunnu a eluir vely ac a dyf yn gyphredin yn y gardæ./ Ac e dybiod lauer o uyr dyscedic mae'r benyu ydoed y lyseuyn luyduyn a eluir yn Saesonaec Lauander cotton eithr nyd hunnu ydyu ef yd y dyuait. W.Turner, canys ef sy yn doedyt ei vod yn guybot mae hunnu yu'r iaun ryuogaeth benyu sy yn tyfy ym mynydoed yr Ital sef gulad Rufein./

Y phurf./

Y Sothernuod gur ryu id gangoc[4b] a deiliene bychedigion a lai gunion na'r benyu. Hadae eidilion niferoc val ir uermot. eithr ny hada ef bob amser amyn yn vnic yn dechreu mis Meti ar pryt hynny o chrephy arno y cei ei uelet yn laun had./ A braid nad yu Ffuchsius yn gady lauander cotton yn le y benyu ac am hynny yd ys partha ef ei phurf ai ued ef val hynn. Y



Sothernud benyu (med ef) sy lyseulwyn ar lun prenn a dail gunion yn vriuyon mân o bop parth i'r cangénos mal Seriphium ac yn laun blodæ a mal botymæ eurliu ar vrigæ vcha/r/spyrsiæ ac y mae arogl taran drum arno ac med mastr Turner vn arogl ar Sothernud gurryu ydyu./

Y le

Nid yu y gurryu yn tyfy yn ein gulad ni o dieithr yn y gardæ cyd tyfo yn y meysyd yn gulad Germania: ar benyu med Ffuchsius a dyf oe natur ehun meun bryniæ a mynyded./

Yr amser

Yr deuryu a vlodea vis Aust[5a]<sup>i</sup> ar Cynhayaf ydyu/r/amser adasaf yu gymryd ai godi yn rhait./

Grad yr artempr

Y Sothernut id uresoc a sych yn y drydy rad./

Y rhinuedæ

Had y deuryu lysæ uedy/r/vriuo yn ambrud ai duymo meun dufyr ac yno ei yfed sy da rhac dephec anhetl ac a vediginiaetha yr aelod nei/r/vân a gafas aduyth ac a grybychod a'r rhei a sigod ne a vo guaiu o bën ei clûn ne/r/neb ny chapho guneythy dufyr ar merched ny cherdo ei gwaedlin naturiol./ Ac od yfir hunn yma ar uin e achup rhac guenuyn./ Da ydyu rhac pherdot acherethol<sup>ii</sup> o beruir meun oleo ae i dodu urth y corph./ O thenir y lysæ hynn yn y guely a thruy nerth ei muc hefyd y paran y nadroed dynny ymaith Da ydyu hefyd yu yfed gyd a[5b] guin rhac brath nadred ac ynn enuedic rhac brath pry copyn y meysyd ar escorpion./ Ar lysæ yma a vediginiaetha poethni y lygaid o gosodir urthyn gyd a cuins guedy/r/veruy nei gyd a

bara./ O briuir uy gyd a blaüd haüd ai beruy guaret cnykiæ chuydedic ar gnaüd a unant./ Wy ladant y lynger o bleit ei chueruet./ O beruir sothernut a ei dody meun oleo palma Christi nei radis e a bair i varf huyredic dyfy alan ar vrys od irir ac ef./

Sothernud a dŷn alan y peth a vo yn glyny yn corph dyn. A rei a dyueit o dodir cainc or sothernut y dän y gobennyd yr anguaneca ei chuant ar dyn i gydio ac mae da ydyu/r/lysæ hynn y uaredy y neb a ruystrer druy uitscrepht nei deuindeb y gydio er planta./

- 
- i Atododd llaw gyfoes "Sothrnwood ne Siwdr mwdr" ar ben 5a a "Sothernwt ne Siwdr mwdr" ar ben 6a.
  - ii Cywirwyd y gair i "achrethol". Ni allaf ddweud ai R.M. a wnaeth hynny.

---

### Hockys y gors nei yr môr 3

Yr enuæ

Althea yn latin, Marish mallowe[6a] nei water mallowe yn Saesonaec a Hockys y gors nei hockys y dufyr yn Camberaec y geluir./

Y lysæun hunn oidit gynefin ei alu ar gam Holyoke yn Saesonaec ar Hockys bendigaid yn Camberaec./

Y phurf<sup>i</sup>

Rhyuogeth or Hockys guyltion ydyu, a dail crynion sy ido mal ir Cyclaminus sef Bogel y dayar ac yn ulanoc, blodæ mal rhôs anid bod ei liu yn ueluach nei yn uynnach a phelytr eideilion a dau cuyyd o hŷd a gureidin gludioc guynn o y meun./

Y le

Meun tir gulyb phaeth y tyf y rhyu hunn o'r hockys a mi ai guelais yn tyfy<sup>11</sup> yn y dol y dan Blas Meredyd ap Grono yn lan Sannan sef yn y pluy y ganuyt vi./

Yr amser

Guraid hun fal yr rhân vuyaf[6b] or lysæ/r/eil ol a glescir y ei cadu urth raid yn cylch dechre Cynayaf sef yu hynny yn diueth mis Aust a dechrey mis Meti. Y dail ar hâd a ymgledir yr Haf./ Misoed Gorphenhaf ac Aust y blodea./

Yr artempr.

Y dail ar blodæ ynt uresoc a sych yn y rad gyntaf, ar guraid yn dechrey yr ail./

Y rhinuedæ

Guraid yr Hockys hyn uedyr veruy meun med nei uin nei uedyr vriuo aei dody urtho ehunan sy da ar les gueliæ, chuârennæ pungæ, churnelæ, poythfa or bronnæ, ysictot or eistedle, chuyd guyntoc, anestuydtra y geuynæ: o bleit ei goyscar, ei adfeda nei ei tŷr ac ei creithia./ Beruer mod y dyuetpuyt ym blaen a chymyscer a blonec ludyd huch nei vlonec guyd a therpentin megys y glyno mal plastr ac yno da fyd rhac tagfa[7a] a phoethder y vam o dodir yn y vam yn ol phurf suppositori. Ar iscel y beruer y lyseun yntho sy da rhac yr vn peth ac e escor y luyth ac ail geni alan o'r vam./

Iscl y gureidyn uedyr yfed y meun guin a ueryd anhauster trothy ne uneythy dufyr ac a gymporth dyfyrlytra y tosted, E dyr y darimred, e iachaa y guaeu o benn y glûn, e gadarnha yr aelodæ crynedic ac a gyfana y neb a

fo uedy ymdryllo./ Golch y genæ ac ef uedyr veruy meun vinacr ac e baid y uyn nei y dolur or danned./ Yr had yn fr nei yn sych uedy ei briuo a dilea y brychæ melynion od irir gyd a vinacr yn yr haul./ E achup rhac brath pryfed guenyntic y neb a irer ac ef gyd ac oleo a vinacr./ Y mae e yn da rhac haint calon, rhac chuydy/r/guaed a rhac darymret./ Ar vnrhyu hâd uedy'r veruy meun dufyr a vinacr ne meun guin a yfir[7b] yn erbyn brath guenyn a châcun nei'r cyfryu bryfetos./ Y dail gyd a bychydic oleo ynt da yu dody urth vrath daint nei losc. Ac ny una e lai no theuychy y dufyr y dodder yntho o gedir alan o duy sef yn guyd yr auyr./

---

i Ysgrifennwyd "Sowbread" gerllaw gan E.T.  
ii Addaswyd "tyfu".

---

#### Pympernel 4

Yr enuaæ.

Anagallis yn Latin, Pympernel yn Saesonaec, a Camberaec Pympyrnel, Gulyd Mair./

Y rhyuiaæ

Deuryu Pympyrnel y syd mal y testiolaetha yr ol hên escrifenydion sef y gur ryu a'r benyu puy rei nid oes amrafael ohan rhythynt o dieithr ar ei blodæ./

Y gur ryu y geluit<sup>i</sup> hun syd ar blodæ cochion crimsi coch, ar benyu sy'n duyn blodæ gleision./ Ac vely somedic ydyu y saul vedygon or[8a]<sup>ii</sup> oes dyuaetha or ai ys partha yn anguanec ryuogaethæ./

Y phurf.

Y lysæ hŷn ynt luyŷni bychain gorueidïoc ar y ðayar a dail bychain yðyn yn daran grynion yn ol gued y Parietori nei/r/Paretlys yn tyfy alan o uyd peduar ochroc phruyth y lysæ hyn sy grún/

Y le

Ei cephir uy yn tyfy yn dra aml yn y meysyd yd ac odit va dir gulydaid bras na sethrir arnynt ac nid oes lyseun muy dibris y gân y medigon or oes yn aur, cyd bod gynt ymofyn ampl am dano meun medeginiaeth: Er bod yn digon haud medry ar y leoed y tyfant etto nyd yu Mr Turner yn cynhiadu bot y benyu yn tyfy yn Loecr: ac y mae ef yn doedyt ei vot e yn tyfy yn Germania./

Yr amser

Yn hyd yr haf y tyf y deuryu[8b] ac yn enuedic ym mis Aust. Wy vlodeuant o vis Mai y dán y Cynayaf./

Grad yr artempr./

Y deuryu sy uresoc a sych o bleit bot ei natur y rasclly nei y sychy ymaith. Canys merchet a vo a chroen ei huynep yn aru nei yn aml liuïoc o naturiaeth a ymarferant o suc y lysæ hyn y ei lyfynhay<sup>iii</sup> ac y ei drusio yn decach mal druŷ y rhinued yma y gorfyd dangos ei bot uy yn dyscy ar gam y dyueton mai oer a gulyb ydyu y lysæ hŷn./

Y rhinuedæ

Y deuryu sy a nerth ynthynt y leysy ne esmuytho ac i diley poethfeyd ac y escor escyrn tynnion ac y vediginiaethy clefri a vo yn cerdet./

A ei suc uy y gargarisir nei golchir y guduf o y meun er muyn carthy y pen

o phlêm./ Ac o burir yr vn suc yn y phroen urthuyneþ ir dant claf<sup>1</sup> e dyr  
y<sup>iv</sup> uyn a'r dolur o hono./<sup>2</sup>

Gyd a mel coeth y carth[9a] e ymaith y macul<sup>3</sup> gūyn a vo y ar<sup>4</sup> y lygat ac y  
goleua dyuyyluc y drem: ac e yfir yr vnrhyu suc meun guin rhac brath neidr  
a rhac dolur or avy<sup>5</sup> ar arenæ./ Y<sup>6</sup> mae rhai yn doedyt y leſtair y lyseun  
ar blodæ glas ir golon vaur descen oei mân, ac y pair y lyseun ar blode  
crimsi idei dyfot alan or eistedle o<sup>7</sup> gosodir urthi./ Ac y mae peth gures  
ac anian tyny attynt yn y dau lyseun hyn a sychder eb vrathy o ba bleit yd  
iachant ueliæ a chlaur putr./

- 
- i Cywirwyd "geluyt".
  - ii Ar waelod 8a ceir "b." ar ei ben ei hun.
  - iii Addaswyd "lyfnnhau".
  - iv Addaswyd "ê".

- 1. kaf
- 2. o hono./=o'r dant
- 3. magl
- 4. a vo y ar=afydd oddiar
- 5. or avy=afo
- 6. Y-
- 7. y

---

Camemil./<sup>1</sup>

Yr enuæ./

Chamæmelon yn Groec a Latin, Camomil yn Saesonaec a Camberaec<sup>1</sup> eithyr y  
rhei Cambereicaf ei geilu<sup>2</sup> y Gamamil./

Y rhyuiæ

Tri rhyu sy o hono ac eb dim amrafael anid ar ei blodæ yn vnic./

Y rhyu cyntaf a eluir yn Groec[9b] Leucanthe<sup>3</sup>mon sef y Camamil guyn. Yr ail rhyu a eluir Chrisanthe<sup>3</sup>mon sef yr aur gamamil, nei/r/Camamil melyn./ Y trydy rhyu a eluir yn Groec Heranthe<sup>3</sup>mon sef Camamil y Guanwyn eruyd ido vlodeo y pryt hyny or vluydyn./ Ac yn cylch y lyseun hun y mae amrafael dadlurieth ymplith guyr o dysc: o bleit Mastr. W.<sup>4</sup> Turner sy yn dadle yn erbyn y saul a dyueid mae/r/vn rhyu lyseun ydyu Eranthe<sup>3</sup>mon a hun<sup>5</sup> elu y lysæuyr cyphredin Amarisca rubra<sup>6</sup> ac yn Saesonaec Red mathe or red made weede. ac ar diueth ei dadlurieth y mae e yn damuno pe chuiliaei guyr dyscedic am y guirioned yn cylch y lyseun yma./ Ein Autur ninæ yma Leonhart Phuchsius sy yn duyn lauer o argumentæ a rhesymæ y brofi mae yr iaun ar uir Heranthe<sup>3</sup>mon ydyu hun a eilu y medygon cyphredin Consolida regalis ac a alun ninæ yn gyphredin lysæ/r/Cryman nei dau uynep dan yr vn cokul: .ac[10a] ny vedraf vi deal nad yu ef yn gady<sup>11</sup> ar ei gálonn y peth. Eithr y<sup>111</sup> vyrhau damuno yd<sup>7</sup> uyf vi yn vn vedul ar William vchod ar gymryt o uyr dyscedic anguanec boen y olygy y peth ac y dori yr ymryson guedy./

Y phurf.

Guyd sy ir Camæmil o rychuant o hyt, a lyseuluyn ydyu a lauer o apherdæ ne<sup>8</sup> banylæ bychain y<sup>9</sup> rhung y cangæ ar paladr ac a liaus o gangenæ eidilion ac a siobynæ<sup>10</sup> crynion a blodæ melynion phrisiedic ar vchaf ei cenol a throelenæ o vlodæ oei gogylch yn ail ai o liu gufn ai melyn ai guelugoch ac o vaint dail y Rût./

Y le

Gnaud ydyn dyfy meun tir sycharu teneu ac garlau phyrd./ Y Camæmil gufn med Mr Turner sy yn tyfy yn anaml yn Germania; eithr mae e yn tyfy yn digon ampl yn yr ynys honn alan or gardæ./ O bleit mi uelais ar Grfn Leueni<sup>11</sup> lanerchæ lydain o hono[10b]<sup>1v</sup> eb dim cymysc lysæ er eil nac vn

glasueltyn ynto./ Mi<sup>12</sup> ueleis hefyd luyni o hono yn tyfy<sup>13</sup> ar y guylt  
parth<sup>14</sup> gogleđ y plas Tudur ap Robert yn Lan Yvyth./ Yr Aur Gamæmil a  
uelođ Mr Turner yn tyfy yn<sup>15</sup> meisyđ 9d<sup>16</sup> y ulat vchaf i Germania ac ny<sup>v</sup> dau  
cof ido<sup>ei</sup> uelet er i oet<sup>17</sup> yn tyfy yn<sup>18</sup> Loecr ei ulat ehunan./ Consolida  
regalis a dyf yn ampl ymplith yr ydæ

Yr amser

Y guanwyn y clescir yn enuedic meun guledyd guresoc, eithyr gyd a nyni ny  
byđ amser y dan dalm o<sup>19</sup> haf nid amgen no<sup>20</sup> dan vis Mehefin

Yr artempr.

Guresoc a sych ynt yn y rad gyntaf

Y rhinuedæ

Y Camæmil o teneuder sy tebic ir rhos, eithyr cyphelypach o ures ydyu y  
ansauđ oleo yr hunn sy yn cordio a natur dynaul ac yn artempêrus. Ac o  
bleit hynny y mae yn da rhac ludeđ[lla] ac yn esmuythau dolur, y leysy ac y  
elung y tynn ac y vedalhau y peth ny bo tra chalet, y teneuhau ney oyscary  
y peth a vo uedy/r/<sup>21</sup>ceulo ne peleny ynghyt./ Hefyd e<sup>22</sup> ueryt y crydiæ or  
ny del o boethfa yr<sup>23</sup> emyscar, ac yn enuedic y cyfryu a del o ulybroeđ y  
color nei o deudur<sup>vi/24</sup> y croen

Erudy pa am y cyssecrant doethion yr Aipht y lyseun hunn ir Haul ac ei  
gaduf yn gyfared<sup>25</sup> vediginiaethol yn erbyn pop rhyu grydiæ. Eithyr yđ oed  
yn methy ganthyn ar y guir<sup>26</sup> ynn hynny o beth. Can ys y crydiæ a buyleis  
o honynt<sup>27</sup> or blaen a digon ef ei iachay yn vnic a chyfryu ac a vo yn  
aedfed./ Eithyr e helpa yn drada yr ol crydiæ a vaco o melancolia, o phlêm  
nei o boethfa yr ymyscar./

O bleit y Camæmil sy gyfared uaredocaf y vedeginiaethy y clefydæ hynny



uedy darfei ydyn aedfedy: ac am hynny y<sup>28</sup> mae e yn da ar les y cunedyn a rhac dolur y dan y vrón, puy vn bynnac a uneler ai beruy y lyseun ac<sup>vii/29</sup> eisted arno ai ei yfed, e bair y gwaedlin anianol ar verchet./ e gyzporth[11b] enedigaeth, e gympel vrin, a maen y tosted y ymescor./ E una les ei yfed rhac gyynt a gyeuyr or glas golud./ E garth ymaith y cryd melyn, e iacha dolur yr avy./ Da ydyu golchy y chuysigen ac iscel y lyseun hunn./

O ol ryuiaë y Camæmil muyaf yu nerth<sup>30</sup> hunn sy yn duyn y blodæ guelugoch<sup>31</sup> yn erbyn maen y tosted./ Wyntuy ar blodæ guynion ar melynion a barant vrin ac a iachant gruc y lygaid o chymerir ai osot ar ued plastr./ Ac o chnoir, uy a vediginiaethan y cancr neir dolur or genæ

- 
- i Ychwanegwyd "5" yma, gan E.T. mae'n debyg.
  - ii Addaswyd "gadu".
  - iii Addaswyd "i".
  - iv Ychwanegwyd sylwadau ar waelod 10b mewn dwy law gyfoes:  
"felly mae ar y marian yn Nolgelleu", ac  
"ac ar heol y fedw yn llansanffraid y glyn dawrdwy".
  - v Addaswyd "ni".
  - vi Cywirwyd "deneudur".
  - vii Cywirwyd "ai".

- 1. a Chamberaec-
- 2. ai geillu-
- 3. Levconthemon
- 4. Wiliã
- 5. +a
- 6. Amarisca rubra=amarisga rwbra
- 7. yr
- 8. +o
- 9. y-
- 10. sirbynae
- 11. yn llaweni
- 12. +a
- 13. luyni o hono yn tyfy-
- 14. +ã
- 15. y
- 16. yd-
- 17. er ei oet=ef
- 18. +vn lle yn

19. or
20. nid amgen no-
21. /r/-
22. +a
23. yn
24. denevder
25. gyfareddol
26. gair
27. o honynt=i arnynt
28. y-
29. ai
30. +yr
31. gwelw gochion

---

### Aneth 6.

Yr enuaë.

Anethum yn Groec a Latin, Anet neu Dyll yn Saesonaec ac ni unn i arno anyd Anet yn Camberaec./

Y phurf.

Y lyseun sy cubit a hanner o hyt a liospaladr a vyd a changoc a siobynæ<sup>1</sup>[12a] myngylfain blodeuoc melynion, hadæ lydain a mal yn dail a gureidyn prén nyd tra hir vn sidil vyd ac ar vric y phenicul yr hūn rhac mór debic yu a elir ei alu yn vn oi genedl nei ryuiaë

Y le

Yn y gardæ yr heuir ac ueithiaë mal phenicul e dyf oei uaith ehunan./

Yr amser

Yr haf ys ef mis Mehefin a Gorphenhaf y tyf./

Yr artempr

Yr Aneth sy uresoc yn yr ail rad<sup>ii</sup> a sych yn diueth y gyntaf./

Y rhinuedæ

Yfed iscel brigynnæ a had yr Aneth sy da i beri laeth: e esmuytha ar gnofeyd a chuyd a del o uynt: e attal y boly ar cyla a vo calmyn o anian chuyd yntho. Peri urin a pheidio ac eigian a una./ Pyly y goluc[12b] a dyphody anian planta a bair od yfir yn vynech./ Da ir merchet eisted ar ei iscel rhac tagfa nei anhuy1 or vam./ Yr had uedy/r/loscy sy da yu dody urth yr eistedle rhac rhyu amuynt churneloc caletchuyd./ Wy dyuedan mae druc yu/r/lyseun hūn ar les yr arenæ./ Y gureidin alan o dufyr ne uin sy da yu dody<sup>iii</sup> urth lygaid afiachus./ yr iscel vchod a dyrr maesa a buru: Dyl beruedic meun a detyd ac a dyrr dolur ac a adfeda ulsers./<sup>iv</sup>

- 
- i Rhoddwyd llinell doredig dan "siobynæ" a "mynglyfain" (fel gair cydio ar 12a) ac y mae "q" gyferbyn ar yr ochr. Ni fedraf ddim dweud ai R.M. a wnaeth hyn.
- ii Rhoddwyd "q" ar yr ochr gyferbyn â'r llinell "Yr...rad". Ni allaf ddim dweud ai R.M. a wnaeth hynny.
- iii Addaswyd "dodi".
- iv Ychwanegiad diweddarach ydyw "yr iscel vchod...ulsers./".

---

Y Vyufyth. 7.

Yr enuæ.

Semperuiū yn Latin Senegrene ne Howse leke yn Saesonaec, y vyulys nei y vyufyth yn Camberaec./

Y rhyuiaie

Tri rhyu yd ys yn ei osot or lysæ hñn y rhyu cyntaf a eluir y vyufyith vuyaf eruyd bod dail lydanach ido Ar ail yu y vyufyith leiaf yr hñn[13a] a eluir hefyd yn Groec Trithales am<sup>i</sup> ido deillio deirgwaith yn y vluydyn./

Y Latinuyr coegion aei geilū Vermicularis sef y pryfetlys o achos cyphelybruyd ei dail y rei ynt vn lun a phryfet, ac ei geluir Crassula minor./ Ac o hñn drachefyn y mae dau ryu vn sy ũrryu sef hunnu ar blodæ melynion ac a eluir hedyu yn ein plith ninæ a bethic<sup>ii</sup> yr enu Phrengic sef Trick madam. Aral id venyu nid amgen no hunn sy yn duyn blodæ guelu ũgnion./ Y trydy rhyu ydyu Byufyith guylt yr hunn a eilu rhei yn amperthynasol Portulaca syluestris nei Illecebra can ys nad vnrhyu ynt./ Y lyseuuyr cyphredin ai geilū Vermicularis minor./

Y phurf

Y vyufyith vuyaf nei/r/vydarlys a escyn belydr o cufyd o hyd ne ueithiæ yn huy a modfed o braphder yn vreission ac yn dra guyrðion. ð. Dail breission o vaint ai blaenæ yn vnued a thafot rei yn ymchuelyt tu ar dayar: eil ai blaenæ yn crybychy[13b] nei ymgynnuļ ynghyt ar lun aymuerant lygad./

Y vyufyith leiaf id a lauer o pelydr yn tyfy o y ar yr vn gureidyn yn vychain ac yn laun dail crynion breision bychain blaen veinion ac yn y perued y tyf paladr o rychuant o hyt yn duyn topyn a blodæ guyrðleisio[n]<sup>iii</sup> nei velynion. A'r rhyu hunnu or vyufyith leiaf a uelir ar blodæ melynion (er muyn anguanec o eglur athraoeth nei ohanedigaeth) a eluir yn ur ryu sef Trick madam. Aral ar blodæ guynion yn venyu./ Y trydy rhyu o'r vyufyith sef a eluir y guylt id a dail tra vreision ido yn tyfy ar lun Porslan yn vleuoc ac yn vlaenyfyr

Y le

Y vyufyth vuyaf a dyf yn y mynydoed ac a blennir ar penne/r/tai ac am hynny ei geluir yn gyphredin lysæ pennæ/r/tai.

Y vyufyth leiaf a dyf ar y muriaæ ar cerric ac ar ymrut paruytyd. Y vyufyth leiaf ur ryu a blennir yn y gardæ ac a eluir meun lediaith Phrangaec Pric madam yn[14a] le dyuait y Phranc Trique madam./

Y trydy rhyu a gephir meun leoed carregoc ar hen vaguyr meun guascot nei rhyd cutoeroed nei phosleyd meun trefi./

Yr amser

Y Mai a Mehefin y blodeua y muyaf ar leiaf. Y trydy<sup>rhyu</sup> a dengys ei vlodæ yn velynion vis Mai yn vnic./

Yr artempr

Y dau vyufyth y muyaf val y leiaf ynt daran sychion eithyr tra oerion ac yn y drydy rad o oerfel./ Y trydy rhyu yn ol barn paup o rei dyscedic sy uresoc a ei vlas a duc hynny ar deal y ty, prau ef, ac e lysc dy dafot./

Y rhinuedæ

Y vyufyth vuyaf ei rinued yd yu peri oeri ac attal./ Da ydyu y vediginiaethy tan idu a'r cruc dard a vaco o color melyn, pungaot poethfa or lygait a losc a'r gout o chymerir y dail ehunain nei gyd a blaut guenith ai doddi urtho[14b]

Y suc gyd a blaut guenith ac oleo rhos a vurir ar y penn pan vo dolur o hono./ Ei rhodir ar diot ir nep a vrather gan bryf guenyunic ne ir saul y bo darymred nei haint calonn arno./ Ef a yfir meun guin er caphel ymurthlad ar lyngyr crynion./ O gosodir meun cudyn o ulan ar vod goreith, e attal y guaelin naturiol rhac cerdet gormod ar verchet./ Y suc sy vediginiaeth da

ir lygaid y bof gwaet yn ei argyoedy nei yn guneythr afles ydyn./ Yr vn rhin sy ar dail y vyufyth leiaf. Y trydy rhyu sy a nerth yntho y uresogy ac y mae e môr phraeth dost ac y pâr gody yn chuysic. A gyd a blonec ludynd huch yd irir ar y plorot./

- 
- i Cywirwyd "cân".
  - ii Cywirwyd y gair i "benthic" gan law ddiweddarach.
  - iii Cywirwyd "guelu" drwy ysgrifennu "guyrd[=]leisio[n]" ar yr ochr. Collwyd y cýplýsnod a'r "n" wrth dofri'r ddalen i'w rhwymo. Ond efallai mai glos ydyw "guyrd[=]leisio[n]" ar "guelu".
- 

#### Y Plantan. 8.

Yr enuaæ.

Plantago yn Latin Plantayne yn Saesonaec, Plantan, Lyriad, Soudl Crist a Lydan y phord yn Camberaec./[15a]

Y rhyuiaæ.

Deuryu Plantan sy yn ol barn yr ol hen aurduriet nid amgen no'r maur ar bychan. Plantago maior y Plantan maur am vod saith geuyn ne saith linin yn tyfy ar ei hyt ef a eilu y Groeguyr Hepta pleuron sef y seithgeuyn yn Saesonaec Greate Plantayne nei Weybrode ac yn Camberaec y Plantan muyaf Elyriat ne Lydan y phord./ Plantago minor, y Plantan leiaf o bleit bot ei dail ef yn barthedic mal y gan bemp geuyn nei bemptant a eluir yn Groec Pentaneuron sef y Pempgeuyn. Lanceola a Lanceolata ei geluir y gyd ar lyseuuyr cyphredin ac yn Saesonaec Rybwort yn Camberaec y Luynhydyd nei/r/ystylenlys yn iaith Deheubarth<sup>1</sup>./ Y mae rhyu Phranc yn sengy ei vedul yn esrifennedic yn lyfyr Phucsius am ryu rhei or lysæ hynn a hunnu a vñ

bod rhyu canolic or Plantan a ei alu y mae ar enu Groec Arnoglosson sef Tafod[15b] yr oen a doedyt vod y lyseuyr yn ymarfer o hono yn vaur

Y phurf

Y Plantan leiaf sy a dail meinion medalion, lyfnion, teneſon ac a phalatr ochroc yn pengamy tu ar laur, blodæ luydleision ac ai had ar hyd bric y pelydr./

Y Plantan muyaf yn urthuynep i hynny sy braph a thuf muy yntho ac a dail lydain mal dail Beatus a phalatr hunn sy ochroc gouridoc a chyfyd o hyt, ac uedy/r/amgylchyny a hadæ bychain oe hanner yd ei vric a blodæ melynion ne ueithie yn deilios ar vchaf y tyuys. Ei uraid id tenerion, gulanogion guynion ac o braphter bys./

Y le

Y muyaf a dyf med Phucusius yn naturiolaf garlau corsyd Eithyr e dyf y deuryu gan ystlys y caeæ ar phyrd ac meun gueirglodiae

Yr amser

Y lysæ ar blodæ a glescir dechre haf[16a] sef y Mai ar Mehefin a'r hâd a godir vis Aust./

Yr artempr

Y Plantan id o artemper cymyscedic ac am hynny y mae yn oerfeloc ac yn sych ar vnuaitth./

Y rhinuedæ

Y dail sy nerthoc<sup>1</sup> y sychy ac y attal ac am hynny yd ynt yn da y vediginiaeth cornuydyd<sup>2</sup> ne grefri<sup>11</sup> tra phyrnic a rhyu ohangluyf<sup>3</sup> y rhei a

von yn<sup>4</sup> chuydy g·uaed ac a iachant y p·ungaot

iii Y p·ungaot,<sup>5</sup> y plorot, y crugdard a del o color melyn ar chuydic a del y gan uynt y nos./ Da yu yr dail hefyd rhac brath ci, rhac losc rhac poethfeyd, rhac cilchuyrn a<sup>6</sup> chuarenæ a rhac y<sup>7</sup> brychæ melynion ar uynep dyn. A gyd a halen yd iachant y marugic yn y<sup>8</sup> lygaid./ Suc y dail a garth y dolur or genæ o golchir yn dyfal ac ef./ O burir yn phroenæ y cnaud[16b] idu e dyspeidia./ E una yr suc lesaad y ei<sup>9</sup> vuru yn y clustiaæ ac y ei<sup>10</sup> gymyscu ac eliaæ<sup>11</sup> lygaid./ Y<sup>12</sup> mae yn da ir duyen nei yr cildanned a vo yn g·uaudæ<sup>iv</sup> ac yr nep a vo yn chuydy g·uaed. Ei burir y meun y phord issaf rhac haint c·alonn./ Ei yfir rhac uastio nei nychy./ Ei gosodir meun dluyf o ul·an rhac tacfa/r/vam./ Yr had a yfir ar uin rhac darymret a rhac chuydy yr g·uaet./ Y gureidyn uedy yr veruy sy da y olchy y danned nei y ei gnoy<sup>v</sup> rhac y d·annoed./ Wy dyuedant od yfir tri gureidyn y<sup>13</sup> gyd a thair phiolet o uin y guaredant y cryd a del pop tridie a bot rhin peduar ymuaret rhac y cryd a dau ei cylch pop peduar diernot./ E dyry rhei y gureidyn yn croc urth ei munugyl er m·uyn goyscary chuarenæ./

- 
- i Ychwanegwyd "ic" at y gair, mewn llaw arall yn ôl pob golwg.  
ii Cywirwyd "g·uefri".  
iii Gadawyd bwlch o dri chwarter llinell yma.  
iv Y mae arwydd dileu o dan y gair. Ni allaf ddim dweud ai R.M. ai rhoes yno.  
v Addaswyd "gnoi".

1. wresog
2. cornuydyd-
3. anglwyf
4. +rhedeg o ddwf a bryntni, hwy a waharddant
5. y p·ungaot-
6. a-
7. y-
8. yn y=meun
9. y ei=oi
10. y ei=oi
11. oelio r



12. Y-

13. y-

---

Plantan y dufyr 9.

Yr enuæ

Alisma yn Groec, a Latin, Water[17a] plantayne ac Plantan y dufyr yn Camberaec./

Y phurf.

Alisma sy a dail ido mal ir plantan muyaf anid ei bot yn adfeinach ac yn ymchoelyt tu ar dayar, palatr meinduf sy ido ac vnicol ac yn huy no chubyt ac a bric val y lafruy<sup>1</sup> a phenæ bychedigion ac a blodæ eidil guynion nei uynleision. A guraid bychain mal ir Elebor duy ac yn arogloc ynn lymdost ac yn o vreision./

Y le

Da gantho le gulyb ac a dyf yn amyl, e gephir guelet digon yn tyfy yngoror y lynn sy o y amgylch y tuy pennaf<sup>2</sup> i Syr Iohn Salisbury<sup>1/3</sup> varchoc vrdol<sup>4</sup>./

Yr amser

Yr haf sef pan yu yn ei vlodæ y gelir ei gody<sup>5</sup>./

Yr artempr

Diogel mae guresoc yu/r/lyseun[17b] hunn o bleit bot ei uraid yn dostion ac

mae yntho beth natur crafy ymaith./

### Y rhinuedæ

Yfed gureidyn y lyseun hunn ehunan nei gyd a ei ogymeint or Dauc a una les rhac y cnofeyd a rhac haint calonn./ Da hefyd ydyu ar les yr aelod nei/r/vân a grybycho nei<sup>6</sup> a sytho yn disyfyf ac ar les tagfa y vam./ Y lyseun a attal y boly ac a dyuys y gwaedlin annianol ar verchet ac a esmuytha yr chuarenæ oedemata o dodir urthynt./ Iscel y lyseun a brofod Dioscorides ei vot yn da ei yfet y drylio maen y tosted./

---

i Addaswyd "Salisbury".

1. +aþ
2. +sy
3. Iohn Salisbury=sion Salbri
4. +o lywenl
5. +ef
6. ag

---

### Y lysæ luydion. 10

#### Yr enuæ

Artemisia yn Groec a Latin, a Mugwort y Saesonaec. Y lysæ luydion, Lysæ Ieuan,<sup>1</sup> Y Veldioc luyd nei/r/Ganuraid luyd yn Camberaec./[18a]

#### Y rhyuæ

Yn ol medul Dioscorides y mae tri rhyu or lysæ hynn y rhei hefyd a gephir yd hedy[u]<sup>i</sup> yn<sup>ii</sup> ein plith ni./ Y rhyu a eluir yn Latin Artemisia latifolia, sef y Ganuraid lydandail yu yr lyseun a eluir hedyu yn gyphredin

lysæ Ieuan<sup>2</sup> nid amgenach na'r lysæ a seing y merchet nos uyl Ieuan<sup>3</sup> ym bondo y tai er mlyn rhyu hen goec defot./ Ac o hunn drachefyn y mae deuryu eb dim amrafael anid ar ei liu yn vnic: vn sy uridoc ei balatr ai vlodæ. Yr al sy a phalatr luyduyn ac a blodæ melynion./ Yr ail a eluir yn Latin Artemisia tenuifolia yr hūn ryu a elu y lyseuyr yn gyphredin Matricaria sef y Vamlys nid amgenach no phenicul y cūn nei yr<sup>4</sup> Amranuen./ Y trydy rhyu or Ganuraid<sup>5</sup> a eluir Artemisia[18a] monoclonos ac a eluir hedy y Tansi./ Ac o ryu y lysæ hynn ydyu y lyseun ar blodæ prydfferth nid amgen na hunn a eluir Garyophylli Indi<sup>6</sup> nei Tagetes Indianus;<sup>7</sup> ac nid oes amrafael rhyngtho yn<sup>8</sup> dim ar lyseun hunn einom ni anid bot yn vuy breisc ac yn degach ei vlodæ a ei aroglæ yn duyn rhagor rhac yr einom ni<sup>9</sup>./ Mastr Wiliam<sup>10</sup> Turner sy yn escrifenny<sup>iii</sup> nad yr iaun Artemisia yu y lyseun<sup>11</sup> a alun ni<sup>12</sup> yn gyphredin<sup>13</sup> lysæ Ieuan<sup>14</sup> nei/r/<sup>15</sup>lysæ luydion ac nad ydyu vn rhinued, vn ansauð nac artempr ar lyseun y puyla yr hēn auturieit dyscedic o hono y<sup>16</sup> dan enu Artemisia./

Y phurf.

Y rhyu cyntaf sef ar dail lydain ido sy lyseuluy<sup>17</sup> cyphelyp ir uermot anit ei bot yn vuy ei dail ac yn vrasach ac o y arnun yn urum uyrð ac o y danynt yn luydion,<sup>18</sup> ac o y<sup>19</sup> urth y liu<sup>20</sup> isaf<sup>21</sup> y dodes rhei yn enu arnynt y lysæ luydion,[19a] ac amyl holæ nei vylchæ sy yn ei emylæ, blodæ bychydic sy ydyn a hadæ crynion./ Y rhyu aral sy a dail eidilach ido a blodæ bychain, teneon, guynion ac aroglæ trum./ A phan rubier ei dail uy vn arogl vydan a Sampsuchus./ Y trydy rhyu a dyf ac vn paladr ido a ei dail yn vylchæ mân ei emylæ a lios o vlodæ melynion ym bric y paladr./ Ar lyseun hunn sy a rhagor aroglæ tec rhac y lail. Ac vely y dychon paup deal urth parthiat ei phurf mae yr lyseun a eluir hedy Tansi ydyu a ei vot ef yn drydy rhyu o Artemisia. A rhyu a eluir Tagetes India<sup>22</sup>: sy a

phalatr guridoc ido a lauer o gangennæ ac a dail eidilion<sup>23</sup> a bylchæ  
bychain ynthynt ac aroglæ trum, ac a blodæ melynion ar y bric vchaf ac  
agos ynt i liu Saphron ac nid oes a ei elfyda o brydferthuch./

Y le

Y rhyu cyntaf a dyf neun gulyble[19b] meun le anarloes ac meun le paru Yr  
ail a dyf rhyd glannæ dyfred ar belanæ./ Tagetes India: ny thyf yn ein  
guledyd ni anid le yd heyher./

Yr amser

Pop vn or tri rhyu a glescir yr haf pan vydoent yn ei laun blodæ Tagetes o  
India a vlodea yn dyoedarach ein bro ni./

Yr artempr

Guresoc a sych gogymmetrol ynt ac yd y perthyn ar ures or ail rad yd ynt a  
thu ac at am sychder cyflaun sych ynt yn y rad gyntaf nei vreidsych yn yr  
ail./ Mastr Turner a dyuaid am ein lysæ luydion ni mae braid yd ynt uresoc  
yn y rad gyntaf. A doedyt gahel o hono yr iaun Artemisia meun Ynys garlau  
Venis. ac y mae yn tybyeit y gelir arfer or uermot uenn yn diphic yr iaun  
o eruyd bod ynghylch yr vn rhinued arnadynt./[20a]

Y rhinuedæ

Y deuryu Artemisia sef hún ar dail lydain ar al ar dail culach a barant  
ures a thenøuder: ac guedy ei tuyo y bydant [da]<sup>iv</sup> y uraged y eisted y  
meun ac y beri y gvaedlin anian y descen arnadynt ac y escor ei beichiogi a  
ei uisc gyd ac ef ar hynt./

Da ydynt hefyd rhac tagfa y vam a ei phoethfa: wy dryliant vaen y tosted  
ac a gypelant y trunc attaliedic y gerdet./

O dodir y lysæ urth y cūr isaf y voly y merchet ei anhuy1 a gynhyrfa yn ehelaeth./

Y suc gyd a myrh a osodir yn y vam er peri yr vnrhyu beth ac a una yr ennaint./

A chyfareð gyphredin ydyu yfed puys tri drām or brigæ gyd ar dail er muyn peri hefyd y blodæ y gadu ei curs a ei amser arnadynt.

Yr Artemisia nei yr iaun Ganuraid sy da gyd a guin yn erbyn guen[20b]uyn suc<sup>v</sup> y papi yr hunn a eluir Oppiū./

Plinius sy yn escrifennu vod rhei yn coelio yn ei amser ef na diphyciai yn ymdaith y neb a aruedei y lysæ hynn arno ac na alei cyfareð druc argyoedy ido ac na alei vn anifail na buystfil uneythyd eniued ido./

- 
- i Cromfachau gwreiddiol.
  - ii Addaswyd "meun".
  - iii Addaswyd "escrifennu".
  - iv Cromfachau gwreiddiol.
  - v Cywirwyd "Suc".

- 1. Ivan
- 2. Ivan
- 3. Ivan
- 4. yr-
- 5. gwraidd
- 6. Garyophylli Indi=Garioffili Ivdī
- 7. Ivdianus
- 8. mewn
- 9. anid bod yn...ni./-
- 10. Mastr Wiliam=Mr W:
- 11. +hwn
- 12. i
- 13. yn gyphredin-
- 14. Ivan
- 15. /r/-
- 16. y-
- 17. llysiewyn
- 13. ac o y danynt yn luydion-
- 19. o y-
- 20. tv
- 21. +vddvnt
- 22. Ivdia

Lysæ yr hiðl. 11.<sup>1</sup>

Yr enuæ

Aparine yn Groec, a Latin, Goosharith or Clyuer yn Saesonaec Lysæ yr hitl nei Gynga/r/caeot yn Camberaec. Cynga am ei vot mor aru ac i glyn urth dilat vn: Bugeillieit hefyd gynt a arferei o hitlo laeth druydo ac am hynny y galuyt Lysæ yr hitl./

Y phurf.

Lauer o vân gangēnæ geiruon peduarochochroc sy ir lyseun hunn a dail yn tyfy yn escyl bychain o amgylch[21a] ogylch y palatr a darnæ o hono yn uac: Blodæ guynion crynion a phannul nei obant hychan val bocel dyn./

Y le

Adasaf bân ido dyfy ydyu meun caeæ meun le anarloes ac ueithie y meysyd yd sinnechyd a chonglæ yr gerdi

Yr artempr

Lysæ yr hitl id sych ac yscuriedic yn gymetrol ac mae peth naus gures ynto./

Yr amser

Ei glascy a unair yr haf tra vo ei hat arno./

Y rhinuedæ

Suc yr hat y gwyd ar dail sy da yu yfed rhac brath neidr a phryfet guenyonic eil. O dineuir yr vnrhyu suc meun clust e a esmytha yr dolur o honei./

Y lyseun uedyr[21b] vriuo ai gymmoni gyd a blonec turch a oyscar gilchuyrn a chuarennæ./

---

i Atodwyd "Cleavers Goose Grass Family Herbal 84" gan E.T. uwch ben yr enw.

---

Pauen yr arth. 12.

Yr enuæ

Acantha yn Groec ac yn Latin, a Branke vrsine, Beare breetche nei Cutbertol yn Saesonaec. Pauen yr arth, ne Tafol y mdr yn Camberaec.

Y rhyuiaæ

Deuryu sy or lysæ hynn y cyntaf a alun y guir Acantha am ido gyfatteb a pharthiat ei phurf ym pop bán arno./ Yr ail a elir ei alu yr Acantha guylt./

Y phurf

Dail sy ido led a huy o lauer na dail Letus gozyphelyp i vn rhyu Caul ne Bruca a bylchæ tra dyfnion ynthynt a liu tyuyluyrd ac uynte yn lithric vras ac yn lyfnion./[22a]

Palatr lyfyn o dau gufyd ei hyd ac o braphter bys a mân deiliach mal

darrisc yn attu pigoglym yn tyvy<sup>i</sup> bop ail darn ir palatr, a blodæ guynion yn tyfy o hanadynt./

Had gohir sy ido melyn o liu ac vn benn ar Elestr Thyrsin./ Guraid cypheithlyd guridoc lysnafedoc a hirion ynt./ Nid yu<sup>yr</sup> Acantha guylt yn cyfatteb ar ol notæ hyn./

Y le

Yn y gardæ y tyf y guir Acantha. Ac vely y mae Mastr Turner yn doedyt yn gard y Duc o Somerset yn Sion [ei vot]<sup>ii</sup>. E dyf hefyd med Phucsius meun creigleoed gulybion. A rhyu guylt yn y gardæ ac yn amyl meun gueirglodiæ./

Yr amser

Yr haf y clescir pan vo blodæ a had arno yn enuedic mis Mehefin a mis Gorphennhaf

Yr artempr

Dail yr Acantha sy a rhinued[22b] treulio ynthynt, y guraid y sy sych

Y rhinuedæ

Guraid yr Acantha sy da ar les aelodæ uedyr mynet alan oe le ac y ei dody<sup>iii</sup> urth losc. Ac o cymerir ar diot peri vrin a unant, eithyr attal y boly./ Tra da ynt rhac ysictot ne drylio o y meun; nei y aelot a grybycho, a rhac y ptisic nei nychtot./ Plinius a dyuait hefyd mor da yu guraid y lysæ hynn ar les y podagr nei/r/gout o thuymir a ei dody urtho./



- i Y mae nodau dileu o dan y gair hwn. Ni fedraf ddim dweud ai R.M. a'i rhoddodd yno.
- ii Cromfachau gwreiddiol.
- iii Addaswyd "dodi".

---

Yscaldrain guŷn. 13./

Yr enuae

Spina alba yn Latin, Whyte pryckie thystle yn Saesonaec, Yr Yscaldrain guŷn yn Camberaec./

Y rhyuiae

Cyd na bo Dioscorides yn escrifenny anid o vn rhyu or lysae hynn, etua[23a] cyd bod yn cahel lauer or lysae y syd yn cyfatteb a chyphurf nei ued y lyseun dir yu i ni osot anguanec o ryuiae ido. Ac vely vn rhyu syd a eluir yn gyphredin Carduus Mariae yn Latin Our Ladies thystle yn Saesonaec. ac Yscal Mair nei/r/laeth yscal yn Camberaec./ Y Latinuyr coeth a ei geilu Spinam albam hortensem sef Yscaldrain guŷn y gardae dros ido dyfy yn y gardae yn vnic./

Yr ail rhyu sy nesaf ei ued ai phurf yn ol dyscriat Dioscorides./ Y mae Phucusius yn doedyt uelet o hono vnuaithe y guir Spinam albam uedyr duyn o ulat dieithr: ac o bleit ei vod uedy guyo a sychy ny alod ef beri tynny ei lun ef dim

Y phurf

Dail cyphelip ir Chamaeleon guŷn syd ido eithyr ei bod yn gyfyngach ac yn uynnach sef yn vrychae guynnion y trostyn yn odeuion yn eiruon ac yn

draenogion nei yn bigocion ac a phalatr huy na dau[23b] cufyd ynghylch praphter bys yn oruyn ac yn chuibol o y meun ac ar ei vric y mae pennæ dreinioc nid antebic y<sup>i</sup> drain Echino y mor anyd ei vod yn lai ac yn hir grynion, blodæ rhudgochion yn y rhei y tyf yr had mal y Cnicus nei yr gau Saphran eithyr ei guelir yn grynnach urth gyphelypy y dau had ynghyt./

Y le

E dyf yn y mynyded ac meun le coedioc. Ei plennir hediū meun gardæ megis y guneir am ryuogaethæ er eil o'r yscal./

Yr ail rhyu sef y guylt a dyf meun mân anarloes a thyfodtir./

Yr amser

Yr haf y mae ei gadu tra vo yn ei had: ar Mehefin a'r Gorphenhaf y blodea./

Yr artenpr

Ei ureidin sy sych ac yn attal yn[24a] gymmetrol. Yr had sy o haen [nei hanvot i. essentiæ]<sup>ii</sup> teneu ac o rinued uresoc

Y rhinuedæ

Ei ureidin sy da ei yfed ir nep a vo yn poeri yr guaet ac ir neb y bo anhuyll oe duyfronn. E bair vrin: Ei iscel sy da rhac y dannoed o golchir y daint ac ef./ Yr had od yfir a ueryt blant a vo vn aelot arnun uedy crybychy gan echryshaint ar nep a vratho neidr./

---

i Addaswyd "i".

ii Cromfachau gwreiddiol.

---

Esparag. 14./

Yr enuæ

Asparagos yn Groec a Latin ac Sperage nei Mawort yn Saesonaec. Esparag yn Camberaec. Mastr Turner a dyuait vod deuryu o honau./

Y phurf.

Yn gyntaf yd yspyrsia o y ár y guraid yn baladr bychan aei vricyn yn gygnæ oei amgylch yr[24b] hunn or dyueth gan anguanegy vuyfuy a ymoyscar yn ganæ mourion ar buy rei y byd dail ar ued cunsalt nei vn eidiluch a dail y phenicul y rhei o henaint a diryuant yn dreinioes<sup>i</sup>. Blodæ bychain a dau arno a guedy dyhoyno y rhei hynny y tyf aeron arno o liu guyrd y tro cyntaf y rhei a neuidian yn rhudgoch urth aedfedy a laun had vydan./ Guraid chuisoglyd hirion a chrynon a chnapiæ ynthynt./

Y le

Ef a hehir ac a plennir yn y gardæ ac e dyf ehunan meun rhyu le gulyb. Mastr Turner a dyuait vod yr Esparag cyphredin yn tyfy meun gardæ yn Loecr ac ar ryu vrynæ tyfodoc y gân lan y môr ae vot yn tyfy yn Germania eb ei heu na ei blanny./ Ac ny ueles ef y rhyu a eluir Corruda nei Asparagus syluestris sef yr[25a] Esparag gylt yn tyfy yn vn le anyd ym mynyth Appenin./

Yr amser

Ar dechrey guanuy n y tyf yn yspyr guryrdion urth gychuyn y saul a glasca y

dynion melysdaint yu buyta y pryd hynny./ Ar lyseun hunn a veruir yr ourhon  
meun iscel ac a ei taenelir a vinacr<sup>ii</sup> a halen ac oleo yn brif ancuyt ac yn  
daentedfuyt ir bonedigion pendefigaf./ Ei had a glescir yn ei amser sef yr  
haf.

Yr artempr

Rhinued y grafy ymaith syd ar yr Esparag a hynny eb nac eglurdeb gures nac  
oerfel./

Y rhinuedæ./

Yspyr nei belytr bychain yr Esparag dof uedy ei drylio ai yfed ar uin  
guynn a dyrr dolur yr[25b] arennae./ Yr Esparag uedy rostio ne ei veruy a  
esmuytha ar haint y Stranguria nei gobiso ac anhauster guneythy dufyr, a'r  
haint calonn./ Y guraid uedy veruy meun guin nei vinacr a ueryt aelot  
uedy mynet alan oei le. Ac o beruir gyd a phicus ef a iacha y cryd melyn,  
y guae ym penn y glun, ar Stranguria./

Yr Esparag guylt nei yr pigoc sy da y vedalhay y boly o chymerir ar vuyt:  
a da ydyu y beri vrin, a rhac attal guneythy dufyr, a rhac clefyd or  
arennae, a rhac y Sciatica sef guae yn y glun./ Ac y mae yn da hefyd rhac  
y dannoed./

---

i Dilewyd yr ail "e" yn y gair drwy roi llinell drwyddi. Ni thybiaf  
mai R.M. a wnaeth hyn.  
ii Cywirwyd "vinêcr".

---

Yr enuaē

Anonis et Ononis yn Latin, Cāmok, Rest harrow, Grounde whine, nei litle whine yn Saesonaec. Hub yr ych[29a]en, Cas gan ardur, Eithin yr ieir, nei y Dagaratr yn Camberaec./

Y phurf

Y lys hunn sy a puyd cangenoc ido ac o rychuant o hyd nei huy ac ampl gygnæ ne gymalæ arno ac a phannylæ lauer mal cesseiliaē nei arphedæ bychain a thoppynnæ eidil, a dail bychain mal ir Lens ac yn cyphelypy peth y Dail y Rhut nei yr Melilot y gueynyð sef Loti pratensis ac yn daran aru ac nyd eb aroglæ tec, a phigæ drain yn tyfy yn ei plith. ac agos i vlodæ pys sy ido anid ei vod yn vuy guelugoch nei yn vuy goleugoch uedyr angylchyny hayachen meun codæ: ar gureidin sy uynluyd./

Y le

Tyfy a una yr lyseun hunn meun tir lafur bras cypheithlyd ac yn enuedic yn y caeæ ac yn y[29b] meysyd a digasoc y gan arduyr ac anhaud eb ued ganthyn grino./

A phan damueinio ido dyfy meun tir da e ymestyn ynn vchel o hyt gan ido espyrsio o neuyd bob bluydyn eb yspeidio er mynychet y chualer yd yny diureidier yn olaul./

E gephir guelet y lyseun hunn yn tyfy yn ampl gar lau luybyr a dyuys ar hyt y meysyd ir plas yn Leueni./

Yr amser

Yr haf y dechry vagluro ac yn ol yr ydæ y cynayaf y gorphenn e yspeidio a

ei gynnydy. Mis Gorphenhaf a mis Aust y blodea./

Yr artempr.

Gureidin Hub yr ychen sy uresoc yn y trydyd rad ac a teneua ulybyroed  
teuion./

Y rhinuedæ

E dodir y lyseun hunn cyn tyfy drain nei bigæ arno meun heli[27a] ne halen  
ei cephir yn ol hynny yn vuyt da./

Rhisc y gureidin a yfir ar uin y beri urin ac y dorri maen y tosted ac e  
garth ymaith grest nei darrisc lynorot./

Y gureidin uedyr veruy meun vinacr a mel a dyrr y ūyn nei yr dolur or daint  
o chyfolchir ac ef./ E dyuedir mae da yu yfed iscel hunn yma rhac yr  
Emerods./

---

Anis. 16./

Yr enuæ

Anison yn Groec a Latin Anis yn Saesonaec a Chamberaec./

Y phurf./

Yr Anis sy debic ei balatr ei dail a ei vlodæ yr Persli: o bleit palatr  
gouryoc syd ido yn grunn ac yn gangēnoc. Ei dail yn y dechre vydan grynion  
ac urth dyfy yd ymohanan yn gyrioc ei emylæ ar ued dail Persli Blodæ  
guynton a ei vric syd gyphelip ir phenicul./ Nid amgen[27b] yr aroglæ ar

yr ol lyseun nac ar yr had./

Y le

O ulat Syria<sup>i</sup> yd henyu y lyseun o'r dechre eithyr y mae ef yn tyfy yr ourhon meun lauer o ardæ yn Germania./

Yr amser

Misoed Mehefin a Gorphenhaf y blodea ac yd hata./

Yr artempr

Guresoc a sych ydy yn y drydy rad

Y r<sup>i</sup> nedæ./

Yr Anis a uresoga ac a sych ac a una arogl yr anhetl yn decach, e a esmuytha dolur ac a bair gahel piso yn rhuydach. E diphod y sychet ar y nep y bo y dropsi. Y mae e yn da yn erbyn guenuyn anifeillieit ac yn erhyn guynt./ E oystega y boly ac a attal y blodæ guynn[28a] ar verchet./ E vac laeth yn y bronnæ./ E bair ar dyn anladrud nei chuantach./ Ef a esmuytha y dolur or penn o derbynnir ei vuc y meun ir phroenæ./ O sigir a ei vuru gyd ac oleo ros meun clustiaæ briuedic iach vydan./ Goræ ydy y lysæ hynn yn neyud ac yn disothach ac yn cadu aroglæ da. Y rhei goræ a dau o Candi. ar ail goræ or Aipht./

---

i Addaswyd "Siria".

---

Yscau. 17./

Yr enuæ

Sambucus yn Latin, An Elder tree nei a Boure tree yn Saesonaec ac Yscau yn Camheraec./

Y rhyuiæ.

Deuryu syð o honau vn id brenn ac a eluir Sambucus: Y rhyu a l a eluir yn Latin Ebulus ac yn Saesonaec Danewort ne Walwort. Ar enu Walwort a venthyga y medygon Cambereic ir Camheraec: De[28b]uisach genny vinne no guesta eb raid nac angen gyfansodi enu o ein iaith ein hūnain aei alu yr Yscaulys ne Yscau Mair./

Y phurf

Yr Yscau a dyf yn bren<sup>n</sup>aduyn a ei uiaail a yspyrnian yr vn phynyt ar cyrs yn grynon yn uynnluydion ac yn hirion a dail bop dair, bop pedair bob pemp, chuech, ne saith a dyfant yn cylch y culymæ ar y cyrs, a darnæ o hanadynt yn noethion eb na chygyn na dail ac arogl trum ar ued cnau Phrengic syð ar y dail a bylchæ amyl ynthynt a thoppynnæ bagadoc crynion sidilued ar vrigæ y cangæ, blodæ guynion, a graun nei aeron coch duon yn laun gronynnæ, suc a gufn Ebulus yr Yscaulys nei Yscau Mair id fs a lai ac yn nes ei gyphelypruyd y ryuogaeth lyseun ac a phalatr peduar ochroc ido ac amyl gymalæ a dail yngogylch pop cŷ[26a]mal mal adaned ar gyfor ei gylyd a chyfyngæ y rhyngthyn eb yr vn./

Tebic ynt y dail y prenn Almond anid ei bot yn huy, yn vylchoc ei emylæ ac yn dreuedic ei aroglæ. Ac yr vn phynyt yu ei vrigynnæ, ei phruyth, a ei vlodæ ar prenn yscau./

Gureidin hir syð ido o braphter bys./



Y le<sup>i</sup>

Y deuryu a dyf meun le guascodic ac yn enuedic meun le aggaru a gar lau dyfred./ Ebulus nei/r/yscaulys a dyf hefyd meun rhyu veysyd. Gar lau Elsmer y gueleis i y rhyu yma yn tyfy yn deu ac yn ampl./

Yr amser

Bychedic cyn hirryd haf y blodea yr yscau: Diuedarach sef y Mehefin ar Gorphenhaf y blodea yr Ebulus ac Aust y duc ef ei aeron./

Yr artempr

Pop vn or deuryu sy a nerth yntho i sychy yr hynn a dengys yn eglur y chuerued a'r attal bychedic syd yntho./[26b]

Y rhinuedæ.<sup>ii</sup>

Megis y deiryd enuæ yr yscau a yr yscaulys yu gylyd vely y mae cyfneseifruyd perthynasol y rhync ei rhinuedæ ai galu o bleit yr vn rhin ar vn nerth syd ar y dau sef i sychy ac y duyn y dufyr y vyny or cyla, a druc ydynt ar les y duyfron./

Y dail a veruir val caul y gahel escor color a phlêm Yr vn rhinued a gehir ar y pelytr o beruir uy meun patel nei ar dysclæ./

Y gureidyn uedyr veruy meun gufn a ei dody meun buyt a ueryt y dropsi./ Ac od yfir ef yr vn mod da ydyu rhac brath guiperæ./ Ei iscel a vedalha y vam os y ureic a eisted yntho ef a elung y guynt yn rhyd o hanadynt ac a uela ei ampuyntiæ. A'r vn gyfared a una yr aeron nei/r/graun anid ei yfet ar uin. Ac uy a duan ualt od irir. Y dail ieuainc tynerion uedy dody urtho mal yud a iacha ymlosc nei boethfa./ Wy a vediginiaethant losc a brath ci o gosodir urtho./ Wy gyfanant y cor[30a]nuydyd a vo uedyr tyly yn dufyn ac ymagori yn phroenæ./

Y dail sy da rhac y gout o gosodir urtho gyd a guer taru nei hyfyr./

- 
- i Atododd E.T. "Wrth Gapel Glynn Ceiriog y tyf".  
ii Crynhowyd llawer o'r rhinweddau ar yr ochr mewn llaw gyfoes. Nid oes yna ddim gwahanol i'r testun yn y crynhoi heblaw am "cyfannu ulcers" fel ymadrodd cyfatebol i "Wy gyfanant y cornuydyd".
- 

Ammi. 18./

Yr enuæ

Ammi yn Groec a Latin. Ameos yn Latin lygredic a mal na cheisioed ieithoed eil or mefyrio enu neuyd ido ac mór haud ydyu adrod y gair ninne aei gadun yn Ammi./

Y phurf

Ammi syd a phalatr crún ido ac yn lyseuued a lauer o gangæ bychain yn tyfy ar ei hyt. deilien aduyn gyfinc ac emyl bylchoc o ei amgylch. Blodeun guŷn a brigin mal ir lyseun a eluir Aneth a had phraeth gochueru eidilach o lauer na yr Cúmin[30b] a thebic ei vlas yr Origan, Gureidyn cannaid crafangoc./ Phucusius sy yn tybieid ac yn credy mae yr lyseun a eilu lygruyr Latin Ameos yu yr guir Ammi. Mastr Turner sy yn amme gan dyuedut vod yn tyfy yn Itali vn guel a ei uelet o hono ai dail yn lai nac yr vn o dail yr hunn y syd yma i gyd a nyni a bod ei had yn dyfod ar uerth i Phrancphord dan enu Amomi a bot er hynny rhei yn ei alu y guir Ammi./

Y le

Nid yu ef yn tyfy yn vnle yn Germania nac yn yr Ynys honn o dieithr yn y

gardæ pan hayer. M: Wiliam Turner a dyueit ei vot ef yn tyfy yngard ei argluyd veistr yn Sion. Yn gardæ dinas Paris yn Phrainc y mae e yn laun./

Yr amser

Aust y blodea ac guedy diflodeo yd hata./[31a]

Y rhinuedæ

Had Amni sy da rhac cnofeyd, rhac anhauster guneythy dufyr a rhac brathæ pryfet guenyunic od yfir ar uin. E bair y gwaedlin anianol ar verchet./ Ei dodir meun eli yssy yr hunn a gypheithir o adnoc a eluir Cantharides y uaret y stagiad nei attal trothi ne biso<sup>i</sup>./ Gyd a mel y dilea gleisiae./ Ei vuc ef gyd a resin nei ystor a garth y vam./ E dyueit rhei yr ymduyn gureic yn gynt o chymr hi aroglæ y lyseun hunn pan vo hi yn cydurieth./

---

i Ceir "piso ne drothi" yn y gwreiddiol efo "2" uwch ben "piso" ac "1" uwch ben "drothi". Felly diwygiwyd y darlleniad a'r treigladd yn ôl y gofyn.

---

Pidin y goc. 19./

Yr enuæ

Aron yn Groec a Latin. Cooockow pyntle, Rampe, Wake Robin, ne Aron yn Saesonaec Pidid y goc yn Camberaec./

Y phurf

Dail sy ido mal Dracuncu[31b]lus nei lysæ yr neidr pe nad huy y rhei hynn

ac yn anamlach macul nei vrych arnadynt. Ei palatr id o rychuant o hyt ac yn o rudgoch ac ar lun gorduyn o yr hunn y dau phruyth alan o liu Saphran. Y gureidin sy gannaid mal gureidin y Dracunculus yr hunn uedy verui a vuyteir o bleit na byd cyn dosted ac ymblaen./

Y le

Tyfy a una yn y coedyd ne le bo guascoet<sup>i</sup> a leoed gulyboer ac odit van haus ei uelet nac ynguaelot caeæ

Yr amser

Ei dail a dyf y' Maurth yn vn or lysæ cyntaf a del druy yr dayar ar Mehefin y dyhoynant mor gubyl ac braid y medryt ar y lyseun urth ei phurf ymblaen lau./ Ei had a gephir y Gorphenhaf ac Aust o liu guyrđ yn gyntaf ac ar hynt yn Saphranoc./[32a]

Yr artempr

Yr hen bennaudur Galenus a dyuait mae guresoc a sych ydyu Aron yn y rad gyntaf. A thraethod ef o gyfryu Aron nad yu dra thost. Eithyr diameu yu bod yr Aron a dyf yn ein guledyd ni rhac mor dir dost ydyu yn uresoc ac yn sych yn y drydy rad

Y rhinuedæ

Gureidin had a dail y lyseun hun id vn rinued a lysæ yr neidr. Y gureidin a dreuir ar y gout gyd a busuel buuch er ei esmuythay. Ac ei ceduir urth raid mal y guneir am uraid lysiæ yr neidr Ac o bleit bleit<sup>ii</sup> bot y gureidin a blas symyl e dysyf rhei gahel ei vuyta, ac yn enuedic meun cyfryu uledyd ac nid ydyu guraid y lyseun cyn dosted ac yd ynt yn Germania nei yn yr Ynys honn: Ac am hynny pan chuenychych[32b] arluy y guraid hynn

rhaid y ty vuru ymaith yr iscel cyntaf y beruyt uy yntho a thyualt dufyr  
beruedic yn dysyfyt am ei penn

- 
- i Dilewyd yr "e" yn y gair. Ni thybiaf mai R.M. a wnaeth hyn.
  - ii Dilewyd y gair, ond nid ydwyf i ddim yn meddwl mai R.M. a wnaeth hynny.

---

Cacamucki<sup>i</sup>. 20./

Yr enuae./

Personatia yn Latin a Burre yn Saesonaec. Cacamucki nei Cribae yr bleidiae  
yn Camberaec a'r Cynga y galun ni uy yn gyphredin yn Guyned hedy

Y phurf

Y Cacamucki id a dail braisc or tu isa yn luydion ar tu vchaf yn uyrdion:  
palatr guridoguyn ac a chynga mourion arnadynt y rhei a lynant urth dilat a  
gyfyrdō ac uynt ym puy rei y tyf blodae guyngochion yn baglurau yn anamluc  
ymlith ehunain./ Gureidin phurf sy ido yn uynn o y meun ac yn uynn o y  
alān[33a]

Y le

E dyf ym pop le ac yn enuedic yn goror ac arhyd emylae gueirglodiae a  
meysyd

Yr amser

Y Cacamuçi a duc ei gynga aei vlodae vis Gorphenhaf./

Yr artempr

E bair dreulio a sychy ac attal y chuaen

Y rhinuedæ<sup>ii</sup>

Dail Cacamucci sy da yu dody urth hen lynor./ Ei suc a yfir ar hên uin rhac brath neidr. Apuleius a dyuait o guregysir ar dail dyn y bo yr cryd arno yd af e yn iach yn y vann ac y dau ei ures yn ei le. Ar dufyr y beruer ei dail yntho sy da y<sup>iii</sup> iro guely pe rhon a darfod ido cancrio: ac yno curo salpetr a blonec ludyn huch a ei gymyscy gyd a vinacr ar dufyr hunnu, a ei daro ar gadach a ei dody urtho./

Y gureidin uedyr[33b] curo gyd a thalm o halén sy vediginiaeth uaredoc yu dody urth vrath ci cyndeirioc./ Suc ei dail gyd a mel a roir ar diot i beri vrin ac y iachay dolur y chuysigen. Iach ydyu yfed poudr o ei had meun guin pur dros dau ugain die rhac guaeü ym penn y glun./ Y dail hefyd uedyr curo gyd a guynn uy sy dra da yu gosot urth losc./

---

i Cywirwyd "Cacamocki".

ii Ysgifennwyd "Gout & rhumatism" ar yr ochr wrth ddechrau'r is-adran hon, ac "urine" a "setica" tuag at ei diwedd. Llaw E.T. ydyw.

iii Addaswyd "i".

---

Yscol Vair. 21./<sup>i</sup>

Yr enuæ

Ascyron yn Groec a Latin, Greate Saint Johns Wort yn Saesonaec ac Yscol Vair yn Camberaec./

Y phurf

Ascyron id vn o ryuogaethæ yr Eirinlys eb amrafael rhyngtho anid ar vaint:  
canys muy ydyu ei gangæ ac amplach ei yspyr a guyrð velyn ei liu. Blodæ  
melynion sy ido ac a had yn gyphe[34a]lip yr Eirinlys ac aroglæ ystor yr  
hunn had pan vriuer a una yr bysed yn uædliu hayachen./

Y le./

Meun le garu uylt y tyf

Yr amser

Yr haf ac yn vynyachaf ar vis Gorphenhaf a mis Aust y blodea

Yr artempr

Teneu o haen ydyu ac am hynny y guresoca ac y sych./

Y rhinuedæ

Had y lyseun hunn sy da rhac y Sciatica od yfir gyd a dufyr a mel ynghylch  
dogyn vgain uns: e garth hefyd yn dirfaur ulybyroed y colera: eithyr  
rhait yu ei gymeryt yn oystatol yd yn y uela y claf./ A mae y lyseun hunn  
yn da rhac losc./[34b]

---

i Ysgrifennodd E.T. "mislaid" ger yr enw, ac ar waelod 34a atododd  
"Ascyum St Peter's wort".

---

Dail y Vendigait. 22./

Yr enuae.

Androsæmon yn Groec a Latin a mastr Turner a vŷn mæe yr lyseun ydyu a eluir Agnus castus gyd ar Potecarieit ac os ef Dail y vendigait y geluir yn ein iaith ni. Eithyr mastr Turner a dyueit nad edwyn y Potecarieit dim or guir Agnus castus./ Tutsane y geluir hun yn Saesonaec./<sup>1</sup>

Y phurf./

Nyd yr vn lyseun yu Androsæmon ar Hypericon sef yr Eirinlys nac ac Ascyrion sef Yscol Vair o bleit bot ido lauer o gangæ, a guiail a dail mal i Rhut eithyr tri nei beduar muy o buy y rhei pan ysigir y dau suc guinol nei uaedliu alan a lauer o gesseiliæ nei bannylæ sy rhung y dail ar paladr: Ac ar ei vric y tyf dail bop duy gyfeiryt a ei gylud ar[35a] lun adaned ederyn yn ehedec ac yn ei cylch y byd blodæ bychain melynion a had meun gleiniæ bychedic yn tebic ir Papi duy ac a phillioneaæ yn ei gohany, ac aroglæ ystor vyd ar y brigdail pan drylier uy./

Y le./

Cnaud ido dyfy yn yr vn le ac y tyf Yscol Vair./

Yr amser

Misoed Gorphenhaf ac Aust y blodea./

Yr artempr

Guresoc a sych ydyu

Y rhinuedæ



Had y lyseun hunn uedyr curo a ei yfed dogyn dram o honau a escor lysnafed a gulybur y color./

Gore peth ydyu y iachay y Sciatica nei yr guaeŷ or glun./ Eithr yn ol y purgasiun bot yn rhaid ir claf yfed dufyr./ Y lyseun[35b] sy da y vediginiaethy losc o gosodir urtho, ac y dorri guaeŷ gueli./

Ac nid yu y rhinued honn yn vníc ar y lyseun amyn ar y guin y beruer y lyseun yntho vegis y tystiolaetha Galenus yr hunn y dan vn enu sef Androsæmon y sy yn cŷnuys Ascyron hefyd./

---

i Ychwanegiad diweddarach ydyw: "Tutsane y geluir hun yn Saesonaec./".

---

#### Meryu. 23./

Yr enuaŷ

Iuniperus yn Latin, Ieneper nei Iuniper yn Saesonaec, a Meryu yn Camberaec./

Y rhyuiaŷ./

Dioscorides a draetha o deuryu sef y muyaf a'r leiaf ac nid oes dim amrafael y rhyngthynt anyd ar veint y prenn ac ar yr had.

Y rhyu leiaf id isel ac a changennæ yn gorued ar hyd y dayar ac a graun bychain a ei uraid yn[36a] tyfy rhyd uynep y dayar. Y rhyu muyaf a dyf yn vuch ac a gynnyd yn gyneint a phrén a choroph aduyn vyd ido rhisclin brau a phrén melyn rhud arogloc bêr ac a changennæ<sup>i</sup> ledanach yn laun pige drain, a graun megis yr al hagen ei bot yn vuy./

Y phurf

Yr vn drych syđ ir deuryu bricuyrd̄ vydant yn oystatol, a dreiniach yn hytrach no dail, onid ei bod yn uyrđion syđ yu ađurnau./

Rhisc teneu brau ac anhaud̄ gantho agenny a phrenn rhudfelyn yu, yr hunn o dodir yn t̄an a dyry v̄uc aroglb̄er yr hunn druy nerth teguch ei aroglæ a urthlad̄ glefyd y nodæ./ Ac anser haf yđ y dyuait yr escrifenuyr dyuethaf oʳr Groec uyr e dafna o hono đacre cynb̄ebic o liu ac arogl ir th̄us yr hunn y gan y gures a[36b] galeta ac a ymglasca yn ḡum nei wefr./

Y prennæ hynn a đuc aeron guyrđion yn gynta a guedy yr adfedan y duan. y rhei a dric ar y cangæ đuy vlyned̄ cyn cubyl aedfedy: ac am hynny y mae rhei a dyuaid y byd aeron teirbluyđ ar y coed ar vnuaith sef aeron yr l̄yned̄ eb vod etua yn aedfed, aeron y drydy vlyuđyn cyn y leni yr ourhon yn aedfed ar trydyđ y leni o aeron yn ieuainc ac yn neuđyđ./

Y le

Gnota le ir Meryu dyfy ar y mynydeđ ac ar dued̄ y m̄or, ny chuenychant dyfy meun dolud̄ na lafurdir./

Yr amser

Y cynayaf y clescir aeron y Meryu eithyr y cyfryu ac a vu yn aedfedy tros đuy vlyned̄./

Yr artempr

Y Meryu id uresoc a sych aʳr đau id or drydy rad̄. Ar aeron hefyd[37a] id gyphelip o ures, eithyr nid yu gyphelip o sychder ac yn hynn y mae oʳr rad̄ gyntaf./ Y đacre id uresoc a sych yn dyueth yr ail rad̄./

Y rhinuedæ

Y deuryu id lyndost a guresoc ac a escor vrin./ E muc pán loscer y coet hynn a uyltia nadroed./ O ei aeron uy rhei a gephir yn gymeint a pha yr eil yn gymeint a chnau Phrencic yn grynon ac yn arogloc: ac urth ei cnoi yn velys ac yn ochueruon./

Cymmetrol y guresogant ac yd attaliant, a da ynt ar les y cyła./

Ei hyfed sy iach rhac ampynt or duyfronn, rhac y pesuch, rhac chuyd o uynt, rhac cnofeyd a guenuyn. Da ynt y beri vrin./

Da ydynt hefyd ar les aelod nei le ar gorph dyn a vo uedy crybychy o echryshaint./ A mediginiaeth a unant yr nep a dorres ei lengic a guaret tagfa y vam./[37b]

Dail piraethdost syd ir Meryu ac an hynny y guasanaethant uy a'r suc mal ei gylyd yu dody urth vrath neidr ac o uin yu yfed y rhagdo./ Y rhisc hefyd uedyr loscy a ei osot gyd a dufyr arno a dilea yr haint maur./ Creifion y prenn a ei lyncy a difa./ Y dacre gum a del o honau alan sy da y dorri guaedin phroenæ o churir gyd a guyn uyi a ei dodí ar y neidruydæ ar talkén./ E lad bryfed yn y boly./ E oystega yr haint guet ar y merchet./ Y mae e yn da y iachay y gagennæ a dyrr ar duylo ne draet./

---

i Mae llinell doredig o dan y gair a'r llythyren "q" gyferbyn ag ef ar yr ochr. Nid ydwyf ddim yn medru dweud ai R.M. a'i rhoddodd yno.

---

Lysæ Simeon. 24./

Yr enuæ.

Alcea yn Groec a Latin. Vervayne malow yn Saesonaec y lyseuuyr cyphredin

aei geilu Herba Simeonis sef Lysæ Simeon./

Y phurf

Vn o ryuogaeth yr Hockys guylt[38a]ion ydyu a dail cyphelip ir Verven nei yr Cās gan gythraul: a thri nei beduar o belydr ido a ei risc mal rhisc cuarch a blodæ bychain vegis Ris, a phemp nei chuech o uraid guynion lydain o hanner lath

Y le

Meun tir bras ac nid meun tir sych y tyf./

Yr amser

Misoed Gorphenhaf ac Aust y blodea

Yr artempr./

Vn o lysæ plastr ydyu a sych o ansod eb dim rhagor gures nac oerfel

Y rhinuedæ

Guraid y lyseun hunn uedyr yfet ar dufyr ne ufn a vediginiaetha haint calonn, echryshaint, ac ysictot nei dōr lengic ac yn enuedic ei ureidin./

Yr Apotecarieit a[38b] arfer or lyseun hunn rhac tyuyluc lygait yn gymeint ac y cred rhei na bo anyd o ruymo y gureidyn urth y munugl y goleua ac yd amdiphyn y drem alan o vesur./

Gualt Guener. 25./

Yr enuæ<sup>i</sup>

Adianton yn Groec a Latin, Venus heare yn Saesonaec sef Gualt Guener yn Camberaec./ Ef elir (os rhy dieithyr yr enu vchod) ei Gambereico yn ol yr enu Latin al sef Capillus terræ aei dyuedyt Gualt y dayar.<sup>ii</sup>

Y phurf./

Dail gorwynion syd ido nid ancyphelyp<sup>iii</sup> ir Coriandr a minæ danedoc ydynt a phelytr duon eidilion vn ei cynnal o rychuant o hyd ac yn dyscleinio ac ny duc e na blodæ na had./

Y le

Meun leoed dirgel meun corsy![39a] a muroed gulybion a garlau phynnoniæ y tyf y lyseun hunn./

Phucusius ac W Turner sy yn dyuedyt eil dauoed na bu ydyn ar uelet y lyseun hunn yn tyfy yn ei guledyd uy sef yn Germania a Loecr anid y mae pop vn yn doedyt ei vot yn tyfy yn yr Ital./

Yr amser

Yr haf y tyf yn uyrđ ac ny chrina y gayaf./

Yr artempr

Cymmetrol o ures ac oerfel yu y lyseun hunn eithyr sych ydyu./

Y rhinuedæ

Iscei Gualt y dayar uedyr yfet syd da rhac diphic anhetl a rhac yr vchneidion, rhac y duec, rhac y cryd melyn, a rhac anhauster piso./ E

dryllia vaen y tostod ac a oystega darymret ac a vediginiaetha vrathæ nadroed. Da[39b] ydyu ei yfet ar uin ar les cyla rhedegoc./ E bair y gwaedlin naturiol ar verchet, ac a dyuys yr ail geni./ E oystega ac a lestair chuydy nei boeri yr gwaet./ Y lyseun yn ambrud sy da yu dody urth vrath neidr./ E adneuyda ualt ar arfoeled. E dilea chuarennæ nei gnyckie caledion. a gyd a leisu y carth e varudon a chenn o y ar y penn./ E geidu y gualt rhac syrthio o chymyscir a Ladanun a ei doddi ar y penn gyd ac oleo myrt: oleo Lili nei gyd ac ystor a gufn./ Yr iscel y beruer y lyseun yntho uedyr vuru am benn leisu a guin a una yr vn rhyu beth./ O rhoir y lyseun hunn ar vuyt y posieir ne yr ceiliogot e bair ydyn ymlad yn leuach noc ebdo./ Y lyseun hunn a bair yr duyfronn escor gulybyræ guydyn lysnafedoc./

- 
- i Gwthiwyd "Yr enuæ" yma wedyn.
  - ii Rhwng "Yr enuæ" ac "Y phurf" gwthiodd E.T. "Adiantum verum, Adiantum album, Adantum Nigrum, Adantum Aureum, Trichomanes English Maidenhair".
  - iii Addaswyd "ancyphelip".

---

Guinuyden. 26./

Yr enuæ./

Vitis vinifera yn Latin, a Vyne[40a] yn Saesonaec: Y Winuyden ryuic yn Camberaec./

Y rhyuæ

Nyd<sup>i</sup> oes diben ar veint a gephir o amryu uinuyd eruyd pa am y nep a chuenycho adnabot yr amrafel ryuæ darleet y pedueryd lyfr ar dec o uait

Plinius o yr historia natural<sup>ii</sup>./

Y phurf

Y uinuyden id orueidioc ac any chynnalir syrthio ir laur a una./ O y urth y gureidin y dau vn paladr o uialen uedyr ymnydy ar ued guden yr honn a oyscar yn lauer o gangæ a lios o riscoed gagennoc aei amuisca a ei baglûr yn cyfeirio hunt ac yma a mal yn ceisio gafael dån duylo y ymattal ac ymdyrcha urtho. Ampl vrigynnæ modruyoc vyd arnei a dail lydain[40b] enylfulch goamyl, a blodæ sidanoc yn gogylchy yr phruyth a grap yn vagadæ nei bentûr o aeron ueithiæ o liu guyngoch, ueithiæ o liu coch, ac ueithiæ er eil o liu guyrd ac a hadæ yn cud meun codcenæ./

Y le

Odit o ard yn Germania med Phucusius eb uinuyd yn tyfy ynthei. Y maent uy yn tyfy yn gardæ Loecr ac yn duyn aeron hefyd cyd na bo vaur vud o hanadynt

Yr amser./

Yn cylch hanner haf y blodea y guinuyd ac erbyn cynayaf y byd ei haeron aedfed./

Yr artempr./

Ansod pop rhân ir uinuyden syd eglur o bleit grâps nei aeron anaedfed y guinuyd ac yn suri[41a]on ynt oerion a sychion, ac yn aedfed guresoc a gulyb vydan yn y rad gyntaf yn ol audurdot Simeon Sethi./

Y rhinuede

Dail y guinuyd ai tynerion vaclur<sup>iii</sup> uedyr curo ynghyd aei dodî urtho id da

rhac dolur or penn, rhac poethfa a thra gures or cyla aei gymryt gyd a blaüd guenith./ Y dail hefyd a uasanaetha ei hunain y ei doddi urtho sef oeri ac attal yu ei rhinued./

Suc y dail id da yu yfet rhac haint calonn, rhac poeri yr gwaet, ac yr nep ny bo ei duyfronn yn ei huyl./ O gulychir y tynerion vlagur onadynt uy meun dufyr a ei yfet e gephir yr vn gyfared arnadynt./ Y deicr a difera or prenn ar ued guin a yfir gyd a guin er escor maen y tosted./ Y mae e yn da i iro[41b] ar gramennæ ac ar y cluy maur./ eithyr rhait yu ei ruglo yn gyntaf a salpetr nei halen y garrec./ Yr vnrhyu deicr uedy ei rubio yn vnyrch gyd ac oleo a dynoetha vleu nei ualt ac vely y guna y mugdarth gulyb a chuyso or baglur ac o vrigynnæ y guinuyd urth ei losci. Ar gulybur hunn a dilea grugdot./

Ludu blaęur a briuyd y guinuyd gyd a guinecr sy da yu doddi urtho ynghylch yr eistedle rhac y pilis./ Y mae e yn da ar les y cymal aeth alan o ei le a rhac brath neidr. A gyd ac oleo rhos a Rut a vinacr y gosodir urtho rhac poethfa y Duec./ Pop rhyu grap yn neuyd a gynnyrfa y boly ac a leinu y duyfron o uynt./

- 
- i Addaswyd "Nid".
  - ii Cywirwyd "naturiol".
  - iii Y mae "q" gyferbyn â "tynerion vaclur" ac y mae llinell doredig o dan y ddau air. Ni allaf ddim dweud ai R.M. a'i rhoddodd yno.

Yr enuæ.

Aconitum yn Groec a Latin, Spy[42a]der worte yn Saesonaec



## Y rhyuiaë

Deuryu Aconitum y syđ vn a eluir yn Groec Pardalianches sef Leopard-dâc.  
Yr ail a eluir yn Groec Lycoctonon sef y Bleid-dâc nei Lysæ yr blaid./

## Y phurf

Aconitum Pardalianches vyđ a thair nei bedair o dail cyphelip ir  
Cyclaminium nei/r/Cucumer gnylt anyd ei bod yn lai ac ynn oaru./ Eithyr ny  
vynn M Turner vod vn anser lai no phedair dalen ir lyseun iaun, ai bod eb  
dim garuder arnynt. Palatr o rychuant a gureidin gnyrgrin mal cloren  
scorpion<sup>iii</sup> ac yn discleinio megis Alabastr./ Aconitum Lycoctonon id a dail  
ido ar ued dail y prenn Platan amyn yn emyl[42b]fulch yn huy ac yn duach a  
phalatr mal rhydnen ac o vchter cufyđ ne vuy; troed crach; blodæ  
gohirion melynion ac yn ei le y dau codæ gohirion a had yntynt./ A guraid  
duon

Y rhyuiaë<sup>iv</sup>

Y rhyu cyntaf o Aconiton a dyf yn amyl meun coedyđ a rhyu vrynæ Yr ail  
rhyu a dyf meun cymmæ a dolyđ mynydic gordyfnion./

## Yr amser./

Y rhyu cyntaf yr lyseun hunn a dau alân or dayar vis Mai: yr ail o veun yr  
haf y Myhefin ar Gorphenhaf y blodea./

## Yr artempr./

Y lysæ hynn a difan gân yssy a phytru ac am hynny angheuol ydyu yr ol  
ryu./

Y rhinuedæ

Wy dyuedan o dodir y gureidyn[43a] y<sup>v</sup> rhyu cyntaf or lysæ hŷn urth scorpion y diphruytha hi, a thrachefyn er cynted y cyfyrho hi ar Helebor<sup>vi</sup> hi a gaiph ei phruyth adref./ Rhei a arfer o dody hun meun eliaæ lygait y laysy y dolur o hanynt./ O dodir y lyseun hunn meun cic a ei vuru le capho anifeillieit nei vuystfiloed guyltion ei vuyta e aei difa eb ado vn byu. Ei dodir vely y lad luynogot.<sup>vii</sup> Y rhyu al yr hunn a eluir y Bleid dâc a dâc ac a difetha y Bleidiaæ. Ar Bleid dac ar ol uenuyn id brysuraf guenuyn./ Er hynny e dyueit Plinius mae da yu yfed hŷn rhac brath scorpion. A lyma gynnedf y Bleiddac o gelir coelio Plinius y lad e y dyn a ei cymero o dieithr ido gahel o veun dyn ryu beth a alo ef gael ei lad<sup>viii</sup> ac a hunnu yd ymlad e yno yn vnic mal uedi cahel ei gyfaiit./ Ar ymlad yma a damuain yn vnic pan gapho ef uenuyn yn yr ym[43b]yscared./ A maur yu yr rhyfedot yr dau uenuyn angheuol varu meun dyn er muyn ei achup a ei uared ef./

- 
- i Gadawyd bwllch yma.
  - ii Gadawyd bwllch yma.
  - iii Cywirwyd "Scorpion".
  - iv Dileodd rhywun "Y rhyuiaæ" ac ysgrifennodd E.T. "y le" gerllaw.
  - v Y geiriau cydio ar waélod 43a ydyw "o rhyu". Ar ben 43b ceir "y rhyu", gydag "o" wedi ei haddasu i wneud "y".
  - vi Y mae llinell doredig o dan y gair a'r llythyren "q" gyferbyn ag ef ar yr ochr. Ni allaf ddweud ai R.M. a'u gwnaeth.
  - vii Ychwanegiad diweddarach ydyw "Ei dodir vely y lad luynogot..
  - viii Dilewyd "ef" ar ôl "lad".

---

<sup>i</sup>28./

Yr enuaæ

Aristolochia<sup>ii</sup> yn Groec a Latin

## Y rhyuifæ

Tri rhyu Aristolochia a escrifenna y Groec uyr o hanadynt. Vn ar syd grunn a'r benyu y geluir. A'r ail syd hir a gur ryu ydyu. A'r trydy a eluir Clematitidis eruyd ido dyfy yn gangoc./

## Y phurf.

Aristolochia rotunda nei yr escarllys gronn id a dail megis dail[44a] eideu ac a phraeth arogl arnadynt, gogryinion ac a lauer o vaglur ar yr vn gureidin: cangæ taran hirion syd ido, blodæ guynion mal cappanæ bychain yn y rhei y mae peth coch bychan a sauyr trun arno: a gureidyn crun megis gureidyn Rapum

Aristolochia longa yr Escarllys hir id a dail huy a changæ meinion o rychuant o vchter. blodæ guyngoch ac aroglæ trun y rhei uedy diflodeont vydant debic y elic nei beran. Gureidyn o braphter bys o rychuant o hyt nei huy

Clematitidis sef y trydy rhyu yr hunn a elir ei alu yr Yscarllys bychan id a changæ bychain ido yn laun dail gogryinion yn gyphelip ir Vyufyith leiaf nei ir Vriuc a blodæ nid antebic y Rhut: guraid huy ac yn eidilion ac a rhisc teu ydynt ac yn arogloc./[44b]

## Y le

Phucsius a dyuait na uyr ef vot y guir Aristolochia rotunda yn tyfy yn vn le yn Germania./ Y mae Turner yn dyuedyt uelet o honau Aristolochia rotunda lauer guaith./ Aristolochia longa a dyf yn amyl yn y guinlanoed ac meun gardæ yr eil./

Yr amser

Aristolochia longa a vlodea visoed Mehefin a Gorphenhaf./

Yr artempr./

Eruyd bot yr Aristolochiæ yn chueruon eb ued ef elir ei barnu uy yn uresoc ac yn sych yn yr ail rad nei yn hydrach yn y drydy rad

Y rhinued

Yr Escarllys crunn id uaredauc[45a] rhac pop guenuyn ol, eithyr yr Escarllys hir id da yn erbyn nadroed a guenuyn angheuol od yfir a ei dodi urtho tu a dogyn dram./ Yr vnrhyu uedy/r/yfed gyd a pypyr a myrh a bair y uraged gael escor ei blodæ a ei beichiogi a chymeint al a vo perthynassol ydyn gael ei escor./

E ueithia yr vn rhyu beth oc ei dody yn y cyfle dirgeledic./

Yr escorlvs crunn syd yr vn rhinued arno./

Od yfir yr vn rhyu lyseun gyd a dufyr oer ei cephir yn dra guaredoc rhac diphic anhetl, rhac yr eigion, rhac crynny, rhac dolur or Duec, rhac yr echryshaint, rhac crybychy nei gyscy yn rhyu van ar y corph, rhac y vors nei ysictot o y meun, a rhac dolur or ystlys./ O dodir urtho e dyn alan escyrn tynnion ac a ys y cic putr ac a garth lynor dreuedic./ Gyd a mel a[45b] phoudr o uraid phlur de lis y leinu e bannylæ ar y cnaud./ E lanha y gorchfaned ar dāned./

Y trydy rhyu or lysæ hynn sef Clematitis a gredir bot yr vn rhinued arno y uared clefydæ anid bod yn uannach ei nerth na rhyuæ yr eil./

---

i Gadawyd bwlch yma i'r enw.  
ii Ychwanegwyd "Longa" gan E.T.

iii Gadawyd bwlch yma sydd tua dwy neu dair llinell. Llanwyd rhan ohono gan "Long Birthwort its <sup>Hepatick & plumonick</sup> yn llaw E.T.  
Cephalick

---

Y Winuyden uenn. 29./

Yr enuæ./

Vitis alba yn Latin, Bryonia yn Groec a Saesonaec, y winuyden uenn, y Nep guylt, a Blonec y dayar yn Camberaec./

Y phurf.

Y canyæ y dail a baglur ynt cyphelip ir uinuyden ryuioc anid bod y cuby] yn vuy cedenoc, ymmaelyt a una ei vaglur ar luyni[46a] nessaf atto. Ei phruyth a dyf yn bentyrræ nei yn vagadae ac yn goch o liu ac e hufir cryn ac efo./ Ei ureidyn sy uynn, praph a maur./

Y le

Y Nep guylt a dyf yn gyphredin yn y caeæ ar perthluyni a dringo a una ar hyt ei bric./

Yr amser

Hi a vlodea yn hyt yr haf ac yd darn or cynayaf pryd y duc hi phruyth yr hunn yn gyntaf vyd uyrđ ac yno uedy yr aedfedo rhudgochy a una./

Yr artempr

Y baglur nei yr yspyr cyntaf id daran chueru a surn attaliedic./ Y gureidin id uresoc a sych gymmetrol./

Y rhinuedæ

Y baglur cyntaf ar yspyr neuŷdian a dorro alan yr uinuyd[46b]én uenn sy defodaul gan baup y guanuyñ ei buyta uedy darpho ei beruy o bleit ei bot yn vuyt da ar les y duyfron am idi attal./ Peri a una vrin yn gymmetrol./

Y dail y phruyth ar gureidyn id a rhinued lyndost arnun ac o bleit hynny yd ynt da ar les deru uraint a lynorot a vo yn pytry yr ysceiriæ o dodir urtho gyd a halen./

Y gureidin a garth y corph ac a ei rhascla./ E dilea veiaæ croen yr uynep ac a emendaa i brychi, cleisiaæ a chreithiaæ./ E dynn escyrn tyynnion o curir a ei dodir urtho./ Adas ydyu ei dodir meun elioed a uneler y yssy nei lad marugic./

Ef a yfir puys dram o hono beunyð dros vluydyn rhac y cluyf diguyd./ Y mae yn da y dyn cynhyrfaur ei vedul<sup>i</sup> ac yr nep a vo letchuelan synn, penfedu nei vadroendot yn ei benn ymarfer o hono yr vn mod./ Yfed dau dram o honau sy da rhac brath neidr

Y mae e yn ohardedic i uraic[47a] veichioc, e gynnyrfa yr sñuyr E bair vrin./ E uneir electuari ne gyflaith o hono gyd a mêl yr hunn a una les ir nep a vo urth vronn mygy<sup>ii</sup> nei dagy ac yr nep a vo y pesuch arno, dolur o ei ystlys nei uedy/r/briuo y meun./ O dodir urth y vam e duc alan y luyth a ei uisc gyd ac ef./ E uescir suc alan o ei ureidyn cyn aedfedy yr aeron ac a yfir gyd a med er carthy y vam o phlêm./

Y phruyth nei yr aeron sy da rhac crammennæ a rhac y lepr nei/r/cluyf maur o dodir urtho ac od irir./ O beruir suc yr aeron gyd a guenith a ei lymeitiã peri ehelaethruyd o laeth a una./

---

i Y mae llinell doredig o dan "cynhyrfaur ei vedul" a'r glos "brochus" ar yr ymyl.

ii Cywirwyd "mygu".

---

Y uinuyden duy. 30

Yr enuæ

Vitis nigra yn Latin yn Groec Anpelos yn Saesonaec blacke Bryoni. Y Winuyden Duy yn Camberaec./[47b]

Y phurf

Cyphelip yu ei dail ir Eideu tebygach hagen yr Smilax yr hūn y mae ei guyd yn gyphelip hefyd anyd bod yn vuy dail honn no hunnu. a baglur honn a bletha yn cylch y coet. had gronynnoc guyrdion or tro cyntaf a guedy aedfedy y dua. Gureidyn duy o y alan liu prenn bocs<sup>i</sup> or tu neun./

Y le

Meun coegluyni a thurpathæ y mae gnotaf idi dyfy./

Yr amser./

Mis Gorphenhaf y blodea a mis Aust y duc had./

Yr artempr./

Yr vn artempr ar Winuyden uenn ydyu

Y rhinuedæ

Guyd honn yma urth dechræ baglurau a vuyteir yn vnued ar Caul a da ynt y dyuys vrin./[48a] ar gwaedlin anianol ar y merchet./ Yr vn rhei a leiha y

D̄uec./ E ūneir mediginiaeth o honynt rhac cluy yr brenhin, rhac y bendro  
nei vadroendot a rhac y Parlys./ Yr vn deunyð elir o ei guraid̄ ac o uraid̄ y  
Winuyden ūenn anid nad ydyu m̄or nerthol./ Hei dail sy ða gyd a guin y ei  
dody<sup>ii</sup> ar glefri guarræ anifeillieid./ Ac y mae e yn ða yr vn mod̄ yu dody  
urth v̄an a el al̄an o ei le./ Ac y mae yr vn rhinued̄ ar y Winuyden honn ac  
ar y ūenn anyd nad yu c̄yn gadarnet./

---

i Cywirwyd "box".  
ii Addaswyd "dodi".

---

Blodæ amor. 31./

Yr enuæ

Amaranthos yn Groec a Latin, Fflour amor yn Saesonaec. Blodæ amor yn  
Camberaec./

Y rhyuiaæ

Deuryu Amaranthos syð vn melyn yr hunn a eilu Dioscori[48b]des Elichryson a  
Galenus Amaranthus, ac ymplith y lyseuyr andyscedic Stichados citrinum ac  
yn Saesonaec Yellow flour amor sef y Phlur amor melyn. Ar guir Elichryson  
med̄ M Turner a dyf yn yr Ital ac syð yn duyn dail bechain val y Sothernud̄.  
Y rhyu yr al̄ ar liu gungoch a eluir yn Saesonaec Purple veluet floure, sef  
y Phlur melfet purpur<sup>i</sup>./

Y phurf

Amaranthos melyn yr hunn a eluir ac enu'r al̄ Helychryson id a guialen eidil



ido uerd vnion duys nei gadarn ac a dail cyfinc mal Sothernud nei Eisop a darnæ rhuydion y rhyngthynt./ Y bric sy velyn ol ac yn laun cygnæ crynion megys aeron nei gronnynæ guyuon. Gureidyn eidil./ Y rhyu purpur nei ungoch syd a throetfed o vchter yntho ac a phalatr a naus guyngochter ac a dail val Basil<sup>ii</sup> anid ei bot yn vuy ac yn[49a] huy a thuyys yn hytrach na blodæ sy ido ac eb nep aroglæ arnun ac nyd oes dim brydferthach y goluc arno nac uyntuy./

Y le

Tyfy a una y melyn meun le aggaru tyfodoc sych ac meun dolyd./ Y rhyu al a dyf yn y gardæ ac a hehir meun lestri prid./

Yr anser

Helichryson<sup>iii</sup> a vlodea y Mehefin ar Gorphenhaf. Yr Amaranthus purpur yr haf a mis Aust yn enuedic./

Yr artempr./

Y melyn yn dinam id uresoc a sych yr hynn a dengys chueruder ei vlas ai rinuedæ./ Y purpur nei y guyngoch yn ol barn y lyseuyr huyraf id oer a sych./

Y rhinuedæ

Bric y lyseun a eluir Helichryson uedyr yfed ar uin sy da rhac anhauster trothy nei uneythy dufyr, rhac brath neidr, rhac y Sciatica nei[49b] y guaeü or glun, rhac torr lengic nei ysictot o y meun./ E bair ir gvaedlin anianol gerdet ar verchet ac a daud ymaith y tolchennæ gvaet pa vn bynnac vont ai yn y cyla ai yn y chuysigen o chymerir ar uin meledic: ac ar uin guyn uedyr gymyscy a dur ir nep a vo ar ei gythung yn cylch dau scrupl e

a attal rhac difery gulybyroed o yr penn./ Y mae yn da y ei dody ymplith  
dilat rhac yssy or pryfet uy./

- 
- i Cywirwyd "purpir".
  - ii Y mae llinell doredig o dan y gair a "q" ar yr ochr gyferbyn ag ef. Ni allaf ddweud ai R.M. a wnaeth hyn.
  - iii Addaswyd "Helichrison".
- 

Columbin. 32./

Yr enuæ

Aquilegia yn Latin Columbine yn Saesonaec Columbin ne Troed colōmēn yn  
Camberaec./ Ein aatur ni Phucsius syd yn adef na uyr ef py enu oed ar y  
lyseun hunn gyd ar hen vedygon or Groec-uyr ar Latinuyr gan gyhudo  
cyfeilorndysc y saul a vynnent mae Aegilopa ydoed y lyseun hunn ac ynte cyn  
tebyccet<sup>i</sup> a chorn buch i garegl./

Y phurf

Vn dail a lysæ yr uennol nei lym[50a] y lygaid ydyu hayachen eithyr ei bot  
yn grynnach ac yn vedalach. Palatr o gufyd o hyt nei ueithiæ yn huy ac ar  
ei vric y byd blodæ purpur nei rhudleision o liu yngrhoc urth ryu draedæ  
ar ued pyrsæ merchet a guedy syrthio y rhein y dau gordynæ bechain yn ei  
le nid antebic y Melanthium ac ynthyn hadæ discleirduy a gureidyn praph ai  
attega./

Y le

E dyf yn gyphredin yn y gardæ ac meun rhyu ueirglodiæ breision./ Ei

cephir hefyd yn tyfy y meun mynyded coedioc a rhyu amser ar greiciae a muriae./

Yr amser

Misoed Mai a Mehefin y blodea

Yr artempr

Mae arno beth melyster urth ei brofi o ba eruyd y gelir ei varny yn uresoc gymetrol a chyphelip vod yntho dalm o nerth y beri treul./[50b]

Y rhinuedæ

Phucsius a dyuait vot y lyseuyr ar medycon yn gady y lyseun yn vn rinued ac Aegilops eithr erchi ydyn synnio a ydynt ar yr iaun yn hynny./ Ac nyd yu gyphelip med ef bot meun lyseun ny bo daran phraeth gymeint o nerth goyscary./ Eithyr can ido dreulio yn gymmetrol a sychy e digon vediginiaethy y Cramen ac Idu cnaud ac yn uel o chymyscir a blaud guenith./

---

i Unais "tebyc" a "cet". Holttwyd y gair rhwng dwy linell ac anghofiwyd rhoi cyplysnod rhwng y ddwy ran.

---

Troet yr Assen. 33./

Yr enuae<sup>1</sup>

All ia yn Latin, Sauce alone nei Iacke of the hedge yn Saesonaec. Troet yr Assen nei Pernel yn Camberaec./

Ny uydys etto yn ysbys pa delu y geluit y lyseun hunn ymplith hen

yscrifenydion Latin a Groec, eithyr am vot guir aroglæ Garlec ar ei dail uedy ei briuo, e uneir ido yn le enu Latin Al[51a]liaris nei. Alliaria sef y Garlec nei y Garlegol./

Y phurf

Ei dail urth dechre tyfy ynt ogrynion ar ued dail y violet anyd ei bot yn vuy o vechedigyn: a guedy tyfy talm y cyrriogant yn gonglæ: Y lyseun a vyd cufyd nei dau o hyt yntho a phalatr crunn a dail val danatl pei nat lyfnach a lai o vylchæ ynthynt, a let urth ei traed. Vn arogl ar Garlec urth ei curo. blodæ guynion a hadæ duon bychain meun codæ a gureidyn taran hir yn vn arogl ar dail./

Y le

E dyf yn gyphredin garlau caeæ ac ar emyldir nei dyphrynæ./

Yr amser

Y dail a dardan alan or dayar dechre guanwyn ar Maurth yr haf y blodea ac yno yd hada./

Yr artempr

Can ido vot yn vn arogl ar garlec[51b] Dir yu ei vot yn vn artempr ac ef Ac urth hynny diameu tau guresoc a sych ydyu eithyr nid mor gubyl ar garlec yn y beduared rad./

Y rhinuedæ

Vn rinued hayachen ar garlec ydyu yr Arlegoc, eruyd pa am y dyry rhei e meun iscel a saus yn le garlec. Ac am hynny mae grym yntho y aly<sup>ii</sup> guresogy y corph ac y deneuhay gulybyroed teulon o y meun ac y oyscary

lysnafed. Eithyr nyd cymmeint ei nerth y uneuthyr hynn yma ar garlec./ Ei had gyd ac vinacr uedyr osot ar ued plastr sy da rhac anhuyll nei dagfa y vam ac y dyrchafy yr vn rhyu./ Ac o vyrhau y mae ol rinuedæ had y berur arno anid ei vot yn uannach

- 
- i Ychwanegwyd "Ramsons" yn ymyl gan E.T.
  - ii Addaswyd "alu".

---

Y Danatl. 34./

Yr enuæ./

Vrtica vr Latin, Nettel yn Saesonaec a Danatl yn Camberaec./

Y rhyuæ

Dioscorides sy yn guneuthy deu ryu[52a] Danatl. Vn garu yr hun a eluir heddy Vrtica Greca siue<sup>i</sup> Romana sef y Danatl Groec nei Danatl Rhufein a had y Danatl hun a dleit ei arfer meun mediginiaeth ac nyt had y Danatl a dyf yn sathredic yn y caeæ ar luyni./ Y rhyu r al nid yu cyn aruet ac am hynny y geluir Vrtica mollis sef y Danatl medal nei yr lyfyn./ Y rhyu yma sy mór dieithyr ac na uelod ein aatur ni dim hono. Ac eb lau y rhei hyn e gephir dau ryu eil./ Vn a ei enu, Vrtica maior y Danatl muy yr al Vrtica minor y Danatl lai: ac o ei dyuedyt yn ol yr iaith gyphredin y Danatl muyaf ar leiaf nei yr Danatl maur ar bechain.

Y phurf

Danatl Rhufein id a phalatr crun garu guyltach hefyd a garuach lydanach a

duach ei dail a had meun globynæ nyd antebic i linhad anyd ei bod yn lai./  
Y Danetl al id gyphelip ir cyntaf pe nad cyphelip o aruch ac eidilach ydyu  
ei had./

Y le

Y Danetl Rhufeinol ny thyf yn ein[52b] bro ni o dieithr ei hehey ac vely  
nys guna Vrtica mollis y Danetl mejal./ Y Danetl cyphredin a dyf yn  
sathredic yn y caeæ ac yn y perthi./

Yr amser

Yr had a dleir ei glascy y cynayaf./

Yr artempr

O rannæ teneuon<sup>ii</sup> yd henyu ac o artempr sych: er hynny nyt cymeint ei  
ures ac y brath yr ourhon<sup>iii</sup> nei yn y mân

Y rhinuedæ./<sup>iv</sup>

Dail y dau ryu gyd a halen sy da y osot urtho rhac brath ci, nei urth vãn a  
vo yn dechre diphruytho ac urth cancr a chic druc ar cilchuyrn nei haint yn  
cylch y clustiaæ y maen yn da yu dody utrth vãn a el alãn o ei le, urth  
chuarenæ a chrugod, a rhac dolur or Duec./ Curo yr dail a ei dody gyd ar  
suc urth y talcenn a dyrr y gwaedlin phroenæ./ Curo yr dail a myrh a ei  
dody urtho a fyr y gwaedlin anianol ar verchet./ O gosodir huy yn irion  
urtho lestair a unan y vam y syrthio./ Od yfir[53a] yr had gyd a sapa nei  
uin neuyd peri chuantach a una ac agory y vam./ Gyd a mel y guna les rhac  
diphic anhetl, rhac cruc or ystlys ac or yscyfaint./ A da ydyu y garthy y  
duyfrôn./ Y suc sy da y ei dygegy rhac poethder or gęc.

- 
- i Glos ar "siue" ydyw "nei".
  - ii Cywirwyd "tyneuon".
  - iii Ceir llinell doredig o dan y gair a "q" gyferbyn ag ef ar yr ochr.  
Ni wn i ddim ai R.M. a wnaeth hynny.
  - iv "noda hyn am fan a el allan oi Le" ydyw ychwanegiad E.T. gerllaw.
- 

Pys [y c]eiru<sup>i</sup>.35./

Yr enuae

Aphace yn Groec a Latin, Wylde tares yn Saesonaec. Pys y ceiru yn Camberaec./

Y phurf

Lwyn bechan ydyu vuch no Lenticula ac a dalena eidilach. Y codae a dyf arno vydant vuy na Lenticula ac ynthynt hadae pop dri bop peduar urth ei gylyd a duach o liu a lai o veint./

Y le

Ym meysyd yr ydae y tyf o ei natur ehunan./

Yr amser

Mis Mai y blodea a'r chuaen y duc[53b] had y meun codae./

Yr artempr

Guresoc cymmetrol ydyu a thra sych./

Y rhinuedae

Rhinued attal syđ ar yr hadæ, eruyđ pa am uy oystegant darymret y cyla ar boly o chrefir uy a ei drylio a ei beruy mod y guneir a Lenticula

---

i Y mae'n debyg i R.M. osod dernyn o bapur yma i gywiro. Aeth y papur ar goll fel nad oes ar ôl ond "Pys" ychydig yn is i lawr na'r "eirru", wedi hanner ei chwalu ac "Y" ar ei draws. Diflannodd "y c" efo'r papur.

---

Troet y gyuen. 36./

Yr enuæ

Portulaca yn Latin, Porcelan yn Saesonaec Portulac nei Droet y gyuen yn Camberaec.

Y rhyuiæ./

Y lyseun hunn a parthir yn dau ryu sef vn Portulac dof ar al guylt yr hunnyd ydyu yr vn ar trydy rhyu or Vyufyth megis ac y tybiaud rhei ry vuant somedic ar hynny

Y phurf./

Y Portulac dof id a phalatr preiphi[54a]on ido yn vreisio ac yn grynio ac yn tyfy yn vnionsyth a pheth gurit ynthyne./ Dail breisio ac or tu cefyn yn uynnio. Blodæ bechydigion melynion. Hadæ duon meun codæ guyrdion./

Y Portulac guylt id a dail ido mal ir oleuyd anyd ei bod yn lai o lauer ac yn liosocach ac yn tenerion. guyd guridogion ac a lios o y ar yr vn gureidyn yn tyfy gan ystlys y dayar o puy rei pan gnoer y dau ehelaethruyđ o suc cypheithud, a blas halt syđ arnynt./



Y le

Y Portulac dof a dyf ar hyd loriae y gardae, meun guinlanæ ac meun tir dyuyliedic./ Eithyr y gylt a dyf ar creicleoed ac ar dir andyuyliedic./

Yr amser

Misoed Mehefin a Gorphenhaf y mae neges cody y dail ar blodae; ar had y misoed yn ol./

Yr artempr./

Pop vn or dau sy oer yn y drydy rad[54b] a gulyb yn yr ail./

Y rhinuedae

Y Portulac id a rhinued attal arno Da ydy rhac dolur penn, rhac poethder or lygaid ac o vanæ yr eil, rhac tra gures or duyfron, rhac idu, a dolur or chuysigen o dodir urtho gyd a blaud guenith./ Cnoy nei yssy y lyseun hun sy da rhac deincod or daned, rhac poethder or cyla ar colud a rhac darymret./ E vediginiaetha yr arenæ ar chuysigen. E oystega chuant y cnaud nei anladrud./ Ar vn rhinued id ar ei suc od yfir A maur hefyd yu ei rym yn erbyn y teirthon nei'r cryd./ Y lyseun uedy ry veruy sy uaredauc yn erbyn y lyngyr crynion, rhac chuydy yr gvaed, rhac haint calon, ac yn erbyn yr haemorrhoidas sef rhyu haint or eistedle ac y oystegy gvaed ac y mae yn da yu gymyscy ac elioed lygaid. Ac e laesa y dolur or penn a hanyu o ures o diferir ar ei vcha gyd ac oleo rhos nei oleo./[55a] E dilea hefyd grugynæ y vrech uen a'r vrech goch pan dardan ar y pen./ E una les yu daro gyd a blaud guenith ar archolion a vo yn dechre braeny nei diphruytho./

Yr enuæ

Asphodelos yn Groec ac yn Latin Daphodyl yn Saesonaec

ii

Y rhyuiaæ

Deuryu daphodyl<sup>iii</sup> syð pa delu bynnac y damuyniod i Dioscorides ymfodloni ac vn. Nid amgenach y gur ryu ar benyu./

Y gur ryu a eluir o enu priot Albucus ar benyu Hastula regia sef Guæu y brenhin o bleit ido uedy ry vlodeo yn gynhebic y Deyrnuialen brenhin./[55b]

Y phurf./

Y Daphodel gur ryu syð a ei dail mal dail y Cennin, palatr lyfyn ac a blodæ ar ei vricyn, a aluant Anthericum./ Guraid taran hirion cyphelip y ves a blas phraeth./ Y benyu id a dail ido gohirion culion gofasu nyt antebic ir Plantan bychan, paladr lyfyn ac ar ei vric yn duyn nyd vn amyn liaus o vlodæ cypheithlyd breision yn guyrgamy yn uysc ei cefyn yn laun o vaculæ nei vrychæ guyngochion/ Gureidyn ar ued mesen a mân ureidiach lauer mal ir garlec yn tyfy y dân y vesen yr hön sy attufoc ac a blas cypheithlud

Y le

Y gur ryu nid yu yn tyfy yn Germania o dieithr ei osot yn y gardæ./

Y benyu a dyf yn ampl o ei uaith ehun yn y mynydoed ar coedyd./

Yr amser./

Mis Mehefin y blodeant./[56a]<sup>iv</sup>

Yr artempr

Gureidyn y gur ryu sy uresoc a sych./ Dail y benyu pan yu talm o chuerued a thosted ynthyn, ynt uythæ uresoc a sych megys ac y mae yn hysbys bot y gureidyn hefyd./

Y rhinuedæ./

Gureidyn Albucus syd a grym guresogy yntho yr vrin ar blodæ a gynhyrfa od yfir ef. Y guraid hefyd a uaredant doluriae or ystlys y pesuch, y Cramp ac esictot o y meun od yfir meun guin puys dram o hanadynt./ Puys tri dram o honynt sy da ei dody rhac brath neidr, ac iro vyd rhaid y brath a'r dail, ar guraid ar blodæ gyd a guin/ Wy a vediginaethan hefyd lynor dreuedic a vo yn yssy ac yn cerdet./ Y gureidyn uedy ry veruy meun guadot guin a una les yn erbyn poethder o'r bronæ ac o'r ceiliae, yn erbyn cnyckiae a chuydon y gyd a blaud guenith yn erbyn poeth[56b]feyd neuyd deuot./ Suc y gureidyn guedy ei veruy gyd a hen uin melys myrh a saphran id vediginaeth dipaledic ir lygaid. Ac ar les clustiae gorlyt y mae yn prophidiol ehunan, A gyd a thus mel a myrh y gelir ei hyduymo./

E laesa yr suc dolur or daint o dineir ehunan yn y glust urthuynepol./ Ludy or gureidyn uedy ei loscy a ei dody arno a adualta yr arfoeled./ Beruy oleu yn y guraid uedy ei cafny ae dody yn tan sy da rhac y cibus a losc./ E a esmuytha y dolur or clustiae o defny'nir ynthynt./

- 
- i Gadawyd bwlch yma i'r enw.
  - ii Gadawyd bwlch o ryw ddwy linell yma.
  - iii Addaswyd "daphodil".
  - iv Ysgrifennwyd "kennin Peder" ar ben 56a mewn llaw gyfoes.

---

Y Leuguyn. 38./

Yr enuæ./

Atriplex yn Latin, Areche yn Saesonaec. Y Leuguyn yn Camberaec./

Y rhyuæ./

Deuryu syd or lyseun hun vn dof a dyf yn y gardæ, ac al guylt[57a]

Y phurf

Y rhyu`dof id a phalatr pedrogl ido a breichiaæ yn goyscary o hono y rhei a duc vlodæ melynion bechydigion yn gyntaf, guedy hynny had deilioc uedy`r anhudo meun rhiscynot. Vn gureidyn yn ymsengy yn dufyn nyd arfoelum nei noethlum eithyr adafedoc nei ualtoc./ Y rhyu guylt syd mor hyduf ac y byd lauer gwaith yn huy no pheduar cubit: Palatr anguloc nei ochroc mal y dof ac yn canzoc a guridoc. a dail nyt antebic ir dof ac yn enuedic o liu: blodæ melynion eidilion: ac a hadæ yn gorchudio yr brigæ yn vagadoc. ac vn gureidyn yn truydedy yn ordufyn a liaus o rei mân yn ymoyscary o y urtho./

Y le

Y Leuguyn dof ny thyf anid yn y gardæ./ Y guylt a dyf oe natur ehun. Y dauryu a yn da arnyn gahel ei porthy<sup>i</sup> a mynych ulybur

Yr amser

Y deuryu a vlodean visoad Mehefin[57b] ar Gorphenhaf a guedy y dygant had./

Yr artempr./

Y Leuguyn id ulyb yn yr ail rad ac oer yn y gyntaf Eithyr y dof syd ulypach  
ac oerach na'r guylt./

Y rhinuedæ

Y Leuguyn a vedalha y boly ac a dilea orynot nei grugynæ ny bon dyfnion o  
dodir urthyn ai yn ambrud ai uedy veruy./ Had y lyseun hunn gyd a rhyu ved  
a yfir rhac cluy yr brenhin./

---

i Addaswyd "porthi".

---

Tafod yr edyn. 39./

Yr enuæ<sup>1</sup>

Gramen yn Latin, Great grasse yn Saesonaec, Tafod yr edyn yn Camberaec./

Y phurf

Tafod yr edyn sy lyseun a bonyn eidil[58a] gofasu yn gorued rhyd y dayar yn  
linyn glinioc nei gymaloc mal yn uyu eithyr bod meint rhounyn o y meun yn  
ir o y ar yr hun y tyf y vyny uyd ido mal yn gyrs meinion o droedfed  
braphach<sup>ii</sup> braphach yd ei cenol ac yn phorchogi yn van gangau tu a ei vric  
a duy dalen sythion vlaen veinion val tafod ederyn yn tyfy gyferbyn aei  
gylyd o y amgylch pop cymal a glin ir cyrs./ Ei vlodæ syd uynion yn hemp  
dalen phorchogion, a guedy ei diflannon y tyf coden nei gibin bach cymeint  
ac vnued a hül y lfn yn gyflaun o hadæ bychain./

Y cyfle./

Y lyseun hŷn a dyf meun guascod nei dumpathe ac ym bŷl caeæ./

Yr anser

Erbyn diued Epril can muyaf y byd ef uedi blodeuo yn uŷn ac yn dec./

Yr artempr./

Ei ureidyn sy daran oer a sych a tharan dost; eithyr y lyseun sy oer[58b]  
yn y rad gyntaf a gulyb a sych ynn gymmetrol. Yr had sy eguán ei natur./

Y rhinuedæ

Y gureidyn uedi ei guro a iacha archol ne gornuydyd guaedlyd./ Ei iscel  
meun diod a esmuytha ar y gueuyr a maen y tosted./ Da yu ar les boly rhugyl  
ar duyfron./ Beruer meun lestr pres ne efyd a da vyd rhac y danoed ne haint  
y lygaid. ac e uasanaetha ehunan rhac brathæ dreiciaæ./

---

i Ysgrifennodd E.T. "quick grass" gerllaw.  
ii Cywirwyd "brassach".

---

Y Banadl./ 40./

Yr enuæ

Genista y geluir yn Latin a Brome yn Saesonaec a Banadlen yn Camberaec./

Y phurf./

Y Vanadlen sy a changæ aml lyseuued goeirunon a dail bychedigion idei a

blodæ melynion a thra hoph gan uenŷn a had meun codæ bychain a gureidyn  
melynuŷn./[59a]

Y cyfle

Goreu genthei dyfy meun manod amluc ac ueithie meun coet neu ar ael coet./

Yr anser.

Y Mai ar Menefin y blodeua ac yno y duc hi had meun codæ gofleuoc./

Yr artempr./

Guresoc a sych yu hi yn yr ail rad y peth a dengys y chuerued urth ei  
phrofi aei rhinuedæ er eil yn digon hyspys./

Y rhinuedæ

Had y banadl a gartha mal yr Ellebor od yfir dram a hanner o honau meun  
medlŷn pedair phiolet ar gythlung./ Rhaid yu curo ac yno muydo yr gurysc ar  
dail yn hir o dydieu meun vinegr ac guedy hynny dody vn phiolet yu yfed yr  
neb y bo y guayu oe glun arno./ Rhai aei muydant uy a heli/r/môr ac ai  
tyualt truy clyster. Ar suc yma gyd ac oel sy da i iro y van y bo yr  
guayu[59b] ym penn y glun./ Rhai sy yn arfer or had rhac carrec y tosted ac  
y dileu pungæ a chuydæ ereil./

---

Y Banatlos nei Eithin yr iair<sup>i</sup>. 41.

Yr enuæ

Y mae rhyugaeth aral ar vanadl yr hūn a eluir yn Latin Genestella yn Saesonaec Thornebrome nei Pryckie brome ac yn Camberaec y Banatlos, y Banadl pigoc nei Eithin yr iair<sup>ii</sup>./neu/r/aur vanadl<sup>iii</sup>

Y phurf./

Nid antebic yu ir banadl anid ei bod yn eidilach a phigæ lymion rhyddi ac yn gyphelip ei dail ir rosmari amyn ei bod yn anystuyth vlaenbigoc a blodeun melyn a had rhytcoch meun codæ a gureidyn melynuyt./

Y cyfle./

Meun tyfotir y tyf oe naturieth ehun ar emyl phyrd

Yr amser

Y Mai y duc e vlodæ melynion[60a] ac nid ynte<sup>iv</sup> da ir guenyn i vela arnyn.

Yr artempr

Ei natur o chuerued yu rhuymo a thra sych ydyu eb dosted./

Y rhinuedæ./

Yr had sy da rhac nadroed: y beru ne iscel y dail sy da y attal anhuyt y merchet./ Da yu hefyd od yfir ar les y bola rhugyl. Ac o dyuedut lauer meun ychydic eiriaæ yr vn rhinued yu ar lyseun a eluir Cedourach./



- i Tanlinellwyd "Eithin yr iair" mewn llaw gyfoes ac ysgrifennodd "r aur fanadl" uwch ei ben.
- ii Tanlinellwyd "Eithin yr iair" gan yr un un llaw gyfoes ag y cyfeirir ati yn nhroednodyn "i".
- iii Ychwanegiad diweddarach gan R.M. ydyw "neu/r/aur vanadl".
- iv Ceisiodd rhywun ddileu yr "e" yn y gair.

---

Clust yr euc./ 42./<sup>i</sup>

Yr enuae./

Daphnoïdes yn Groec, Laureola yn Latin: Laurel, Lorel nei Loury yn Saesonaec a Chlust yr euc ein iaith nineu y gelwir./

Y phurf

Lyseubrenn o gufyd o hyd yu, a changau lauer ido yn tebic i brén Loryf anid ei bod yn ystuythach ac yn deilioc oe ganol y vyny a rhisc[60b] gludioc a dail mal i Loryf hagen yn vuy medalion teneuach a guydnach y rhain a vrath ac a boetha y genau. Blodæ guñion sy ido ar phruyth uedy aedfedy sy lychduy. ni elir les oi ureidyn./

Y le./

Yn y mynyded ar coedyd y mae ef yn tyfy./

Yr anser

E vlodeua dechreu guanuyn a chyn ido deilio, ae phruyth a duc e y Cynayaf

Yr artempr

Guresoc a tharan sych ydyu./

Y rhinued

Y dail yn sych nei yn irion a bair i phlem gilio y<sup>ii</sup> maes y phord isaf Wy barant gyfoc ac amhuynt y merchet y gerdet: Wy barant o chnoir i ulybur discin or penn ac ystreuy. Ac od yfir pemp ne chuech o yr graun e uasanaetha yn burgasiun afiach yu yr dail ir duyfron./[61a]

---

i Atododd E.T. "Spurge-Lawrel" a "Lowry" yn ymyl.  
ii Addaswyd "i".

---

Dar ne Deruen. 43./

Yr enuæ./

Quercus yn Latin. An oke nei An oke tree yn Saesonaec: a Dar nei Deruen yn Camberaec. Ac ef alei mae lediaith Groec yu Dâr o bleit Drys yu yr gair Groec an Deruen./

Y phurf./

Paup a edwyn Deruen yr hön sy prén vchel a bôn praph a rhisc garu a bric cangoc a dail bylchioc. a hi a duc ves avalæ a rhyu beth aral val lyseun yn gant o gymale cyngoc yn gueu yn ei gylyd ac a eluir yn Latin Viscum yn Saesonaec Myseltoe ac yn Camberaec yr Vchelfa./

Y le

Y Dar a dyf can muyaf ym pop mân y tyfo coet ereil./

Yr artempr ar rhinued<sup>i</sup>

Pop Deruen sy a chyfares rhuymo[61b] yn ei natur ac yn enuedic y bilionen sy rhung y rhisc ar prén, ar bilionen hefyd sy rhung y cibyn a chneuylyn<sup>ii</sup> y vesen v beru o gylch y rhein a roir i vn a vo a haint calón arno, ne yn poeri y gwaed: a da vydant uedy ei curo i attal dolur y merchet./ Yr vn gyfares a elir ar mes./ A rhuvdhau guneythy dufr a unant./ Magv guvnt a dolur o bèn a unant o huyteir uy:/ eithyr da vydant rhac brathey pryfed guenyynic./ Iscel y rhisc gyd a laeth buuch syd da y rhac guenyyn./ Mes ambrud uedy ei curo sy da i iro ar boethfa: ac o chymerir huy gyd a blonec halt iachau cnaud idu cornuydlyd a unant./[62a]<sup>iii</sup>

- 
- i Yn ddiweddarach y rhoddwyd "ar rhinued" yma.
  - ii Addaswyd "chneuilyn".
  - iii Gadawyd chwarter isaf 62a a deuparth uchaf 62b yn wag.

---

Lysæ yr cribæ. 44.

Yr enuæ./

Labrum Veneris yn Latin, Wylde tassell yn Saesonaec: a Lysæ yr Cribæ yn Camberaec./

Y rhyuiæ./

Deuryu o'r lysæ yma y syd sef vn dof yr hun a blán y panuyr yn ei[62b] gerdi ac aral guylt yr hun a dyf oe uath ehun meun amyl o leoed./ A lyma yr amrafael sy rhung y dau bod y cyntaf a dail led ido ac a bylchau dyfnach o ei gogylch a blodæ guynion a phenæ pigougion bachogach ar yr al a dail meinach lai ei bylchæ a blodæ rhuogochion aei penæ eb vod cÿn bigocet./

Y phurf.

Y lyseun hun sy vn or rhyu<sup>ia</sup> pigoc ar lys<sup>æ</sup> corsen hir bigoc syd ido a dail val y Letus yn tyfy bop dau yn gytgroes o y amgylch y gorsen a phig<sup>æ</sup> arn<sup>ûn</sup>.

Y le

Neun le gulyb ac ynglan<sup>æ</sup> afonyd a garlau phynnonia<sup>1</sup> y deuisan uy dyfy oe natur ehunain./

Yr artempr

Gureidyn lys<sup>æ</sup> yr crib<sup>æ</sup> sy sych yn yr ail rad./[63a]

Y rhinu<sup>ed</sup>

Gureidyn hun uedy veruy neun guin ai guro hyd yn teudur m<sup>el</sup> t<sup>ec</sup> sy da yu dody urth gagen<sup>æ</sup> y din a chic druc yr eistedle./ A rhaid yu cadu yr eli hun meun bluch elydn./ E dyuedir mae da yu e hefyd rhac crug<sup>ngos</sup> a phop rhyu defeat./

E dyuedir hefyd am y pryfed a gair ymperfed pen y lyseun hun vod cyfared arn<sup>ûn</sup> o chymerir uy aei crogi urth ud<sup>uf</sup> nei vreich y neb a vo y cryd quartan arno yd iachant uy ef./

---

i Addaswyd "phonnonia<sup>æ</sup>".

---

Dail y phion phruyth. 45./

Yr enuaē

Digitalis yn Latin, Ffoxe gloues yn Saesonaec, Dail y phion phruyth, ne vyses cochion, nei vyses ne venic yr elylon y geluir yn Camberaec[63b]

Y rhyuiaē./

Dau ryu sy or lysae hynn vn a blodae cochion ac yr al a blodae melynuyyn

Y phurf

Lyseun ydyu o cufyd o hyd a dail lydain surn hirion nid chuaith antebic i dail lydan y phord ai hemylae yn rhintach ar blodae ynglyn yn vn rhestr yn ail tu'ir corsen ac o liu coch nei velynuyyn. A guedy y dyhoeno'r blodae y dau codenae blaenfeinion y gadu yr had./

Y le

Tyfy a una yn mynyded guastadus<sup>i</sup> ac meun manae carregoc./

Yr amser

Yn mis Gorphenhaf y blodea ac yno uedy diflano/r/blodae yr hada./

Yr artempr

Tra chueru yu lyseun mal y Gentian ac urth hynny y gelir dya yn da y mae guresoc a svch ydyu./

Y rhinued

Dinam mae da yu/r/lyseun hun pan[64a] vo rhaid na theneuhau, golchi, na charthy na rhydhau. Eruyd pa am mal y dyuaid Galen: Blasae chueruon a

ylch ac a garthant ac a ladant y ceulet a vo yn y guythi./ Ac urth hynny y guaredant termæ y merchet ac y parant y ampured ymady ar duyfron ac ar yscyfaint. Ac y dalfyrru y lyseun hūn a una/r/vn gyfared ar Gentian; gryn yr hōn a gephir yn ei le priodol./

---

i Ceisiodd llaw ddiweddarach ddileu'r "us" ar ddiwedd y gair.

---

Y Marchalan. 46./

Yr enuæ

Inula yn Latin, Alecumpane ne Elecanpane yn Saesonaec ar Marchalan yn Camberaec./

Y phurf./

Corsen braph ochroc sy ido a gofleu arnei a chufyd o hyd nei uel ynthei ac ueithiæ yn cyhyd a gur, ar hūn y tyf blodæ melynion ac ynthynt had mal ir banoc ac a bair[64b] cosi urth ei deimlo, ai dail sy debic i deil y banoc yn hirion ac yn ulanoc. Gureidyn guridoc syd ido praph a tharan dost

Y le./

Meun tir menydic le bo guascot ac y meun le sych y ty ef: ac yd ys yr ourhon yn arfer o ei blanny meun gerdi./

Yr amser./

Ei ureidyn a godir yr haf ac aei sychir yn dafelæ. Mis Gorphenhaf y byd

yn ei vlodæ./

Yr artempr./

Gureidyn y Marchalan ni uresoga yn y vangre, ac vel; nid yu yn gubyl uresoc a sych val mêl ne pyper guyn eithyr bod ei ulybur adymanguanegol sef carthionlyt guedilol.

Y rhinued./

Iscl ne veru o gylch gureidyn y Marchalan a bair ir misaul ac ir trunc gerdet: ac od yfir meun glas gyflaith<sup>i</sup> gyd a mel da vyd rhac y pesuch,[65a] diphic anhetl, rhuygiadau a thrausdynniadæ, maruchuyd a rhac brathæ pryfed guenuynic a hyn o rym y guresogy syd ynto yn holaul./ Ei dail ef os beruir meun guin ynt uaredoc i iro y cyfeiryd y bo/r/guaeu yn y glm./ Y gureidyn yma hefyd sy da yu roi meun possel ar les y duyfron./ Ac o churir a ei yfed uedy, iachau y neb a vo yn poeri yr gvaed a una./ Ac o diureidir eb ady ido gyfurd ar daear muyach da vyd med Plinius yu gnoi y gadarnhau y danned./

---

i Y mae llinell doredig o dan "glas gyflaith" a'r llythyren "q" ar yr ymyl gerllaw. Ni wn ai R.M. a'i rhoes yno.

---

Y Tryu. 47./

Yr enuæ

Eupatorium yn Latin, Agrymonie yn Saesonaec, a Lysæ yr Tryu, nei Cahulyn y mel nei ar ol aral C6lyn y mêl yn Canberaec./

Y phurf

Lyseun puresoc yu hun a dyf y nail uaith ac vn yspyrsen ido a guaith yral a muy noc vn a naus[65b] pren yntho, vnion vyd, duy vleuoc, a chufyd o hyd ne vuy ai dail a dyfant a surn gyfung rhyngthynt a chyphelip ynt i grafanc yr Eyr nei bemp dalen ne gyphelypach i dail cūarch, a guyrđ tyuył pemp ranoc nei vuy ac yn danedoc ei emylæ val lif, yr had a dyf yn gygnæ bychain o pop parth ir yspyrp pengeimion a chyn arued vyd uedy sychy ac y glyn urth dilad vn./<sup>1</sup>

Y le

Ei natur yu tyfy meun tir mynydic yn y meysyd, yn y gueirglodiæ a chan y caeæ./

Yr amser

Ei glascy a unair yr haf tra vo yn ei vlodæ./

Yr artempr./

Y Dryu sy lyseun o rannæ teneuon a ei natur yu crafy nei ruglo./ ac nid eglur ei vod yn uresoc a pheth natur attal yntho./

Y rhinued

Dail hun yma uedi ei curo a ei cymmyscy a blonec ludyd huch sy da ei[66a] roi urth gornuydyd a vo anhaud y ganthyn vyned yn groen gyfa./ Yr had sy da dros benn ar les y neb y bo haint calon arno ac yr saul a vo darymret guaedlyt annunt ac rhac brathæ seirph./



i Ychwanegodd E.T. "Blode melynion sydd iddo".

---

Lysæ Euphras./ 48./

Yr enuaæ./

Euphrasia o Latin, Eiebright yn Saesonaec a Lysæ Euphros yn Cymberaec./

Y phurf./

Lyseun bychan o rychuant o hyd, cyphelip i Ysop ac yspyr rhudleision a dail eidilion vn enylæ a lif a blodæ canneidliu a macul melyn ar ei cenol val y canod rhyu brydyd craph o'r oes aeth heibio.

Surian aur val ser y nos

Saphran ar lysæ Ephros./<sup>i</sup>

Gureidyn bychedic dideunydyd sydd iddo

Y le./

Yn y wrôn heuloc a chân myaf ymhob gueirglod y tyf y lyseun hunn./[66b]

Yr artempr./

Pop vn o ei rinuedæ a dengys yn digon eglur mae guresoc a sych ydyu

Ei rinuedæ

Arfer sy o gymeryd hun ei hun ne ei iscel uedy veruy meun guin aei doddi urth lygaid a vo yn coec daly nei a rhyu niulen drostyn. Ac o chymerir y lyseun hun uedy ei uneythyd yn boudr ai yfed meun guin guyn guaredoc vydd ar les y goluc ac i dyn ancofus ac i gadarnhau yr emennyd./ Gwel ydyu ei arfer

y rei sychion ei cyrph ar avu yn uresoc meun curuf nac meun guin./ Rhai aei harfer yn boudr gyd ac uyle seruylferu ar gythlung, nei uedy ei muydo meun dur dros nos. Tra rhagorol yu i hen dynion. Aduersaria noua ac er eil./

---

i Ychwanegwyd "Da. Edmwnd" mewn llaw gyfoes.

---

### Saeds. 49./

Yr enuæ

Saluia yn Latin, Sape yn Saesonaec a Saeds yn Camberaec y geluir./[67a]

Y rhyuiæ

Deu ryu Saeds y sy mal yr eduynd lauwr or andyscedic yn da digon./ Vn rhyu syd aei dail yn lydain yn aruach a muy guelu y rhein a elir ei galu y Saeds cartrefic: ar rhyu aral ar dail meinion ydynt a eluch ei galu yn Saeds Phrengic./

Y phurf

Luynd cangoc goruchel yu/r/Saeds ac yn cadeirioc yn uielyn luyd unyion ac a dail val yn vnued a manphris amylded aei liu yn unyluyd odisot ac aroglæ vchel yn puyso tu a sauyr ceseilchuys. A ei had yn y brigæ vchaf meun cocylæ bychedigion./

Y le

Meun le garu y tyfant eithyr yn ein oes ni yd ys yn ei planny meun gerdi

pop vn or deuryu vchot

Yr amser

Y lysæ hŷn a glescir ym Mehefin ar Gorphenhaf sef pan vydant yn ei blodæ a ei had./

Yr artempr./

Y deuryu Saeds a uresogan yn di[67b]nam, a goattal a unant./

Y rhinuedæ

Yr iscel y beruer y dail ar cangæ ynto sy da i beri guneythy dufr, i ruydhau y blodæ ac i beri escor luyth./

Duo y gualt a unant, ac o beruir y meun guin a golchi yr ceiliae torri a una yr ymgrafy./ Da yu/r/lysæ hŷn i vediginiaethy archolion ac i attal gwaed rhac cerdet./ Da hefyd ynt i garthy cornuydyd phyrnic./ Ac uy dyuedan mae da vyd muc y Saeds y attal y blodæ pan elont dros benn ei curs anianol./ Agrippa a eilu hun y lyseun cysscredic, can ys, iachus yu ar les y merchet, a pheri ydynt ymduyn a una a chynnyrch enaid yntho./

Da yu ef ar wermod luyd yu yfet rhac myned alan. Ac iachau brathæ nadred a una./ Peri y bryfed dyfod alan or clustiaæ a una./ Ei yfed a uneir rhac y pessuch a dolur or ystlys./

Yr enuæ

Senecio yn Latin Erygeron yn Groec[68a] Groundswel nei Groundsel yn Saesonaec, ar Greulys nei yr Benfelen y geluïr y lyseun hun yn Camberaec./

Y rhyuiæ.

Tri rhyu syd o yr lysæ hÿn y maur ar bychan ar trydy a pheth amryu o y urth y dau yr ail. a ninnæ y Cymbry ai dosparthun i ur ryu a benyu./

Y phurf

Y maur id a dail garu led uynion a hackie nei vylchæ dyfnion ac megis uedy ei cnoi o bop tu y paladr o duy droedfed nei vuy o hyd ac ar ei dop gnapiæ bychain yn ymagoryd yn vlodæ melynion haud ganthyn diflany yn debic i dopiæ Dant y leu uedy chuythy or guynt ei pân ymaith./ y gureidyn a vyd bleuoc ar lyseun ol yn gadarn ei aroglæ./

Y bychan id a dail gleision a hackiæ nei vribys dyfnion o bop tu val y lail amyn ei lauer yn lai ac heb vod cÿn arued y paladr o rychuant o hyd a blodæ melynion yn diflany a chyfneuidio val y maur a gureidyn bleuoc ac heb priod arogl arno./

Y trydy yu lyseun o cufyd o hyd a[68b] chorsen uridoc a dail urth ei gylyd ac emylæ bylchioc a blodæ melynion tyuylach haud ganthyn dyhoyni a myned yn ualtach guyn diflanedic neu bluennæ nei yscarthiach guyn./

Y le

Tyfy a una yn y caeæ ac meun hen vathrfæ gar lau tai a rhyd muroed pridlyd ac ar hen do braenlyd ac ar sund dir./

Yr amser

Y gwanuyn y dechry ef dyfy y blodeua ac y diflanna. Y blodæ a dihoynant ymaith yn yscarthiach guyn. Y lyseun hagen a bery yn ei phruyth dros yr haf gan muyaf y gyd./

Yr artempr./

Y Greulys vanyu yd y dyuaid Paulus Aegineta sy o artempr cymyscedic.<sup>1</sup>

Y rhinued

Y dail gyd ar blodæ sy a nerth ynthynt y oeri. eruyd pa am da vydant gyd ac ehydic uin ne ehunain i iro[69a] ymlosc y celliæ ar eistedle. A chyd a manna y bydant da i vediginiaethy archolion erail ar geuynæ. Ar vn gyfared a una y gualtach luyd o muydir meun vinegr aei iro urth y vān aduythus./ Yr vnrhyu ualtach gyd a saphron ac yhydic dufyr oer a uareda y sych bilen or lygaid./

---

i Yma gadawyd bwlch sydd tua dwy linell.

---

Tafod yr hyd. 51./

Yr enuæ

Hemionitis yn Groec a Latin, Hartes tongue yn Saesonaec. Tafod yr hyd yn Camberaec y geluir./

Y phurf./

Dalen mal ir Dragans syđ ido ochr bengam yn feuanc: a guraid mán lauer syđ hefyd ido. Nid oes na phaladr na had na blodæ arno vn liu ac vn agued yu yr dail hynn ac uynep yr eli tuf cyphredin tra vo yn neuđ ac y mae gurymæ mal asennæ bychain or tu cefn i lauer o hanynt./

Y le

Hun a dyf meun le bo guascot ac[69b] meun le mynydic caregoc. Rhai a ei plán yn ei gardæ./ Y rhei teccaf ac amplaf ac a uelais i etto sy yn tyfy o bop tu y buł y vuyal meun glyn coedioc or eido Tudur ap Robert or tu duyrain a Robert Wyn ap Ieuan ap dd or tu gorleuin./ Mi a gefais yno rei or dail hyn o hanner lath o hyd o veun led lau rhei a ei blaenæ yn phorchoc a rhei yn dri phurch sef yn gohany yn beduar blaen val osclæ corn hen garu./ Yn enyl, Talacræ y tyf rhei tec iaun./

Yr amser./

Yn hyd yr haf ac y dán y cynayaf y tyf yn ehelaethaf./

Yr artempr./

Attaliedic yu a gorchueru urth yr hyn y gelir coelio ei vod yn uresoc yn y rad gyntaf ac yn sych yn yr ail./

Y rhinued

Tafod yr hyd od yfir gyd ac vinecr su da ar les y Duec. Ac e dyuedir am voch a leuo ei ureidyn na byd mor Duec ydynt[70a]

Yr enuæ

Eringinum yn Latin, Sea holly yn Saesonaec a Môr gelyn yn Camberaec./

Y phurf./

Y Môr gelyn id lyseun a dalennæ pigougion oe hamgylch ogyrch aroglvlas a chorsen o gufyd o hyd a siobæ cyngafoc yn droelæ draenogion y adurnau y brigæ./ Ei liu yn ieuainc vyd guyrd, guedy hynny glasy a unant ac or diued guynny. Gureidyn hir a modued o deudur vyd yntho guyn o y meun, du o y alan ac arogl arno./

Y le

Y Morgelyn a dyfant meun le amluc a le garu. a med y dyscedic Wiliam Turner uy dyfant meun mannæ pel o y urth y mor./

Yr amser./

Pan el yr haul ir Cranc sef yu hynny ar hirdyd haf y mae ei clasgy./[70b]<sup>1</sup>

Yr artempr./

Bychedigyn nei lai no dim y mae yr lyseun hunn yn hydrach no gures cymmetrol, eithyr tra sych ydyu./

Y rhinuedæ

Y gureidyn sy uresoc ei nerth: od yfir guthio yr blodæ ar trunc a una./ Gueuyr a guynt a oyscar./ Iach yu rhac brath pryfed guenuynic./ Da vyd, yu roi urth chuydau cnyckioc./ Y gureidyn sy da hefyd o beruir meun dufrfel rhac y Cramp a rhac y gloesion leuic./ Ei iscel sy da ei yfed rhac y

colic./

---

i Ar waelod 70b wele E.T. yn cyfrannu: "Erin go, a plant i called also sea holly, the roots of which are esteemed good against the plague & contagions."

---

### Y Violet. 53./

Yr enuæ

Viola purpurea yn Latin, Violet yn Saesonaec ac yn Camberaec./

Y phurf./

Dail y Violet ynt teneuach a duach no dail yr Eideu, eithyr nid[71a] antebic o lun, darn o'r gureidyn a ymestyn vch dayar ac o honau y tyf yspyrsen vach a blodeun rhudlas aroglber ar ei vrigyn ac a had bychedigion meun cibæ gogrynion yn aedfed gyd a diued haf./

Y le

Tyfy a una meun le bo guascot ac meun leoed aggaru, ac yn bendiadnot urth sylfaen muroed, yngoror gerdi ac ynguyll y caeæ./

Yr amser./

Parhau yn oastat yn irlas yd y dyuaid Theophrastus a una yr violet, o chyueirir dim arno: Y guanuyh hagen a mis Maurth y blodeua ac y mae cymesura clasgy ei vlodæ. ar had yr haf val y dyuetpuyd vchod./



Yr artempr./

Dail y violet sy a defnyd dyfrol go oer yn bennaf ynthynt. Can ys oerion ynt yn y rad gyntaf a gulyb yn yr ail./

Y rhinued

Cymeryd y dail ehunain gyd ac[71b] yud ac iro y duyfron ry uresoc sy da ar les yr ymlosc o y meun./ ac o dodir uy urth y tal ar les y penn./ Da vydant ar les lygaid a vo yn loscy, ar les y vamoc, a'r eistedle pan descynnan alán o ei mán./ Ei harogl meun garlant am y penn ne pa vod aral bynnac a oyscar y tordyn ne gyfryu anesmuythdra a hunnu./ Ei hyfed or dufr a uared yr hychgryc./ Y blodæ gleision ynt da rhac yr haint diguyd ac yn enuedic meun plant, ac yfer or dufr i hynny./ Da ydynt rhac gueuyr or colyd anid druc ar les y galon./ Peri cyscy a unant Eithyr afiach ynt ar les pen gulybyroc./

---

Cedor y urach. 54./

Yr enuæ.

Equisetum yn Latin, Horsetayle yn Saesonaec a Cedor y urach yn Camberaec, y galuant./<sup>1</sup>

Y rhyuiæ

Deuryu sy o honau vn sy huy na yr lal ac a gymerir i orlyfny saethæ a chrybæ ne vanoluaiith al[72a] ac am hynny y geilū rhai brūyn nad./ Yr al sy muy cyngafoc ac amplach ei gangæ./

Y phurf

Y rhyu cyntaf o gedor y urach sy a chyrs gweigion, gouridoc taran eiruon sythion yn darnæ sangedigion yn ei gylyd ac a dail val bruyn yn amyl ac yn veinion. Cody ar ei ystlys a una gan dringo a gurychynæ gurumdu a gorphouys ar y guyd nessaf attf

Y le

Y rhyu huyaf a dyf meun leoed gulybion gagennoc: ac nid oes lyseun amlach noc efo ar emylæ phossyd a chan lann afonyd le bo guascot./ Y rhyu yr al a dyf meun gweirglodiæ ac nid anfynych y cyferfyd ar pladuruyr./

Yr amser

Pop vn or deuryu a dyf yr haf yn ei cyfleoed uy./

Yr artempr./

Natur y lyseun yu attal ac am hynny yr ettyl ei suc ef y gwaedlin rhac cerdet./ Yfer gyd a guin[72b] rhac haint calon./ Da yu y beri piso./ Y dail uedy ei curo, sy da y iachau archolion gwaedlyd./ Y lyseun ef ar gureidyn sy da rhac y pesuch, rhac diphic anhatl, a rhac ysictot./ Ac od yfir uy meun dufyr cyfany a unant vriuiæ y chuysigen ar ymyscaroed./ Ac uy a gyfanan y geuynnæ ynghyd. A da yu yr lyseun yma y attal y blodæ ac yn enuedic or liu coch./ Da hefyd yu ar les haint calon ar vors./

---

1 Ychwanegwyd "y galuant" wedyn.

---

Yr enuæ

Viscum yn Latin, Mysseltoe yn Saesonaec ar Vchelfa yn Camberaec y geluir./

Y phurf./

Plannigin tumpathoc yn guehey yn ei gylyd a changæ cyngafoc ac yn ir bob amser a liu melynuyrd a dail val ir bocs ac nid antebic bric ei uyd ir lysæ a eluir corn y caru./

Graun bychain a duc ac yd y dyuaid Phucusius ni duc dim or blodæ etto mi[73a] mi<sup>i</sup> uelun arno cibæ guynion gueigion val maint pys yr rhein yr oedun yn tybieid mae ei vlodæ oedynt./

Y le

Byth ni thyf yr vchelfa ar y dayar anid ymblic yspadat, efyl nei elyc prenn ac yd y dyuaid Phucusius yn enuedic ar y Deruen yr hyn ni uelais i etto, nac yn tyfy ar vn prén y tu yma i Lan Golen./

Yr amser

Y cynayaf y clescir ef ai raun arno eithyr mi uelais vis Mourth yn emyl y bont ar Geirioc vn luyrn or vchelfa ar cibæ guynion hynny arno, a phob vn o y yno hyd yn Ludlo eb gibyn arnau./

Yr artempr

Guresoc dost ydyu o bleit anian auyr a dufyr syd ynto yn bennaf a bychydic phurf dayarol sy yn ei deunydy. urth hynny y mae vo yn hydrach yn dost noc yn chueru./

Y rhinued

E a oyscar, e a vedalha, ac a sucun atto ac o chymyscir a resin a ei ogymmeint o guyr e a aedfeda gnyckiaë[73b] a chuarēnæ./ Maur yu ei nerth y garthy gulybyroed ac yu goyscary ai trefny yu le anianol./ O chymyscir a charrec calch uedy ei loscy a rhoi guadot guin attei anguanegy ei rhinued yn vuy a una./

---

i "mi" ydyw gair diwethaf 73a, "uelun arno" ydyw'r geiriau cydio. Gwall felly ydyw ei ymddangosiad drachefn ar ben 73b.

---

Muc y dayar./ 56./

Yr enuaë./

Ffumaria yn Latin, Ffumeterre yn Saesonaec a Muc y dayar yn Canberaec./

Y phurf./

Lyseun yu yn tyfy yn luy cyngafoc a dail guelu dyner ido yn vonluyd sef a liu y ludu arnun a liaus xaur o hanyn ac a blodæ rhudgochion./

Y le

Tyfy a una meun ydæ, meun gardæ, meun caeæ meun eisynechyd a hen vuroed gagennoc ac meun leoed ereil ar dir bras cypheithûs a ader eb lafurio./

Yr anser

Ar diued mis Mai a mis Meti y mae ei glascy ef.[74a]

Yr artempr./

Guresoc a sych yn yr ail rad ydyu yr hyn sy eglur urth ei vlas can ys tost  
a chueru ydyu./

Y rhinued

Muc y dayar sy da i garthy y trunc afiach or corph, a da yu y nerthy  
guendit yr avu./ Da yu i iro y lygaid ai leuychy yr hun a bair ir dacræ  
deuot alan mal yn niulen ne vuc o y urth yr rhin yr enlod e ei enu./

---

Y Lindro. 57./

Yr enuæ

Cascutha yn Latin, Doder yn Saesonaec, ar Lindro yn Camberaec./

Y phurf./

Rhyd luyni lysæ y tyf gan ymgynal urthynt a [heb dim]<sup>i</sup> guraid luosoc ido  
a[myn]<sup>ii</sup> megys alan oe ceseiliae edyn yn vn cunsalt aruthrol o hyd yn  
deilio ac yn ymgyrheudyd or cangæu buy gylyd ac ymdro plethedic mal y  
ysbyssy ei enu priodol./

Ni uelir dalen arno; eithyr blodæ[74b] guynion a duc, ac meun lin tene y  
byd ef amyl. ac nid antebic o liu a meintioli y dantæ telyn vyd y lysæ  
hyn./

Y le./

Yn y dayar y dechre y Lindro a gureidiach mân ido y rhain a diflānan ac a

uyuan er cynted y dringo y ymuascy ar lysæ ne brennæ a chael cynnydieth yr hun a dyf yn vyny ch yn hadæ bychain cyn amled ac mal vn agued a luast i guascota rhac yr heul y dyuarchen a vo dano. Ac ueithie uedy ymaelo ym bric rhyu lysæ yd a ympenbleth ai vamaeth gan ymaflyd yn ei thopyn a ei buyso tu ar dayar ai thagy a ei dannæ ne ei sucno yn hispyd./

Yr amser

Yr haf yn enuedic mis Mai a mis Gorphenhaf y mae arferedic o gnydio

Yr artempr

Guresoc yn y rad gyntaf a sych yn yr ail ydy canys y mae rhyu chuerued ynto./[75a]

Y rhinued

Da yu ef yn erbyn anuyll yr auy, a charthy y guythi o ulybyroed aduythus a una. Rhuydhau phord y trunc a hair./ Guredauc yu rhac cluy y brenhin yr hun a vacko o ruystyr yr auy./ Iachus yu rhac y cryd a vo ar blant, anid aduytho y cyla a una o dieithr dody ychydic Anis yn ei benn./ Eithr guilia di natur a rhinued y lyseun ne yr præn a vo yu veithrin e, o bleit urth natur hunnu y tada e lauer o ei gynnedfæ a ei rinuedæ

---

i Ychwanegwyd "[heb dim]" wedyn.  
ii Ychwanegwyd "[myn]" wedyn.

---

Yr enuæ./

Betonica yn Latin, Betonye yn Saesonaec. Cribæ San Phred yn Camberaec./  
ai Dannocen. S. Phred eruyd y bylchæ yngogylch y deilen?/<sup>i</sup>

Y phurf

Lyseun yu a chorsen bedairochroc o cufyd o vchder nei vuy ac a dail hirion  
medalion cyphelip y dail y[75b] Deru ac yn danned ys moelion oe hamgylch  
arogloc ac yn braphach tu aei bôn ac yn duyn had meun tyuys ymbreidfric y  
gorsen a gureid meinion sy ido val guraid yr Ellebor./

Y le

Cribæ San Phred a gair yn tyfy yn gueirglodiae yn y coedyd, meun leoed  
oerion, a le ni bo vaur dyuyn haul./

Yr amser

Ym misoed Mai ar Mehefin y bydant yn ei laun vlodæ./<sup>ii</sup>

Yr artempr./

Guresoc a sych yn y rad gyntaf yn gubyl neu yn cenol yr ail

Y rhinued

Dail y lysæ hyn a glescir ac a sychir er mlyn lauer o gyfaredion./ Od yfir  
y guraid gyd a dyfrfel uy baran vuru phlêm annaturiol./ Puys vn dram or  
dail a roir meun dyfrfel i rei ysic o y meun, ac i rei aduythic./

Y lyseun ehun od irir ar vrath neidr guaredauc vyd./ O chymer vn hun yn  
gyntaf, ni una niued ido yfed traf[76a]lunc o beth guenuynic. E elung y

boly ar tronc i gerdet./ Od yfir gyd a dufyr da vyd ir neb y bo yr haint diguyd ne gyndared ynto./ Od yfir puys dram o honau gyd a vinegr da vyd rhac clefyd or Duec ne or auy./ Da vyd ar les treulio o dyn ei vuyd o chymerir cymeint a phaen o hono a ei verui gyd a mel a ei lyncy yn ol super./ Ac vely yr vn mod y mae yn iachus i hun a vo yn bretheirio rhyu beth chueru sur./ Y mae yr lysæ hyn yn da hefyd ar les y duyfron o chnoir uy ac yfed y sŷc uedy ei lad a guin. Puys cenloc a dimæ o honun gyd a phiolet or iscel y beruet uy meun guin, sy da ar les y neb a vo yn poeri yr gwaed./

Cymerer or dufyr rhac dolur o ben y glun, or arenæ ac or chuysigen./ Puys dau dram o honau sy da rhac y dropsi, ac ir neb y bo yr cryd arno meun bragoudlyn, nei meun dyfrfel. Conphordus vyd rhac cluy yr brenhin./ Yfer puys vn dram o honun meun guin o mynnir ir blodæ gerdet ei curs./ Da vydant ar les vn a vo yn darfod./ Da yu yr dail hyn rhac y parlys ac ar les aelod a[76b] vo uedy coli ei phruyth./ Da hefyd ydynt rhac dolur o duyfron nei or ystlys./<sup>iii</sup>

- 
- i Wedi ei osod yma wedyn y mae'r cwestiwn: "ai Dannocen...deilen?".  
ii Atododd E.T.: "fo ai ceir weithiau mewn Bronydd heulog yn Tyfy".  
iii Gadawyd chwarter tudalen o fwch yma cyn dechrau'r adran nesaf.

---

Colen Phrancec. 59./

Yr enuæ./

Iuglans yn Latin. A Walnut tree yn Saesonaec. Colen Phrancec ynn Camberaec./



Y phurf./

Prén maur ydyu <sup>ynghlyn</sup>urth lauerod̄ o uraid hirion a chorph hir ac vchel idi a breichiā liosoc o gangæ mourion yn boldardy o bēn y lath nei yr duyloth buy gilyd: a rhisc gagennoc, a dail lydain gohirion ac arogl trymdec arnadynt ac yn rhoi guascot amgylchbel afiachus, ar dail a syrthiant y cynayaf. Dechreu y guanuyñ y dechry hi dardy ynn vaglur beichiogot gan ymestyn yn[77a] gibæ codenoc ac or diued̄ ym̄attod yn dursæ crychion o dalennæ melynion<sup>i</sup>

Y le

Hoph genthi dyfy yn y mynyded̄ cas genthi dyfred̄. Eithyr anayñl i tyf i ein guledyd̄ ni anid le planter<sup>ii</sup>./

Yr amser

Faglurau a una ar ol bod guynt nid or bric [val coed ereil]<sup>iii</sup> anid or vstlysæ gan gympel y rhagdo y blaen duf. Ar cynayaf y hi a phruytha./

Yr artempr./

Artempr hōn yma urth hyspysy ei rhinuedæ a vyd digon eglur./ Y cnau irion ynt sychion yn y rad gyntaf a guresoc yn yr ail./[77b]

Y rhinuedæ

Y cnau Phrencic sy anhaud̄ ei treuliau, afiachus ir duyfrōn. Dolur o bēn a barant, gelynniaeth ir pesuch ydynt./ Da ynt ar gythlunc meun buyt i beri cyfoc. Ac o buyteir uy o vlaen ac ar ol buyt gyda Caruy, a Ruu da vydant yn erbyn guenuyn./

O buyteir lauer o nadynt gyrry alan y pryfed lydain a unant./ Ei cymeryd a uneir gyd a mēl a Ruu, i iro ymlosc y bronnae, ac aelod aduythic./ Cymerer

gyd ac oynion halen a mēl rhac brath ci nei dŷn./ Loscer hi a ei phliscin<sup>iv</sup>  
a dodder urth y bocel rhac y gueuyr./

Y rhisc uedy ei losci aei vaedy meun guin ac oel, a liua ualt plant yn  
heini, ac a lestair ido syrthio [nei a gyfleinu arfoeled]<sup>v</sup>./ Ar peth sy o  
veun y cnau o loscir a ei vaedy ae osot urth y le y dleer, e attal y  
blodæ./ Cnoi cniuilot<sup>vi</sup> hen gnau ai iro arno sy da iaun rhac maruchuyd,  
plorot, rhac marugic yn y lygaid a rhac arfoeled./ E uneir oel or cniuyt  
uedy ei curo a ei guascy./ Lai o druc ir[78a] duyfron a una yr cnau irion  
cansy melysach ynt, ac am hynny y cymnyscir uynt a phethæ pan chuennycher  
ei peri yn didostach./ Od irir y van ac uynt le bo clais myned ymaith a  
una./ Natur baglur a dail y prēn yu rhyu attal, eithyr nid aneglur bod  
anian attal ar y blisc or cnau yn neuyd ac yn hen./<sup>vii</sup>

- 
- i Gadawyd bwlch o hanner tudalen cyn "Y le".
  - ii Cywirwyd "planner".
  - iii Wedyn yr ychwanegwyd "[val coed ereil]".
  - iv Cywirwyd "phlyscin".
  - v Cronfachau gwreiddiol.
  - vi Cywirwyd "cniuytlot".
  - vii Gadawyd bwlch yma o chwarter tudalen cyn yr adran wedyn.

---

Lysæ Mair. 60./

Yr enuæ

Caltha yn Latin, Mary gold yn Saesonaec, Lysæ Mair, ne Gold Mair yn  
Camberaec./

Y phurf

Lyseun ydyu yn tyfy yn luyrn a throedfed o hyd yn ei gyrs a chaled val prén ynt: a dail hirion yn pigfeino a blodæ siriol melyngochion ac aroglæ digon tec cyd bai trum o bleit[78b] yr hŷn ansodion y plethir uy meun garlantæ: a hedyrn garu ysguyrgam a gureidyn a lauer o gangæ mân yn dyfod o hono./

Y le

Tyfy meun gerdi y ceir ac odid o ardan ni bo Golt Mair ynthei./

Yr amser./

Ef a gephir rei blodæ arnûn gan muyaf dechre pob nis gan gymeryd mis Mai i gychuyn ac ar hyd y cynayaf y bydan disclair o gyflaun vlodæ./

Yr artempr./

Guresoc a sych yd ys yn ei adel, ac nid eb achos, can ei vod o velyster cŷmetrol yn gyfun ac yn gyfrannoc a chuerued./

Y rhinued

Y lysæ Mair ynt da i gyueirio buyt, ac od yfir y blodæ meun guin peri a unan i ampynt merchet gael ei gurs naturiol./ Suc y lysæ sy gyfared uaredauc rhac y dannoed o golchir y genau ac ef./[79a] Ar blodæ y gelir melyny/r/gualt any bydir bodlon ir liu a roes Deo./ Y blodæ hefyd yn gystadl ar lysæ druy ei cymeryd<sup>i</sup> yn sychion a pheri ydyn vygy syd da y gael alan yr ail geni./

---

i Cywirwyd "cymryd".

---

Y Canri goch. 61./

Yr enuæ./

Centauriũ minus, et Ffel terræ yn Latin, Centorye yn Saesonæc. ar Canri goch a Bustyl y dayar yn Camberæc./

Y phurf./

Lyseun yu a phaladr congloc o droedfed ne uel o hyd ac a blodæ guelugochion ac a dail bychain gohirion, a had mal guenith, a gureidin eidil yscafn eb vud./

Y le

Ar ael lynnæ a le lathraid y tyf yd y dyuaid Dioscorides. a mal y tystia Apuleius meun tynndir[79b] a thir caled y tyf ac vely guelun yn damueinio yn ein guledyd ni./

Yr amser

Yr haf ar cynayaf y blodea ac yr hada ac y mae cymesura ei godi./

Yr artempr./

Ansod y dail ar blodæ sy chueru a tharan attaliedic ac am y rhyu artempr cyfared sych ydyu ac ni vrath din./

Y rhinued.<sup>1</sup>

Y lysæ irion uedy ei curo sy da y iro archolion./ Da ynt y garthy ac y beri y hen gornuydyd claurlyd vyned yn groen gyfan./ Peri a unan ir phlem afiach ymyscurio i uared or boly./ Ei iscel sy da yu dyual o veun y saul y bo guaeü oei clun arnunt, o bleit e duc alan y guaeð ac esmuytha or poen./

Y suc gyd a mel sy vudfaur meun cyfared yr goluc o bleit carthy y maes a una y peth sy yn tyuyly/r/ganuyl./ O senglir meun goreithuran peri yr blodæ ac yr letfegyn[80a] ysymuto alan a una./ Ei yfed ehunan sy ganhorthuyol ar les anhuyl y gieuyunnæ./ Gureidyn y lysæ hynn nid oes dim nerth yntho: Eithyr da yu y lyseun ar les y Duec pan vo hi yn caledy pa vn bynnac a uneler ai ei roi urthei o y alan ai ei yfed y meun./<sup>ii</sup>

- 
- i Crynhowyd llawer o'r rhinweddau ar yr ynyl mewn llaw gyfoes.  
ii Ebe E.T. yma: "its special good in Feavers & Colic".
- 

Phaen. 62./

Yr enuæ

Ffaba yn Latin, a Beane yn Saesonaec a Phaen yn Camberaec<sup>i</sup>./

Y phurf./

Y phaen ynplith yr ol lysæ sy yn duyn codæ, a saif ar ei throed oi nerth ehunan. Dail cnodic sy idei ac a blodeun criboc ysmudliu part yn ufn part yn rhudlas ac a blotiæ duon arno: a chodæ val cyd a bys ne huy a phruyth lydan ynthi ar lun eun dyn ai liu a ymrafaelia yn ol ei oedran. Vn gureidyn caled syd idi a lauer o uraidiach meinion yn tardy o honau.[80b]

Y le

Pha a heyir yngardæ lauer ac adas ydynt dyfy meun tir phaeth ne meun tir a vo uedy ei deilo yn aml./

Yr amser

Yr haf y blodea a mis Meti nei ynghylch hynny yd aedfeda./

Yr artempr

Y mae yr phaen o ran oeri a sychy yn puyso yn agos iaun i gymmetrol ardymer. ac urth hynny oer a sych yn y rad gyntaf./

Y rhinued./

Gyntoc ydyu peri chuydo a una, anhaud yu ei threulio, peri gueled breuduydion trapherthus a una hefyd./ Ac er hynny da ydyu rhac y pesuch ac y beri puyntio./ O beruir meun dufr a vinecr ai buyta hi ai chibin da yu rhac haint calon./

Da vyd ei chymryd meun buyd rhac cyfogi./ Lai y mac hi uynt o burir ymaith yr iscel cyntaf. A muy a una hi o druc ir duyfron yn las, a muy a vac hi o[8la] uynt./ Ei blaut hi ehunan ac uyi a esmuytha ar ynlosc briu ac ai duc creithia yn vnliu ar cnaud yral yn ei emyl./ Da ydyu ar les bronnæ y bo yr laeth yn ceulo yn gnapiæ nei dolchennæ yntyn ne yr bronnæ a vo yn loscy, ai peri yn hyspion a una.

---

i Cywirwyd "Cyberaec".

---

Lupines

yr enuæ

Lupinus y ladin yn Saesonaec lupines ac yn Gamberaec nid oes gan i ōn henw

arrall etto

y lle

I mae yn tyfŷ fal ffŷa; mae daŷ rhew o honynt y gwyllt ar dof y dof ir ydys  
yn i plŷnv yn y gerđi

yr Artenper

I mae yr wressoc a sych yn yr ail radŷ ai rhinwed i dreilio ac i garthu

Rhinwed

I blawđ, ai gymysgu a mel ne a đwr a vineger sy yn llađ ac yn gyrru allan  
pob math a lynger

Ir vn rhinwedŷ sy ar yr isgell y berwir hwynt

Ir vn pwrpass y maen yn rhoi y lupines wedi i stampio wrth fogel plant ar  
gythlwm

Ir esgell y berwir lupines gida Rew a phuper syđ da i egor stoppiade ini r  
Au am nylt

Peaseary a wneir ai blawđ myrrh a mel ai kymysgu a gynyrfa klyfyd gwragedŷ  
ac a yr allan y llwyth marw

Isgell yr hain a lanweithia yr wyneb ac a eglura rhac ffreckls a llosgiad y  
tess Ar vn rhinwedŷ y mae y blawđ wedi i gymysgu a đwr ai rhoi wrtho

Y peillied gida peillied haidŷ parchedic a đwr a smwytha y mopostimacon a  
chwyđ

yr vn gida vineger ne wedi i ferwi mewn vineger a leihaa dolur  
Sciatica[81b]

y mae yn dattod klwy y brenin a chwydd yn y gwđw y mae yn torri<sup>i</sup> y wens a  
phob math ar gornwydydd<sup>ii</sup>

I fo ellir i bwytta pan fo wedi i mwydo o mewn đwr ac wedi lleihau i

chwerwedd ond maen yn anodd i trello<sup>iii</sup>

- 
- i Dilewyd "ac" ar ôl y gair hwn.
  - ii Addaswyd "gornwydudd".
  - iii Cadawyd bwllch gan R.M. a gynhwysai ddeuparth 81b a chwarter 82a. Yn y bwllch hwn yr ychwanegwyd yr adran hon. Gwnaethpwyd hynny gan law gyfoes a ymddengys eto yn y llawysgrif, gan gynnwys yn adrannau "Y Pumarcholl" a "Mantell fair".
- 

### Y Cuarch: 63./

Yr enuaë

Canabis yn Latin, Hemp yn Saesonaec a Cuarch yn Camberaec./

Y rhyuiaë

Deuryu guarch y syd, vn dof ac al guylt. Y guylt a eilu y Latinuyr Terminalis./

Y phurf

Y Cuarch dof sy a dail ido val i onnen ac arogl cadarn, a chyrs hirion ac yn chuïbol, a had crún.

Y Cuarch guylt sy a chyrs ido val ir Holihok anid ei bod yn duach, yn aruach ac yn lai ac o cufyd o[82a] vchder a dail mal ir Cuarch dof pe nad garuach a duach. a blodæ guineugoch./

Y le

Y Cuarch dof a dyf meun tir a lafurier er ei vuyr./ Y guylt ynteu<sup>i</sup> a dyf yn y coedyd ac meun tir garu ac mal y tystia Apuleius ar emyl phyrd a chaeæ y



cynnyrcha hefyd.

Yr amser

Y lyseun a godir i uneythur cyfaredion pan vo yn ei gubyl gynnyd. Ai had yn ol aurdod Plinius vyd aedfed ynghylch cyhydyd cynayaf

Yr artemor

Taran uresoc a sych ydyu

Y rhinued

O chymerir dogyn maur o had y dof diley<sup>ii</sup> planta a bair./ Guascy sucun yr had pan vo yn ir sy da ai dualt meun clustiaer esnythau y dolur ac i beri i bryfed deud[82b] alan./ Gureidyn y gylt uedy ei veruy sy da i iro le bo ymlosc./ Da vu y estung chuyd ac y dileu cynn./ Anhaud yu treulio had y Cuarch o buyteir, druc yu ar les y duyfron ar pen, a magu gulybyroed mal a una./ A chymaint yu ei nerth o burir meun dufr ac y pair ido geulo ac anhynt y dodir ar dufr er muyn helpu boly anifeillieid./ Y gureidyn guedy ei verui a vedalha cymalæ a von uedy crybychy./ Da yu hefyd ar les y gout a chyfryu angerd./ Da ydyu yn amrud yu roi urth losc, eithyr neuidier yn vynyth cyn ei grinsythy./ E uyr pop husuif da mae da yu rhisc ne bilion y Cuarch i uneythy lauer o defnydiæ o honau./[83a]<sup>iii</sup>

- 
- i "nais "ynt" ac "eu". Holltwy' hwy rhwng dwy linell ac anghofwyd rhoi cyplysnod rhyngddynt.  
ii Addaswyd "dilei".  
iii Gadawyd bwllch ar waelod 83a o chwarter tudalen.
-

Yr enuæ./<sup>i</sup>

Auellanæ nuces yn Latīn, Hasel nuttes yn Saesonaec, Cnau colen y gelir ei Cambereicio

Y rhyuiæ.

Dau ryu syđ ydyn sef cnau colen coet a chnau colen gardæ ne phylberds yd y geilū y Saeson uy: y phrancot ai geilū Auellane franche, sef yu hynny Cnau Phrencic, eithr rhyu amgenach yu hunnu i ein iaith ni./

Y phurf.

Colen id brēn yr hūn y tyf y cnau bychain arno ac ampl uiail yn yspyr̄sio oe vōn, ac aei vric yn tafly yn gangæ liosauc eb gygnæ, ac a dail or ail tu yn tyuyłach na´r yl al, ac yn dannedoc oe hamgylch./

Y prēn id o defnyđ masu a rhiscin laith taran deneu ac yn amluioc o vaculæ guynion<sup>ac</sup> a phabuyryn teneugoch./ Ni vlodea hi, anid yn le blodæ y duc hi gynnafon yn vn rholiæ bychain val pryfed hirion a[83b] phop vn ynglŷn ar droed or neiltu A rhein dechre guanyn a ymagorant ac a dihoenant urth deuoť dail, ym pa le yr ymdengys eginos bychain ar lun edafed saphron y cynnifer ol a rithiant yn gnau pop vn./ Colen Phylberd ne golen y gerđi nid oes amrafael dosparth arnei rhac y golen goet, anid bod ei dalennæ hi yn vuy ar prēn yn aduynach, ei phruyth yn uel, y bliscin yn deneuach a phillionen rudgoch oe hamgylch./

Y le

Gore genthei gleidir ne dir phōg ac vely tyfy a una ar doldir meun coet a gorfrynyded<sup>ii</sup>/

Yr amser

Y cynayaf y clescir y cnau./

Yr artempr. Y rhinued<sup>iii</sup>

Y rhisc ar prén ar phruyth pop vn hanynt sy aruach ei blas na yr rhai Phrenciaic o bleit vod muy ynthynt or defnyd dayarol ac or gulybyrol.' Simeon Sethi a dyuaid mae guresoc a gulyb yu y cnau[84a] colen coed./ Nid da ydynt ar les y dyufrón: eithyr uedy ei curo da vydant yu hyfed meun dyfrfel rhac hen besuch./ Ei losci ai cymyscy y gyd a guer arth sy da rhac arfoeli./ Muy o gynnyd a unant na yr cnau Phrenciaic ac anhaus yu ei treulio. Eithyr e vyd haus ei treulio o philir ymaith o gylch y cniuil y pilion nessaf attun./ E dyuedir o chymer vn huy gyd a ruu o vlaen buyd na una guenuyn ido eniued y die hunnu ac y phy rhyu bryfed guenuynic y rhagdo./

- 
- i Atodwyd "Yr enuæ./" yn ddiweddarach.
  - ii Diddynwyd yr aifl "r" yn y gair, ond ni wn ai R.M. a wnaeth hynny.
  - iii Ar ben 84b yr ysgrifennwyd "Y rhinued" nid yma. Gwnaethwyd hynny yn ddiweddarach.

---

Prén eirin./ 65./

Yr enuæ

Prunus yn Latin, a Plonetree yn Saesonaec ac Eirinbrén yn Camheraec./

Y rhyuiaæ./

Deu ryu sy o hanynt vn dof meun perlan ar hunnu y tyf eirin duoz, eirin guynion, eirin melynion a rhei[84b] amluoc, ac anghyphelip vyd phruyth y

guylt./

Y phurf

Yr eirinbren id yn tyfy ai uraid rhyd claur y dayar a bôn garu taran vnion yn phorchogv yn lauer o gangæ a dail yn cychuyn ynn grynion ac emylæ rhintach ydynt a blodæ guynion dalenoc a phruyth a chnaud ne vuydionyn ido a chroen oe amgylch ac a charrec galet o y meun a chniuilin oe meun hithei./

Y le

Y prên dof a dyf yn y perlannæ, y Damsen a han yu o dinas Damasco yngulad Siria val y duc yr enu ar gof./ Y prên guylt a dyf rhyd y caeæ le damuynio./

Yr amser

Y dof a duc ei phruyth yr haf ar guylt y cynayaf./

Yr artempr./

Yr eirin dofion ynt ulybyroc ac oerfeloc yn gymmetrol; yr eirin[85a] guyltion attal a unant vegis y byd eglurach urth hyspysy ei rhinuedæ

Y rhinuedæ

Dail yr eirinbrên uedi ei berui y meun guin sy da i uneythyr golch ir geneu ar gêc pan vo anhuyl arnunt. Ar vn rhinued syd ar phruyth eirinbren y coet uedy darfo ido aedfedy a sychy. o beruir meun guin neuyd guel vydant ar les y duyfrôn ac y attal rhugled y boly./ Od yfir y phruyth meun guin drylio maen y tosted a una./ Rhaif a dyuaid mae da yu guefr ne Yscraulung y prên yu yfed meun guin y difa carrec y tosted, a gyd a guin y uared

deruraint a vo ar blant./

---

Cicut. 66./

Yr enuaë.

Cicuta yn Latin Homelocke nei Hemelocke yn Saesonaec a Cecyt[85b]en yn Camberaec./

Y phurf

Lyseun yu a chorsen braph gymmaloc ido yn gynhebic ir Phenicul, a dail bychain, a sauyr trun arnunt, a changenos bychedigion yn tyfy yn droelenne ar y briced./

Blodæ gunion, had mal had Anis, anid ei vod yn uynnach A sureidyn phaü ac ni<sup>d</sup> yn dufn./

Y le

Ampl y tyf meun gueirglodiaë meun leoed anarloes ac meun guascot./

Yr amser./

Yn mis Mehefin ei duc vlodæ a hadon.

Yr artempr./

Y Cecyten a gyfrifir yn vn o'r rhei angheuol: o bleit difa a ei hoerfel a una hi, ar gyfared oreu rhac ei druc yu yfed y gun cadarnaf ne uresoccaf o natur ar a gapher, a gore puy cyntaf yr yfer./[86a]

Y rhinuedæ

Y brigynnæ o churir a guascy ei suc alan o hanynt cyn aedfedy gormod or had, ef ar cangennos a vo yu gynnal a guedy ei uascy ei sychy yn deisennæ bychain yn yr haul, da vyd yu gymyscy ac eliaæ lygaid er esnythau y dolur./ Da yu y lad tân idu a chyfryu haintiæ angerdol od irir arno./ O chymerir y lyseun uedy ei guro ai roi urth y ceiliaæ e le stair gueled breyduydion godinabus, o bleit ei lescau aei dinerthy a una./ Ac o dodir urth geiliaæ plentyn ieuanc peri ydyn dihoeni a una. Ac yn ol y mae audurdot Anaxilaus. O dyry moruyn ieuanc urth ei bronnaæ ny chynnydân muyach o hynny alan. A diogel yu y pair y vronnaæ guraic etifedoc vned yn hyspion o dodir urthynt./

---

Tafod y ci./ 67./

Yr enuaæ./

Lingua canina yn Latin, Houndes[86b] tongue ne Dogges tongue yn Saesonaec a Tafod y ci yn Camberaec./

Y phurf./

Corsen syd ido o cufyd o vchder ac ueithie a vo vuch, cedenoc cangenoc ac yn tyfy o y ar yr vn bonyn a dalennæ culion, hirion gulanoc eb uythi na rychæ arnadynt a medalion: a blodæ rhudgoch urth dechre, ac or diued y rhudlasan ac edafed rhudgoch ne purpur a rhyddyn ac a gureidyn hir dufn yn y dayar./

Y le

Tyfy a una ar ael phyrd

Yr anser

Mis Melefin ar Gorphenhaf y blodea

Yr artempr

Oer a sych yn yr ail rad ydy yn ol medul y lyseuyr or oesoed dyuaethaf hynn./

Y rhinuedæ./

Da ydy rhac tardiat or genau a rhac dryc clefri yr al, a rhac haint[87a] calon./ Ac e dleit ymarfer or lysæun yma ym pop cyfared a uneler eli i cornuydyd, i vriuiæ, ir vrech vaur, ac y gyfryu heintiaæ. Ef a uaret natlif ar ur a diferiad gulybyroc or penn, eruyd pa am ei cymyscir ar pelenaæ yr aruaeth hunnu./

---

Bresych. 68./

Yr enuæ

Brassica sativa yn Latin, Cole yn Saesonaec, Bresych ne Caul yn Camberaec./

Y rhyuiaæ./

Cyd bai lauer rhyu Vresych gynt, eithyr nid ys heddy yn ymarfer anid o beduar./

Y rhyu cyntaf sy a dail mourion lyfnion lydain ac a phaladr maur ido./

Yr ail rhyu sy a dail crychion ido ac a elir ei alu y Caul crych.

Y trydy rhyu sy a dail bychain teneuon ido ac a blodæ melynion./

Y pedueryd sy orueiðioc ac yn benn egoret yn vn botten dalennoc ai dail yn grychi[87b]on yn grebach a mal dasurn o grympogæ uedy ei ymbanny yn ei gylyd./ Y rhyu hūn a eilu y Saeson Cabage, nineu alun ei alu y Caul guyn ne y Caul crympogoc ne Caul Phrencic./

Y phurf

Y Bresych nei yr Caul sy idi gorsen braph daran uridoc a dail mourion cnodic guyrduynion yn tyfy yn gangæ o pop parth a blodæ melyn ne uynion a had meun codæ./

Y le

Yn y rhan vuyaf or gerdi y cair y lysæ hyn yn tyfy. a gore man y tyfant meun bro oer lauioc./

Yr amser

Mis Aust y bydan yn ei laun vlodæ ac vely yr hadan val y darpho./

Yr artempr./

Y Bresych pa vn bynnac ai vuyta a uneler ai ei osot urtho o y alān sychy a una. ac vely sych a guresoc yn y rad gyntaf ydy

Y rhinued

Y Bresych dofion sy da ar les y boly[88a] o buyteir uedy darpho ei veruy a than araf. O bleit o beruir e yn da e attal y boly, a muy o lauer o beruir duyuaith, ac o beruir meun leisu./



Druc ar les y duyfron ydyu yr haf o bleit tostach ydyu./ Yn yr Aipht eruyd ei chuerued ny ysir<sup>i</sup>./ Da ydyu ir neb a vo ei oluc yn dechre pyly, ne ir nep y bo yr parlys arno./ O chymerir yn ol buyt dyphody a una pop surphet, ne niueidion a delont o achos guin./

Y brigynnæ ne yr blaendard vchaf syd iachusaf ar les y duyfron a-yn ei vod yn siarpach, ac yn uel y beri ir trunc gael ei gurs./ Druc ydyu uedy ei halty ar les y duyfron a rhuystro yr boly a una./ O buyteir ef yn ambrud gyd a phlur de lis a salpetr peri y boly yn rhugul a una. Od yfir gyd a fun da vyd rhac brath neidr./ E garth y penn o burir ehunan yn y phroenæ./ E a bair ir blodæ gerdet o chymyscir a blaut y buluc./ Y dail ehunain uedy ei curo neu gyd ac yud ynt da rhac ymlose a maruchuyd./ Da ynt hefyd rhac tân idu, rhac plor a del o<sup>ii</sup> y urth uynt y nos, a rhac y cluyf gohanol: gyd a halen y drylian y pungæ./ Lestair ir gualt syrthio a[88b] unant./ Wedy ei beruy ai cymyscy a mel cyfared da ynt rhac y cancr, ne y cnaud idu./ O buyteir uynt yn ambrud alan o vinecr iachus ynt ar les y Duec./ O chnoir uy a lyncy ei suc peri cael y leferyd a golet a unant./ Ei hiscel od yfir a rugla y boly ac a gynnyrfa y blodæ./ Y blodæ o guthir meun gorath<sup>iii</sup> gyfadas yn ol ymduyn peri hyspy a una./ Yr had sy da y garthy brychder yr uynep./ O loscir ei cyrs yn irion ar gureidyn gyd ac uynt ai cymyscy a hen vlonec ludyn huch da vydant y<sup>iv</sup> iachau hir dolur a vo ar ystlys vn./ Cato a dyuaid mae gore yu/r/Caul crych ac yn nessaf at hunnu y Caul lyfyn ar dail mourion ar gorsen braph. A da med ef yu rhac dolur o benn, rhac lygaid a vo yn gureichioni./ Da yu yr lyseun gyd a ruu yu dody urth van aduythic./[89a]

---

i Cywirwyd "estur".

ii Rhoddwyd "q" gyferbyn â'r llinell "hefyd rhac...o". Nid ydwyf ddim yn meddwl mai R.M. a'i rhoddodd yno.

- iii Cywirwyd "goraid".  
iv Addaswyd "i".
- 

### Yr Eideu. 69./

#### Yr enuae

Hedera yn Latin, Yvie yn Saesonaec ac Eideu, ne Eideoruc yn Camberaec./

#### Y rhyuiae

Tri rhyu Eideu sy yn bennaf: ac onadynt vn a eluir yr Eideu guyn, eruyd ei vod yn duyn phruyth guyn, a hun a eilu Plinius yn vanyu./ Ar ail rhyu ydyu y duy cen ei vod yn duyn phruyth duy, a hun a eilu Plinius yn ur ryu./ Y rhyu hun a vyd yn tyfy mor gyglyn ar muroed ac yn ymuascy mor garedigol ar paruwyd ac y byd blin ei ohany o y urthyn./ Ar trydy rhyu a eilu y Latinuyr Hederula sef yu hynny Eideugyn ne yr Eideu bychan./

#### Y phurf

Yr Eideu duy yr hun a dyf yn ein bro ni a ei vreichiae guyrdion yn[89b] ymuasc a phrennae ac a muroed a thra cangoc vyd, ei dalenna yn ieuainc a vydan gongloc ne ochroc, ac yn vynyachaf yn dri ochr y tyfant./ Ac urth heneidio yd an yn grynach Gulydaid a duon o liu vydant ac yn parhau yn irion yn oastat: a blodae eidil a graun gleision yn gyntaf, ac ar hynt yn duon yr ymchoelan ac ueithiae yn velynion ynglyn urth draet hirion ar agued graunuin anyd ei bod ar oyscar ac nid yn vagadae ne bentur crun./ Gureidyn niferoc syd ido, teu, ystuyth, plethedic cangoc a tharan dufyn./ Yr Eideu guyn ynghyfunc ei dail a dyf cangae ido ac ar rheini yr amefyl o y amgylch

y prennæ, a gufn vyd y graun ne/r/dail a vyd arno./ Ar Eideugyn bychydic ni duc phruyth byth yd y dyuaid Theophrastus ac vely can nad yu yn phruytho y mae yn amgeny o y urth y rhyugaethæ yr eil./ Dalennæ bychain cyrrioc rhudgochion a baglur eidil eb duyn graun./[90a]

Y le

Hoph gan yr Eideu y dyfred, y duy a dyf rhyd hen vaguyr ne vuroed./

Yr Eideugyn a dyf yn y coedyd can yn lusco ar hyd y dayar./

Yr anser./

Pop anser y byd irion dail ir Eideu

Yr artempr./

Yr Eideu sy gyfansoddedic o cynnedfæ gurthuynepol o bleit mae yntho beth o phurf attaliedic pan yu dayarol ac oerfeloc. Mae yntho beth lymdra pa id uresoc. Ac nid yu eb dryded sef rhyu phurf hoyuduyn ac yn bendifade tra vo yn irlas./ Can nan uyuo rhaid ido ymady a rhei cyntaf hyn, ar hyn dayarol a erys a hyn sy oer ac attaliedic, a hyn sy uresoc a lym

Y rhinuedæ

Pop rhyu Eideu sy lym ac attaliedic Peri ir geuynnæ ymestyn a una od yfir meun guin duy uaith yn y dyd cymneint or blodæ ac a gotter a thribys, Da vyd rhac haint calon./

Y blodæ gyd[90b] a cerus ai iro urtho sy da rhac losc./

Y dail tener uedy ei berui a vinecr ne yn ambrud uedy ei briuo gyd a bara a iachaant y duec. Traet y dail uedy ei iro a mel ai sengi y meun le dleit a barant ir blodæ ac yr etifed ymescor./ O rhoir y suc yn y phroenæ carthy ymaith y drygsaur ar budredi putr a una, a da yu ar les y penn./ Y deicr a

daŷ or prĕn urth ei dorri a hufia vleŷ ac a lad y lau od irir ac ef./ Suc y gureidyn sy da rhac brathæ pryfed guenyunic./ Od yfir iscel y dail irion meun guin da yŷ y iachau cornuydau anferthol, a phop cic druc./ Ar graun y duyŷ y gualt./ Da yŷ yr graun uedy ei sigo yŷ rhoi meun dant a el yn phauoc gan haint v dannoed eithr dir vyd guisco yr ail a chuyŷ rhac ei lygry./

---

Surianbrĕn. 70./

Yr enuæ./

Cerasus yn Latin, a Cherie tree yn Saesonaec a Surianbren yn Camberaec./[91a]

Y rhyuæ./

Phucusius sy yn dyuedyt vod lauer o ryuæ surian ac nad oes anid tri rhyu yn Germania ei ulad ef./ Ac nid adnabum ine yn Ynys Brytain ein gulad nineu anid dau nid angen coch a duy./

Y rhyu cyntaf sy loiu gochion. Yr ail rhyu sy or vn lŷn amyn ei bod o amrafael liu ac yn uineuach. Y trydy rhyu sy ohirion a mannæ cochion a mannæ duon arnunt./ Ar sirian duon hynny a liuant duylo a gufusæ y saul ai buytao yr vn mod ac y guna y moyar./

Y phurf./

Y Sirianbrĕn sy a dail caled lydain ido ac yn danned oe hamgylchion a rhiscin lyfnduy yn goruyunny a blodæ guynion yn vagadæ nei siobæ a phruyth coch ne duy./

Y le./

Ampl yu yr prenn hún meun perlenni a gardæ. Ar prén sy or rhyogaeth duy a gair yn tyfy yn y coedyd a hoph ganto vynyđ gulybyroc./[91b]

Edrychuch goruch eich penn ar y lau assuy pan eloch ar hyd y geuphord sy yn tyuys o Lanbedr yn Dyphryn cluyd y tu ar mynyđ a chui a geuch ueled prene sirian cochion yn tyfy ehunain o braphter anyscedol

Yr anser./

Misoed Mehefin a Gorphenhaf y byd gnota ir phruyth aedfedy. E ymdengys ei blodæ yn gynnar dechre y guanuyrn./

Yr artempr./

Nid yr vnrhyu artempr sy ir Sirian a hynny a elir ei dyał urth ei ansodion uy./ Er hynny Simeon Sethi a dysc ei bod uy yn oerion ac yn ulybion./

Y rhinuedæ

Y Sirian tra von irion da ynt ar les y cyla ac i rydhau y boly./ A guedy y sycher uy, da ynt i attal y boly./ Guefr ne yscrauling y siriangod meun guin uedy ei dileu sy da rhac hên pesuch a chryged./ Guelau yr liu[92a] ar goluc a una, peri chuant buyt hefyd, a da yu meun guin rhac y tosted./

---

Y Benlas. 71./

Yr enuæ./

Cyanos ne Baptisecula yn Latin, Blew bottel ne Blewblaw yn Saesonaec ar

Benlas yn Camberaec./<sup>i</sup>

Y phurf

Y Paladr sy gongloc a dail meinion surn hirion a chnotiæ mal ir rhos urth vlodeuo eithyr gofleuoc anheini a chlochennæ bylchdufyn purleision oe gogylch./ A gureidyn hirgaled a mânuraid oe ystlys./

Y le

Lyseun tra chypfredin ydyu ac yn tyfy yn y guenith./

Yr amser

Mis Mehefin yu ei brif amser e y vlodeuo a britho yr yd yn uych a una./  
Popl y ulat ai dodant meun garlenti[92b] cyd na bo chuaith arrogl per arno./

Yr artempr./

Oer o artempr ydyu yr hfn a dengys ei vlas yn digon hyspys, o bleit mae yntho ryu ludiat eglur eb dim aruyd gures./

Y rhinued

Y mae y medygon or to dyuaethaf yn doydyt yn diuei mae da ydyu rhac poethfa or lygaid <sup>i</sup> ne van aral./

---

i Ar yr ymyl rhwng "Yr enuæ" a "Y phurf" ysgrifennodd E.T.:  
"Cyanus Stop the Bleeding of fresh wound to Admiration" a "Family  
Herbal 44".

ii "∧" yn llaw R.M.

Oinion. 72./

Yr enuaē./

Cepa yn Latin, an Oinion yn Saesonaec ac Oinion yn Camberaec yu ei enu./

Y phurf

Dail sy ido nid antebic i Cennin eithyr ei bod yn chuibol o y meun a chorser gron grothoc ac yn ei bric y dau blo'æ guynion yn gyntaf ac yno had yn siobynnæ urth ei gilyd:[93a] a chnap o ureidyn ido a lauer o amuscoed ar uartha ei gilyd ac yn vchaf y mae guiscrad ne bilion rhudgochion andano ac oei dalcen y mae gureidiach man yn tyfy./

Y le

Hoph v gan yr oinion dir phaeth ne dir tail gurteithus. Ac odit gard eb y lyseun hun ynthei yn ein anser ni

Yr anser

Pennaf anser yr hada yr oinion yu mis Gorphenhaf ac yno hady val y darpho rhac lau a una. ac ni thal dim clasgy ei had nes ido duo ac yno yn y van y mae ei dynny./

Yr artempr./

Guresoc ydyu yn y beduared rad ai han yu o rannæ diteneu./ O guescir alan ei suc ef, y dryl aral sy o haen dayarol a guresoc hefyd: eithyr y suc id o dyfrol ac uybrol sychder./

Y rhinuedæ

Yr Oinion hirion sy dostach na'r[93b] crynion, ar cochion na'r guynion, y

sychion na'r irion, a rhei ambrud sy dostach na'r rhei a veruer neu a halter. A'r cubyl ol ynt dost a phraeth ac a vagant uynt ac a garthant alan./ Da ynt ar les y boly./

Suc yr oinion gyd a mel sy da y iro y lygaid rhac y niulen o deli pan vo yn dechre dyfod. Tyuallt y suc yn y phroenæ sy da y garthy y penn./ Da ydyu hefyd gyd a halen ruu a mel yu dody urth vrath ci./

Da ydyu y gyd a blonec ludyn iar rhac y cibus./ A da ar les haint calon ydyu./ Les a una rhac byderi ne soon<sup>i</sup> meun clustiaæ, ne i glustiaæ a von yn rhedec o ryu isiu./ Cyfaredol yu ei sũc i iro arfoeled er mlyn tyfy gualt./ Buyta oinion yn ehelaeth a hair dolur or penn./ Buyta oinion uedy ei beruy a gymnel ir trunc gerdet yn braph./[94a]

---

i Cywirwyd "sũn."

---

#### Haid. 73./

Yr enuæ./

Hordeum yn Latin, Barlie yn Saesonaec a Haid yn Camberaec y geluir./

Y rhyuiaæ./

Y lafuruyr a doedant vod deuryu haid vn liosochr yr hun a dyf ueithiaæ yn dri ochroc, ueithiaæ yn beduar, ueithiaæ yn chuech, ueithiaæ yn uyth ochr./

Y rhyu yn Guyned a eluir yn haid colioc eruyd im tyb vod yn huy ac yn aruach ei col./

Ir ail rhyu o haid nid oes anid duy restr rhyd y duysen, a hun yn ein gulad



ni a eluir yn gyphredin haid merlys./

Y phurf./

Guellyn sy ido mal ir guenith eithyr ei vod yn eidilach ac yn uanach a phemp ne chuech ne o vuy o gymalæ ne gnotiæ glinioc arno a deilien vnic ido a honno yn aru ac yn lydan a graun gan muyia yn noeth ac a barf huy ac a chol cnithiedic a gureidyn amyl[94b]

Y le

Po brassa vo yr tir gore gan yr haid./

Yr amser./

Y seithfed dyd yn ol ei hau yr einaf ar ail benn ir gronyn a yn ureidyn a yr al yn eginyn, mis Aust y metir./

Yr artempr./

Yr haid id sych ac oer yn y rad gyntaf./

Y rhinuedæ./

Goreu yu yr haid puruyn, eithyr lai o gynnydieth a dyry no'r guenith. medyglyn<sup>i</sup> a uneler o hono er muyn poythi yd ys arno urth ei veruy sy uel y beri cynnydieth na yr yud a uneler o'r haid./ Peri laeth yn ehelaeth a una od yfir gyd ac iscel had phenicul./ Da yu blaud haid gyd a vinegr rhac poythni y gout O beruir meun vinegr cadarn a ei gyueirio yn ol agued plastr da yu, yu doddi yn uresoc urth y cluyf gohanol./ Da yu blaud haid yn am[95a]brud ne uedi ei veruy y oyscary cruc./ Da yu ef a suc yr Henban ar les y geuyunnæ./ Ac alan or vinegr ar mel da yu rhac brychder ar uynep dyn.<sup>ii</sup>

- 
- i Ceir llinell doredig o dan y gair "medyglyn" a'r glos "Ptisana" ar yr ochr.  
ii Y mae bwlch oddi yma hyd yr adran nesaf sydd tua pumed rhan y dudalen.
- 

Saphron./ 74.

Yr enuæ

Crocus yn Groec a Latin, Saphron yn Saesonaec Phrangaec a Chamberaec./

Y piurf./

Y Saphron sy a dail meinion ido a blodæ rhudleision yn y rhei y byd edafed phlamgochion a gureidyn yn gnap amüiscoc yn ampl ac yn vyuiol./

Y le

Nid yu ef yn tyfy yn yr Ynys hön anid le i planner. Ac er hynny y mae cynayaf maur o hono meun mannæ yn Loecr./[95b]

Yr amser./

Blodeuo a una o vlaen deilio, y cynayaf y blodea tu a diued mis Meti; ac ni phery yr blodæ tros vís. A guedy y syrthio yr blodæ y tyf dail meinion ido y rhain a barhaant yn uyrðion yn hyd y gayaf./

Yr artempr

Y Saphron sy a pheth natur rhuyno yntho sef cymeint syd yn dayarol ac yn oer, eithyr hydrach yu yr rhân uresoc./ Eithyr y cubyl ol sy yn uresoc yn

yr ail rad ac ynn sych yn y gyntaf./

Y rhinuedæ

Y Saphron a vedalha, a dreulia, ac a ruyrn ychydic, a bair ir trunc gerdet,  
ac a una liu da./ F ludia ir lygaid dyfry od irir huy ac ef y gyd a laeth  
bronn./ E a bair anladrud./ Da yu y iro tân idu. A chyfares uaredol ydyu  
ir clustiaæ./ Da ydyu rhac poethni or duyfron nei or arennae nei or avy,  
nei or yscyfaint./ Iach ydyu rhac y pesuch,[96a] rhac dolur o ystlys./ E  
uared y cosi ne yr ymgrafy./ A phuy bynnac a yfo saphron ar gythlung ny dau  
surphet arno. Gurthuyneby meduy a una./ A garlantæ o saphron o guiscir vn  
a ludia vedtot./ Da yu rhac diphic anhetl. Peri cael cyscy a una./

---

Galingal./ 75/

Yr enuaæ./

Cyperus yn Latin, English Galingal yn Saesonaec a Galengal Seisnic nei  
Snoden Vair yn Camberaec./

Y phurf./

Y Galengal sy a dail ido val dail Cennin anid ei bot yn huy ac yn sythach a  
phaladr o cufyd o hyd ac ueithie yn huy, yn ochroc, ac yn ei vric y byd  
dail bychain a had yu mvsc. a guraid hirion ym penpleth syd ido: ac ar y  
guraid y mae/r/rhinued, duon ynt, ac aroglæ tec arnunt cyd bont chueru ei  
blas./[96b]

Y le

Meun tir a gyueirier ac meun corsyd y tyf y lyseun hun. eithyr nid yu e yn tyfy yn ein gulad ni o dieithyr yn y gerdi./

Yr anser./

Mis Mehefin y duc ef had yn cymmysc a dail bychedigion./

Yr artempr./

Guraid y Galingal a vernir yn bennaf a guresoc a sych ynt eb vrathy./

Y rhinuedæ./

Da yu yr guraid hyn yu yfed rhac y tosted ac ir saul y bo dufr rhung cic a chnaud sef y dropsi yu poeni./ Da ynt hefyd rhac brath scorpion./ Peri ir blodæ gerdet a unant./

Y guraid sychion uedi ei curo sy da ar les clefri o veun geneu./ Da ynt hefyd yu doddi urth gornuydyd ne dardiat a vo anhaud creithio rhac gulybur. Y mae ynthynt natur culymy ac an hynny y maent[97a] uy yn da yu gosot urth gornuydyd./ Yr had uedy ei grassy ai yfed ar dufr sy da y attal y boly ac anhuyll y merchet./

---

Lysæ yr Cyfoc./ 76./<sup>1</sup>

Yr enuæ./

Lathyrus yn Latin, Spurge yn Saesonaec a Lysæ Cyfoc yn Camberaec./

Y phurf./

Paladr o cubyd o hyd syđ ir lyseun hun yn uac ac mal praphter bys, a dail taran hirion arno, ac yn y bric y mae dalennæ cadeirioc a lai na'r rhein sy rhyd y paladr ac yn gynhebic y dail yr Eideu./

Y phruyth y mae yn ei duyn yn brigæ yr cangæ meun tair cod gonoloc a chyfunc y rhyngthynt a thri gronyn yn ohanredol oe meun uythe ar rhein pan uiscfer or codæ a uelir yn grynnion ac yn uynion, a melys ynt./

Gureidyn bychan a difud meun[97b] nediginiaeth syđ ido. ac o guhyl or lyseun pan vriuer y rhed dacrae laeth./

Y le

Meun tir lafur a thyfodtir y tyf ef./

Yr amser./

Y cynayaf y clescir ef pan vo yn ei phruyth, ar had a dynnir alan guedy y guyo y guiscoed vo yn ei cylch./

Yr artempr./

Guresoc ydyu yn y dryded rad a gulyb yn y gyntaf./

Y rhifuedæ

Chuech nei saith or graun o chymerir ar diod ne ei lyncu yn oerion gyd a Caruy ne ei buyta ac yfed dufr yn ei ol a garthant y boly./ Wy garthant alan hefyd y phlem ar dufr afiach./[98a]<sup>ii</sup>

---

i Ysgrifennodd E.T.(uwch ben yr enw) "Garden spurge Lathyris seu Cataputia minor."

ii Gadawyd mymryn o fwlch ar waelod 98a a gadawyd traean uchaf 98b yn wag, ac nid oes gair cydio ar waelod 98a.

---

Tafol. 77./

Yr enuaë./

Rurex yn Latin, A Docke yn Saesonaec. Tafolen yn Camberaec./

Y rhyuiaë./

Peduar rhyu Tafol y syđ sef y cyntaf a eluir yn Latin a Groec Oxilapathon sef Pacience yn Saesonaec ac Tafolen Vair yn Camberaec./

Yr ail rhyu or Tafol gardæ nid yu gubyl ancyphelip ir cyntaf amyn ar ei dail y rhain yd y dyuaid Serapion lydanach ynt./

Y trydy rhyu sy uylt a bychan tebic y dail y Lyriat medal ac isel, ar dail sy vnued ganmuyiaf a dail y dringol ne Suran yr yd, anid ei bod yn ehelaethach ac mōr[98b] gyphelip a dail Lydan y phord./

Ac y mae yr blodæ ar had mor gynhebic yr eino y Tafol Mair a braid y gelir guybot gohan y rhythynt./

Y pedueryd rhyu a eluir yn Latin Oxalis, yn Saesonaec Sorell ne Sourdocke ac yn Camberaec Y Dringol ne Suran yr yd./

Y phurf

Tafolen Mair sy a dail caledion blaenlymion a had lyseuol ynglyn urth draedæ bychedigion ac a gureidyn hir melynuyyn ne velyngoch./

Yr ail rhyu sy debic y hūn vchot eithyr bot ei dalennæ yn led ac yn tynerach ac a phaladr o lathen o hyd. ac ueithie yn tafly alan yn

gysseilie, a blodæ eidil melynion ac had triochoch mal ir Dafolen Vair, a gureidyn hir melynuyne ne velyngoch.

Ar trydy rhyu sy a deilien idi val ir Dringol anid ei bot yn led ne gyphelip y dalen pidin y goc ne y Dail y Lyriat. O bleit rhei vyd ai dail val dail Pitin y Coc yr eil val Dail y Lyriat, ai[99a] guyd vyd yn is na'r deuryu vchot ac arno y glyn luyth maur o hadæ yn Dringls mân./ Gureidyn gofelyn sy ido./

Y Dringol sy a dalen idei fal ir Dafolen vechan uylt: Eithyr nid yu ei phaladr mōr gubyl braph can ny byd dros cubyd a hanner o vchter a had blaenlym rhytgoch yr hun a amuiscir a dalennæ bychedigion a blas sūr ac a dyf rhyd y paladr

Y le

Tafol Vair a dyf meun corsyd a chan enylæ phossyd./ Yr ail rhyu a blennir meun gardæ yn gyphredin./ Y trydyd rhyu a dyf rhyd loræ sathredic, gan y caeæ, a chan ystlys luybræ./ Y Dringol a dyf yn digon ampl ym pop gueirglod ne meun tir glasuyd ne meun yttir blin./

Yr amser

Yr haf cŷn lad<sup>y</sup> gueirglodæ y cephir digon o bop rhyu o nadynt./

Yr artempr./

Yr yscolheicion dyuaethaf sy yn[99b] gady y Dringol y vod yn oer ac yn sych yn yr ail rad. Eithyr pa artempr yu y Dringol ar Tafol yr eil urth ei hansodion pa rei a dangosir yma rhac lau y dichon y darleyd gael gwybod yn hysbys./

Y rhinuedæ./

Pop rhyu Dafol uedy ei beru y a vedalha y boly./ Ei cymeryd yn anbrud gyd a Saphron sy da y iro rhyu gwyckie chuarenoc er mlyn gestung./ Had y Tafol hyn a had y Dringol sy da ei yfed ar dufyr ne uin rhac haint calon, rhac alary ar vuyd a rhac brath Scorpion, ac o chymer vn or blaen ar diod ni una y brath dim aduyth ido./ Ei guraid uedy/r/ulychy meun vinecr ai hiro urtho yn anbrud sy da ar les y cluyf gohanol ne ryu glefri ar vod yr eryr. a da ynt ar les euined clafryt. Eithyr rhait yu rhubio yn gyntaf y van a vinegr ac a saltpetr./ Iscel y guraid hyn sy da rhac cosi ne ymgrafy o golchir y van ac ef./ Ei hiscel o beruir meun guin sy da y esmuytho[100a] y danoed ne dolur o'r clustiae./ Da vyd hefyd ei berui meun guin ai hiro rhyd pungæ ne dard ne churnelæ yu iachau./ Da ynt gyd a vinegr rhac y duec./ Rhai sy yn arfer or gureidiae hyn rhag punzæ<sup>i</sup> eb uneythy dim anid ei rhuymo uy urth y gudue./ Curer y guraid hyn a dodder urth y cyfle y attal y blodæ ar verchet./ Da ynt hefyd uedy ei berui meun guin yu hyfed rhac cluyf y brenhin./ Da ynt y drylio naen y tosted./ Cynnyrfy yr blodæ a unant./ Ar vn rhinued sy ar y Dafolen vaur, anid ei bot yn uannach, ac ar y tafol yr eil a soniuyd o'r blaen amdanunt./

---

i Ysgrifennwyd "strumæ" uwch ben "pungæ".

---

Danatlen uenn. 78./<sup>i</sup>

Yr enuæ./

Lamium yn Latin, Archangel ne Dead netle ne Whyte netle yn Saesonaec ar Danatlen uenn, nei dal yn Camberaec./[100b]



### Y rhyuiaë

Or danatl hÿn y mae tri rhyu, nid amgen vn a blodæ guynion, yr al a blodæ melynion ar trydy a blodæ rhudleision, eithyr nid oes rhythynt na gohan nac amrafael anid ar liu y blodæ./

### Y phurf

Yr vn phynyt yu ei dail a dail y danatl a vyd yn losci anid ei bod yn lai, yn uannach ac enylæ gurymioc ac a cheden eb vrathy: ac yspyr peduarochoch ac a blodæ guynion, melynion ne rudleision a guraid crafangoc. ac aroglæ trum o bob ban ido. Diniued ydyu ac ny lysc ef dim, had du a duc e yn anl rhyd yr yspyr./

### Y le

Mynych y tyf gan enyl phyrð a luybræ./

### Yr amser./

Dechre guanuyn a mis Mai yn enuedic y blodea a chan muyaf yn hyd yr haf./[101a]

### Yr artenpr./

Y Danatlén varu sy uresoc a sych val y mae y rhyuiaë yr eil ar danatl./

### Y rhinued

Da ydyu gyd a gronyn o halen yu dody urth ysic, urth losc, urth chuyd urth y gout ac urth archolion./ E geir yn cenol y Danatlen ar blodeun guyn beth a iachaa y tân guylt./

Y mae medygon or to dyuethaf yn arfer o ystopio gwaedlin ar danatlen hön gan ei rhuymo ynghyfemyl yr yscuyd, o bleit urth hynny y credant yr ymchuel

curs y gwaet a vo yn rhedec./ A da dros benn medant uy, ydyu y  
vediginiaethy cornuydyd cic druc ac idu./

---

i Uwch ben yr adran ysgrifennodd E.T. "Galiopsis, Urtica mortua vel  
ineris Lamium."

---

Lfn./ 79./

Yr enuae./

Linum yn Latin, Fflaxe, lyne ne Lynt yn Saesonaec a Lfn yn  
Camberaec./[101b]

Y phurf./

Lyseun ydyu a phaladr main ac a dail culion taran hirion, blaenlymion a  
blodæ gleision pryduerth ac uedy dyhoyno yr blodæ y tyf bwl yn godæ  
bychain y gadu yr hadæ melynrrhud./

Y le./

Da ganto tir bras golaith a druc ydyu ar les y tir, o bleit lad tir a una.  
a hynny a tystia Virgil a'r guersi hynn

Georg:           Vrit enim lini campū seges, vrit auenæ,  
                  Vrunt lætheo perfusa papauera somno./

Yr amser./

Yr haf y tynnir ef uedy/r/aedfedo, yr hynn a deelir urth dau beth urth  
gyflounder y bul nei urth ei velyndra ynto./

Yr artempr./

Guresoc ydyu yn y rad gyntaf a megis yn gymetrol rhung gulyb a sych./

Y rhinuedæ

Yr vn rhin syd ar had y lin a had y Phenugroec./ Pop poethfa o y[102a] meun ac y alan a oyscar e ac a ei medalha o chymerir e uedi ei veruy gyd a mel ac oel ac ychydic dufr. ne o chymerir ef meun mel uedy ei verui./ Ac yn ambrud yr iachaa e y bryche vo ar groen yr uynneb./ A gyd a leisu yr iachaa e chuarennæ a churnelæ./ Guedy ei verui meun guin yr iachaa e y tardiat a vacco o uir color melyn./

Y linhad a ei ogymeint o verur a mel sy da i iachau clefri yr euined./ Da yu ei suc ar les y lycaid./ Linhad a thus a dufyr ne myrh sy da y iachau y sych bilen .s. Epiphoras./ Wedy ei grafy y mae e yn da y attal y boly. A guedy bod meun vineyr y mae e yn da y iachau haint calon./ Blaud y linhad yn cymvsc a saltpetr a halen ne a ludu sy da y esnuytho caledruyd y gieuyunnæ, y cymalæ, ne/r/uarh, ne bilionen yr enennyd./[102b]

---

Mercuri. 80./

Yr enuæ/

Mercurialis yn Latin, a Mercuri yn Saesonaec ac yn Camberaec A guybydych na channiata Mr Turner aly yn difei ymarfer or lyseun a eilu paub yn gyphredin Mercuri yn le yr iaun Mercuri./

Soudyl y cryd oed hefyd vchod yn le enu Cambereic ac ar hynny o lau S.T.Williams. Dodoneus. Soudyl y cryd yu Oxalis altera ai Bonus Henricus

ac nid y guir Vercuri./<sup>i</sup>

Y rhyuiaë

Deuryu sy or lysæ hÿn ys ef y gur ryu ar banyu y rhei urth ei dosparth a elir ei adnabot yn haud./ Canys dail y gur ryu sy duach, a dail y banyu sy yn uvnach./

Y phurf./

Mercuri sy ai dail yn gyntebic y dail Pelitori anid ei bod yn lai, a<sup>ii</sup> changæ arno a bonæ chuydedic ac a liaus o gesseiliaë pheuon ido. Y banyu a luytha vric ei uyd ac amylder cygnæ ei hadæ urth ei gylyd[103a] Y gur ryu nid yu anid eidil goris ei dail a chrun ac yn cyfurd yn pogyrnæ bychain gyferbyn a ei gilyd. Y lyseun ol sy tu a throedfed o hyd a lauer guaith y ceir vn a vo huy./

Y le

Meun meysyd gurteithus y tyf e ac ueithie y tyf cÿmeint o honau yn y guinlannoed ac y pair chuaith ar y guin./

Yr amser

Mis Aust y byd yn ei laun had

Yr artempr

Guresoc yu a sych yn y rad gyntaf./

Y rhinued

Y deuryu a gynnyrfa yr boly o buyteir ef mal yn caul./ Guedy ei verui meun dufr ai yfed uedy y pair e yr color ac y dyfrlydryd ymohany alan./ Mae

coel hefyd ar gymeryd tair dalen or Mercuri banyu a ei curo a ei hyfed ne ei doddi urth yr arphed yn ol bod curs y blodæ y beri y uraic ymduyn./ A doedyt y pair y Mercuri gur ryu y ũr enil[103b] plant./ Cannol y lysæ hŷn yn dirfaur y raid merchet a una Hippocrates./ Da ynt y beri ir blodæ ac ir ail geni ymoyscar./ Da yu ei suc yu vuru meun clust vn bydar ai iro a hen uin./ Y dail sy da y uneythyr cyfared rhac y sych pilen, ac ar les y chuysigen./ Rhai a dyuaid y welir arlay y deuryu y purgassiun./

- 
- i Y mae'r paragraff: "Soudyl y cryd...Vercuri." yn amlwg yn sylw gan R.M. ei hun. Gwthiwyd ef i mew'n yma a llawysgrifen Eidalaidd a honno'n llai na'r ysgrifen o bobtu iddi.
- ii Rhoddwyd "q" gyferbyn a'r llinell "dail Pelitori...a". Ni thybiaf mai R.M. a'i rhoes yno.

---

Rosmari. 81./

Yr enuae./

Rosmarinus yn Latin, Rosemarye yn Saesonaec a Rosmari yn Camberaec./

Y phurf./

Rosmari a vydir yn arfer ei blethy meun garlanti a guaiail bychain syd ido a dail syth veinion y rhytdunt oe meun yn uynnion ar tu alan yn uyrdion ac arogl trun arnunt. A blodeun glasuy'n a gureidyn duy[104a] a chrafangæ man lauer yn tyfy alan o hono./

Y le

Nid yu ef yn tyfy yn yr ynys yma o dieithr yn y gerdi le planner./ Eithyr y

mae ef yn tyfy yn Narbon yn Phrainc oe naturieth ehun mor ampl ac nad ynt  
presuyluyr y ulad honno yn ceisio tanuyd ne coed losci amgenach./

Yr amser

Mis Mai y cair hun yn ei vlodæ ac o hynny y cenol mis Meti. O bleit duy  
uaith yn y vluydyn y blodea sef y guanuyrn ar cynayaf./

Yr artempr./

Guresoc a sych ydyu yr hyn a dichon paup ei deal urth ei vlas ai rinuedæ

Y rhinuedæ

Guresogy a una. Iachau cluy yr brenhin o byd i vnei veruy meun dufyr ai  
yfed cyn trafaelio dim, a guedy trafaelio a ei yfed meun guin

Y physyguyr or oes honn ar dy[104b]uedaf sy yn doedyt mae da yu derbyn ei  
vuc rhac y pesuch a rhac gulybyroed yn difery yn annaturiol. a pheth sy  
vrjassol cadu o hono yn iach rhac<sup>y</sup> nodæ y tuy y loscer e yntho, can i ei  
rinued oyscary afiechyt yr auyr ymeith./ Mae uy yn doedyt vod rhinuedæ  
ereil arno: sef bod y Rosmari yn cadarnhau yr emennyd ar synuyræ o meun y  
cof ar galon./ Ac mae da ydyu rhac y parlys ne yr cryd cymalæ./ Peri y vn  
gael ei barabl a lauer o rinuedæ ereil sy arno or a vydei ofer y vn  
gychuyn yu datcân./

---

Had y gramandi. 82./<sup>i</sup>

Yr enuæ./

Lithospermon yn Groec a Latin, Gromell yn Saesonaec, Had y gramandi yn Camberaec./

Y phurf./

Dail hirion cnith groen syð ido ac[105a]<sup>ii</sup> urtn y bôn yn gorued ar y dayar ac aroglæ trun arnadunt. A changæ vnion gofeinion mal praphter bruyn lymion a chaledion, ac yn ei bric yn cyfng y dail ar yspyr yn braid lyny y guelir hadæ bychain crynion caregoc ac vn veint a hal cuarch anid ei bod yn grvnnach ac yn uynion nal perls./ Gureidyn y lyseun hyn sy a pheth cochter arno or tu alan./

Y le

Cnaud ir lysæ hyn dyfy meun mannae geiruon vchel. Ac urth hynny chui a geuch ei guelet uy yn tyfy ar y ledfron rhun guál tref Dinbech ar tai nid amgen na'r tu disathr y Duy Huu Dryhurst a thuy Robert Huxley Ac etto mi uelais luyntec or lysæ hyn yn tyfy ar y guastat o boptu y ryd Wtphord ar Dyfrduy. Ac uy dyfant o hehir uy meun gardæ./

Yr amser

Misoed Mehefin a Gorphenhaf y blodea ac yr hada./

Yr artempr

Haud yu deal am had y Gramandi yr hun sy gyfared arno mae gures[105b]oc a sych ydyu. O bleit guresoc a sych med Galen yu pop peth a gynnyrfo yr trunc./

Y rhinuedæ./

Yfed yr had ar uin sy da y dorri y maen tosted ac y dyuys y trunc sef dram  
or had neu buys coron o aur o vathiad Phrainc./

- 
- i Ysgrifennwyd "lithospermum Miliun Solis &c" gan E.T. uwch ben yr adran.  
ii Ar waelod 105a ysgrifennodd E.T.: "cnith ysgafn Deimlad a Little Soft Touch."
- 

Baum. 83./

Yr enuæ

Apiastrum yn Latin, Baum yn Saesonaec ac ani venthygiun e vyd eisieu enu ar y lyseun hun yn Camberaec ac od gan y Saeson y dygun venthic, Baum y galun: ac os ynte yn ol ystyr a synuwr y gair Groec ne'r Latin yr enun y Guenynlys neir Guenyndail nei Guenynoc y galun ei alu./ Cyn hophed gan y guenyn y lysæ hyn ac y byd anhaud ganthynt ymady ar cuch a irer ac uynt./[106a]

Y rhyuiæ./

Deuryu Wenynlys sy yn ol medul y lyseuwr cyphredin vn iaun ar al nid iaun./

Y phurf

Dail a phaladr yr iaun Wenynlys sy tebic y dail yr Horhound anid ei bod yn led ac yn teneuach ac nad ydyn nŕ vleuoc ac aroglæ tec./ A guybyduch nad yr iaun Wenynlys ydyu y lysæ sy yn tyfy meun lauer o erdi yn yr ynys hŕn./ Ac mae William Turner gur maur ei ystryu ar adnabot lysæ yn doedyt na ueles



e erioet yn Loecr yr iaun Wenynlys, ac ido ei uelet yn tyfy meun lauer o erdi yn Germania./

Y le

Phucsius y penn lyseuur o ein oes ni sy yn doedyt mae yn y coedyd y tyf yr iaun Wenynlys ar gan Wenynlys yn y gerdi./

Yr anser

Yr haf y cymerir y lyseun hyn a mis Mehefin yn enuedic pan[106b] ydyu yn ei laun vlodæ./

Yr artempr./

Y Wenynoc ne'r Wenynlys sy or ail rad or rhei sy yn sychy./

Y rhinuedæ./

Yfed y dail ar uin nei ei hiro sy da rhac brath pryfed guenyneic a rhac brath ci, a da yu ymolchi ac iscel y dail rhac yr vnrhyu damuain./ Da yu i verchet hefyd cisted vuch benn y lysæ hynn y beri ir blodæ discin. Golchi yr danned dolurus ar lyseun hyn sy da ar ei les./ Y lyseun hyn sy gyfared da yu sengi y meun dyn o y isot rhac haint calon./ Da ydyu meun electuari rhac gueuyr a rhac diphic anhetl. Ac o chymerir y dail a halen a ei rhoi urth blor ei hiachau a unant./ Carthy cornuydyd a unant uy hefyd ac esmuythau dolur or cymalæ./ Horhound med Galen a uasanaetha yn difei yn le y Wenynlys./[107a]

Yr enuæ

Ffoeniculū yn Latin, Ffenell ne Ffenekel yn Saesonaec, a Phenicl yn Camberaec./

Y phurf./

Y Phenicl id a chorsen hir ifei ac or rhan vnychaf yn huy no gur a changæ anyl yn tyfy o hanci ac oe meun yn habuyryn guyn chuiboloc a rhiscin medal or tu alan a dail val ir Sothernud anid ei bod yn huy ac yn vedalach ac aroglæ muynaid ac a thopyn crun ehelaeth, melynlas, uedy ei grynoi yn sidil ar had yn glyny yn noeth ar vlaenæ yr brigæ. A gureidyn cannaid hir ac aroploc./

Y le

Yn y gerdi y tyf y phenicl yn sathredic ac ueithie oei guaith ehun./

Yr amser

Ei glascy a uneir tra vo yr yspyr yn laun douyd. Blodeuo a una y Mehefin ar Gorphenhaf./

Yr artempr/[107b]

Y mae cymeint nerth y phenicl y uresogy ac y gelir ei ady yn yr ail rad or guresogion; eithyr nid yu ef yn sych ei gymeint./

Y rhinuedæ

O buyteir y lysæ hyn, lenuy y brōnæ o laeth a una./ Ar vn gyfared a una yr had od yfir, nei ei iscel gyd a ptisan./ Iscel y bric sy da yu dody y

danod ne urthero y iachau haint yr arennae ne'r chuysigen, o bleit ido escor  
y trunc a rhac brath neidr y mae da ei yfed ar uin./ Peri ir blodae gerdet  
a una. A phan vo yr cryd ar dyn, ludias ido phieidio a una, a gestung  
gures y duyfron od yfir meun dufyr oer./ Y guraid guedy ei curo ai cyd iro  
a mel a vediqiniaetha vrath ci./ Y suc uedy ei uascy or cyrs ar dail ai  
sychy yn yr haul sy vudfaur yu gymyscy a chyfareu a uneler y leuychy y  
goluc./ Ar vnrhyu rinued sy ar y suc a uascer or dail ac or had irion./ Da  
yu yr suc hefyd yu vuru meun clust y difa pryfed./[108a]

---

Yr Hockys. 85./

Yr enuae./

Malua yn Latin, a Mallowe yn Saesonaec ar Hockys yn Camberaec./

Y rhyuia

Deuryu Hockys y syd vn dof a dyf yn y gardae ar al guylt a dyf meun leoed  
gurteithus./ Ac or Hockys dofion y mae drachefn amrafaelion ryuia nid  
amphen no rhei yn duyn blodae rhudleision ac vn rhestr o dail ac yr eil a  
rhestr luosoc. A rhei yr eil hefyd yn duyn rhos ne vlodae guynion a'r  
rhein uynte yn duyn amrafael osodiat ar dail./ Ac eb lau hynny y mae deuryu  
Hockys guyltion sef vn yn tyfy yn isel y gan ystlys y dayar ar al yn tyfy  
yn vchel o hyd a guyd caled ido

Y phurf./

Cyn phyrfed a chyn galetted yu paladr yr Hockys gardae ac y guasanaetha yn

le byrlysc ne phôn yn[108b] laū dyn, a dail lydain cūmpassoc a bylchæ lauer oei hangylch ac a phaladr vnigol tra vchel y laun blodæ prydfertol o ei ganol gan muyaf hyd ei vric ynglyn urth draedæ gofyrion yr rhain nid antecach na rhos a phe cyn teced ei harogl, nid lai arderchauc./ Ei liū sy rudlas ne cannaid ac val gūaith y gūenyn, a siobynnæ trūynveinion a thraed bychain ydynt yn tardy alan or paladr yn gyntaf gan ynchuydo ac ymduyn bob ychydic ac yno yn escor druy yr anūiscoed yr ymdanposant ynn rhosæ pempdolenoc, ueithie yn restrī lauer val y dyuetson or blaen: Ac yn y cībæ blodeoc y mae ychydic tipīæ y rhei a uelir yn velynleision yn ei cenol a gūedy syrthio y rheini y tyf conynot nei gūrychynot rhudleision yn ei hol. Ac yn ol hyn y cynnyd y phrūyth a liaus o amdoe yn ei gylch ynte uedy ei gylchyny a nifer o hadæ ar agued bogel yr rhain uedy diūeilier sy ai had yn vn osodiad ar Hockys ereil. Yr Hoc[109a]kys gūylt yr rhain sy yn tyfy gan ystlys y laur sy a dail crynion gūlydeidion ydyn ac emylæ dannedoc ac a phaladr maur, a blodeun rhudlasūyn a gūreidyn gūyn./ Yr Hockys gūylt adūyn sy a bylchæ muy ysdynic yn ei dail ac a blodæ rhuduelulas a gūreidyn canneidliu./

Y le

Yr hockys dof a dyfant o ei heheu yn y gardæ./ Yr hockys gūyltion meun leoed segur ac yn enuedic y meun le gurteithus ac meun le gulyb./

Yr amser

Yr hockys gerdi a vlodea y rhann vynycha mis Gorphenhaf a mis Aust. Ac nid yu ei vlodeun mōr diflannedic ar rhōs, eithyr hir y pery yn ir ac yn vyu./ Yr hockys gūylt isel a barhaant yn hyd yr haf ar rhan vuyaf or cynayaf./ Ar hockys gūyltion vchel a vyd yn laun blodæ dros y Mehefin a'r[109b] Gorphenhaf./

Yr artempr./

Yr hockys gŷyltton sy a pheth natur ynthynt y beri treulio a medalhau./  
Hockys y gardæ puy vuyaf o ulybur dyfrol sy ynthynt, muy guannach ydyn o  
hynny./ Ai phruyth puy sychaf nerthockaf ynt./ A hŷn sy o amrafael rhung y  
Letus, y Beatus ar Hockys sef bod y gŷyltton yn sychach ar doffion yn  
ulypach./ Y mae peth gludloc gŷydn yn gŷmysc a sucyn yr hockys or nid oes  
yn y Letus./<sup>i</sup>

Y rhinuedæ

Muy aŷas yu buyta yu yr Hockys doffion na'r gŷyltton; Druc ar les y cylaf  
da ir broth ac yn enuedic da yu'r pelydr ar les yr yn[110a]escaroed ar  
chuysigen./ Y dail anbrud uedy roi urtho ne uedy ei buyta y gyd ac ychydic  
halen a mel a iachaant y marugic ynghonglæ y lygaid. Eithyr ei dody uy eb  
halen pan chuenycher peri creithio./ Da ydynt urth vrath guenyn nei gacŷn./  
A phuy bynnac a ymro yn gynta ar dail anbrud uedy ei curo ac ag oel ni  
vrethir dim hono./

Iach ydynt gyd a thrunc rhac y marudŷn ar crach a eluir Achores

Y dail uedi ei beruy ai curo ynt da a budiol yu rhodi gyd ac oel urth tãn  
idu./ Da ydyu ei hiscel rhac gueuyr or colud./ Iscel yr hockys uedy ei  
berui uy æei guraid sy uaredauc rhac pop guenyn o chaiph y nep ai hyfo  
vuru yn y vãn./

Y mae cyfared ar y gureidyn o rhuymir meun gulãn duy ae dody<sup>ii</sup> urth y  
brŷnæ rhac heinion a vo arnynt./ Da ydyu lymeitia yr hockys uedy ei berui  
meun laeth rhac y pesuch can ys meun pemp die[110b] yr emendaa./ E uys mae  
da yu tayny y dail hŷn dãn vn a vo yn escor er muyn rhyddab, ai buru ymaith  
yn y vãn yn ol ei rhydhau rhac canlyn or cud planta yn ol./

Hy doedant od yfir iscel y dail hŷn y dryliant uy vaen y tosted./

- 
- i Gaŵawyd ychydig o fwllch rhwng "Yr artempr" ac "Y rhinuedæ".  
ii Addaswyd "dodi".
- 

Y Papi coch. 86./

Yr enuae./

Papauer erraticū yn Latin, Read Cornerose ne Wylie poppye yn Saesonaec ar  
Papi coch yn Camberaec./

Y phurf./

Y lyseun hun sy a dail siagys ne dragioc geiruon ido a phaladr cedenoc  
wnion garu a chufyd o hŷd a blodeun cnoudliu ac ueithie yn cannaid ac a  
phēn gohir a hedyn rhuđ coch a gureidyn taran hir goruyn lai no modfed o  
braphter a chueru./[111a]

Y le

Meun aar ac meun ydæ y mae adas yr lyseun hun dyfy

Yr amser

Y gvanuyn ar haf ar guenith yn gofyn cynayaf y blodea ar amser yma hefyd y  
codir./

Yr artempr

Oer ydyu val y mae y rhyuae yr eil or Papi./

Y rhinued

Dyro beampne chuech o bennæ y papi hŷn uedy ei berui meun tair phiolet o uin yd yn ei aethan yn duy yn diot ir nep a chuenychech beri ido gyscu./ Y dail gyd ar brigæ a vo yn blaendardy sy da yu dody urth boethfaoed./ O golchir ac o rhuglir neu<sup>i</sup> rubhir vn ac uynt peri ido gyscu a una./ Muy yu nerth yr had y beri oeri mal nad iaun yt ymarfer o hono ehunan./ Ac yd y dyuaid y medygon or oesoed diuethaf mediginieth da ydy rhac tân idu./ Ac attal y blodæ a una./[111b]

Gestung chuy! y ceiliae o rhoir urtho ac o dodir urth dalcen y rhei a vo uedy anpuylo peri ydynt gyscu a una./ Ac o rhuymir meun cadach liain urth lygaid ef a iachaa yr haint os o ures y magod./

---

i Addaswyd "nei".

---

Y Papi dof. 87./

Yr enuæ./

Papauer satiuū yn Latin, Poppye ne Chesboûl yn Saesonaec ar Papi yn Camberaec./

Y rhyuiae

Or Papi dof y mae dau ryu nid amgenach na'r guyn sy ar hâd guyn ido. a'r Papi duy y geluir hun sy ar had duy ido.

Y phurf

Daill hirion sy ido yn dannedd oe hamgylch yn tyfy mor gyssult urth y paladr  
ac na uelir vn troed ydynt, ac a blodæ guynion ne rudunion a phennæ taran  
hirion yn[112a] y rhein y mae had duy ne uynn./

Y le

Ym pop gard can muyaf y mae e yn tyfy./

Yr amser

Yr haf y blodeua ac yno yr hada./

Yr artempr./

Oer yn y beduared rad ydyu val y mae pop rhyu or Papi./

Y rhinuedæ

Bod yn nerthoc y beri <sup>i</sup> ydyu ei rinuedd gyphredin: urth hynny y daill ar  
pennæ uedy berui meun dufyr a barant gyscy o thuynduyrir ac uynt./ A'r  
iscel sy da yu yfed ir nep ni vetro gyscu./ Y pennæ ne'r siobynnot <sup>ii</sup> uedy  
ei curo a guneythy yud ac uy yn plastr sy da yu roi urth dan idu, ac urth  
boethfa./ Rhaid yu ei curo uy yn irion aei guneythy yn deisennæ a guedy y  
sychy ei cadu urth raid./ Had y Papi duy uedy ei curo a yfir ar uin y attal  
boly[112b] rhyrugl, a'r blodæ. A rhac anhunedd ef a olchir y tal ar  
arleisiae ac ef gyd a dufyr./ Naturieth ei suc yu peri oeri yn vuy, ceulo a  
sychy./ Druc yu yfed ehelaethruyd o hono o bleit peri anghofi a difa [yr  
synuyrae] <sup>iii</sup> a una./ Iach ydyu gyd a melyn uy uedy ei rostio a saphron rhac  
poethfa or lygaid./ Da ydyu gyd a vinegr yu dody urth dan idu a briuiæ; a  
chyd a laeth brôn a saphron rhac y gout



- i "∧" yn llaw R.M.
- ii Addaswyd "siobynnæ".
- iii Cromfachau gwreiddiol a'r cynnwys yn ymddangos fel petai wedi cael ei ychwanegu yn ddiweddarach.

---

Y Bultus. 88./

Yr enuæ./

Nymphæa yn Latin, Water rose, ne Nenufar yn Saesonaec ar Bultus yn Camberaec./

Y rhyuiæ./

Deuryu syð or lysæ hynn sef vn a blodeun cannait mal yr Lili yr hun a eluir yr Alau a'r al a blodeun melyn ac a eluir y Bultus ne'r[113a] Multus. Ac y mae amrafael liu ar ei guraid uy, can ys guraid y cyntaf syð duon a guraid yr ail yn uynnion./

Y phurf

Y rhyu cyntaf sy a dail taran lydan ido yn gorued ar uynep y dufyr a rhei y dano a lauer yn tyfy o y ar yr vn gureidyn a blodæ gunion cyphelip y Lili a pheth melyn yn ei cenol. A guedy dyhoyno y blodæ, tyfy a una yn grun ac yn tebic y afal ne i dopyn y Papi a duy o liu vyd. A had duy vyd yntho yn lydan, yn deu ac yn ludioc ei vlas a guyd lyfyn eidil a duy./ A gureidyn duy aru cyphelyp y Clos: ar vn phynyt yu'r Multus ar Alau anid bod guraid hun yn union ai vlodæ yn loyufelynion./

Y le

Yn y corsyd a lynnæ y tyfant./

Yr amser

Y blodæ yn diued Mai a Mehefin a glescir, ar guraid a godir y cynayaf./[113b]

Yr artempr./

Guraid a had y lysæ hyn ynt oerion a sychion eb vrathy./

Y rhinuedæ

Guraid yr alau ai yfed ar uin sy da rhac haint calon; ac iach ydyu hefyd yu dody urtho rhac dolur or duyfron ac or chuysigen. A chyd a phyc y cyueirir yu rodi urth y pen rhac y marudon ar arfoeled./ Da yu ei yfed ar gythlung ne ei gymryd ar vuyd yn erbyn breuduydion godinebus./ A phuy hynnac a ei yfo yn vynyech dros ychydic dydie e a lescaa i blanta./ Ar vn rhinued syd ar yr had od yfir. A gureidin y Multus sy da yu yfed ar uin duy er muyn attal y blodæ ar verchet; eithyr cadarnach yu rhinued yr Alau./ Ac uy doedan yr attal y lysæ hyn uaed anid ei curo ai rhoi yn y briu./ Da yu yfed yr had ar uin rhac y Duec. Iachau a una gornuydyd a vo yn rhedec, ac emendau pop rhyu vacul./

Wedy ei guro y guna les ei roi[114a] urth vriuiæ./ Ac e uasanaetha ei dody urth grucdod ai gymeryd ehunan ai rubio ar yr yspel a unel yr escit./

Y Mustard. 89./

Yr enuæ./

Sinapi yn Latin, Mustardt<sup>i</sup> yn Saesonaec a Chamberaec./

Y rhyuæ

Deuryu syð or lysæ hŷn ac amrafael dail, blodæ a had. O bleit y cyntaf syð a phaladr cedenoc ido ac yn hir ac yn gangoc, ac a dail geiruon A blodæ melynion a chodæ crynion yn laun o hadæ gunion./

Y ail rhyu sy a phaladr cedenoc hefyd anyd ei vod yn lai ac a dail siagioc ac a blodæ cannaid<sup>ac</sup> yn tyfy mal vn groes ac a chodæ crynion taran hirion yn laun o hadæ duon ne rytgochion./

Y le

Pop vn or Jeuryu o heir a dyf y[114b] meun gardæ. A chyt tyfo yn vyny ch o anser eb heheu, er hynny guel y tyf meun tir a baler ne a lafurier er ei vuvn./

Yr amser./

Y deuryu a vlodeant mis Mai a Gorphenhaf ar anser hunnu y duc had meun codæ./

Yr artempr./

Y Mustard sy uresoc a sych yn y beduared rad./

Y rhinuedæ

Da yu ei gnoi ai dala yn y geneu i beri y phlem descen or penn, a rhac y dannoed./ Guedy ei dala urth y phronæ y pair dystreui./ Helpy yr haint

diguyd ne'r gloysion leuic a una./ Da yu i iro arfoeled ac y garthy yr uynep./ A guedy ei vuydo meun vinegr iachus ydyu yu roi urth y cluyf maur ac y iro crach deruraint./ Ac yn sych y cymerir yu yfed rhac[115a] hyntiaë y cryd, ne uedy ei daenely meun gruel./ Ei guro gyd a phicusen sy da yu dody meun clust vydar ne soniarûs./ Vn or pethe goreu ydyu ar les y duyfron ar yscyfaint./ Y suc sy da y iro lygaid a vo yn pyly, a chlefri yr anrannæ./ Ar suc a uescir alan or hadæ irion ac a sychir yn yr haul./ Iach yu yr had hefyd gyd a mël rhac y pesuch./

---

i Y mae y gair wedi ei ddiwygio i "mustard". Dilewyd y "t" ddiwethaf bron yn llwyr, ond ni allaf ddweud ai R.M. a wnaeth hynny.

---

Y Gal'rist. 90./<sup>i</sup>

Yr enuæ./

Cynosorchis yn Groec a Latin sef yu hynny Ceiliaë yr ci, Adders grasse yn Saesonaec a hynny ydyu lysæ'r neidr yn Camberaec./

Y rhyuiaë./

Deuryu sy or lysæ hñu sef y gur ryu ar banyu. Aduynach a phyrfach yu/r/gur ryu na'r banyu. Ac or gur ryu y mae deuryu vn a dail lydain ac a blodæ gunion can[115b] muyaf. Ar al a dail meinach a brithach ac a blodæ rhudgochion./ Ac or banyu y mae deuryu hefyd vn bychan ac al maur./

Y phurf./

Tyfy mae ai dail yn cylch y paladr ac yn gorued rhyd y dayar a phaladr o droedfed o hyd, ac a blodæ rhudgochion arnadunt, ac a guraid yn deugud vychain urtho./ Vn cuttocach na'r lal. Y cuttocaf y syd yn laun ar laesaf yn grych ac yn uac./

Y le

Dioscorides y lyseuur maur gynt a dyuaid mae meun leoed carregoc ac meun tyfodtir y tyf./ Ac uy ai plānan meun gardæ yn Germania cyd tyfo yno meun gueirglodiæ a gueunyð val y gūna ein gulad ninæ./

Yr anser./

Mis Mai a dechre yr Mehefin y codir./

Yr arteapr./

Y gureidyn muyaf ido sy uresoc[116a] a gulyb ac a glyuir yn velys urth ei brofi./ Eithyr y gureidyn leiaf sy yn hydrach yn uresoc ac yn sych./

Y rhinuedæ

Y gureidyn a vuyteir val Bulbus uedy ei verui./ Ac e dyuedir o buyty ur y lyseun banyu muyaf y planta e veibion: ac os guraic a vuyty y banyu bychan y beichioga hithe ar verch./ Y gureidyn muyaf syd a lauer o naus gulybur gunoc ynto, o ha bleit od yfir y cynhyrfa e vn i anladrud. Ar gureidyn yr al sef y leiaf nid yu yn vnic eb peri cydiau eithyr rhinued uir urthuynebol y hynny syd arno./ A hūn im tyb i yu'r galdrist./

---

i Ychwanegodd E.T. "Orchis Lust provoketh" ar yr ymyl.

Y Teirceil. 91.<sup>1</sup>

Yr enuæ./

Triorchis yn Groec Testiculus yn Latin, Ragwurth yn Saesonaec: ac yn ol  
puyll y Groec mi aei galuaf y Teirceil yd any gachuy enu a vo[116b]  
Camberaegeidiach ido./

Y rhyuiæ./

Ac y mae deu ryuogaeth or lysæ hynn cyd na bo vaur amrafael rhythynt ar  
lysæ yr eil vchot ar ei dail nac ar ei guraid: etua mae digon amrafael  
not ar ei blodæ. O bleit y mae y gur ryu o'r rhein yma a blodæ  
rhudgochion yn goruyunny peth. Ar al sef y banyu sy a blodæ ac amryu liu  
arnadunt nid argen peth yn rhudgoch peth yn cannaid peth yn dyuylyurd, ac  
yn ei guaelod a lun megis beger y guenyn ynthynt./

Y phurf./

Dail sy ido val dail Cennin, surn hirion yn lydanach ac yn vreisio ac yn  
ymchoelyt yn y cysyltæ, paladr o droetfed, dail cnoudliu, a guraid yn  
geilliæ bychain./

Y le

Meun gueirglodiae a meysyd y tyf

Yr anser

Yn diued mis Mai a dechre mis[117a] Mehefin yr ymdengys y rhyuogeth yma a  
guedy ny chair guelet muy dim hono./

Yr artempr./

Sychach ydyu no bod yn y rad gyntaf./

Y rhinued

Y gureidyn sy da yu dody urth chuyd er muyn ei estung ac y garthy cornuydyd. Da ydyu hefyd yu roi urth dan idu a deruraint ac idu cnaud ar cic druc ac y esmytho poethder ne ynlosc./ Da drachefn ydyu y iachau heintia yr genæ./ Od yfir gyd a guin e attal y boly./ ac yd y dyuedir y mae ar y lysæ hynn hefyd yr vn rhinuedæ ac ar y lysæ a aluason Ceilia yr ci./

---

i Ysgrifennwyd "Triple-Lady Traces the Lesser," gan E.I. ar yr ymyl.

---

Tôrmaen./ 72./

Yr enuæ

Oenanthe yn Groec a Latin<sup>1</sup> a Philipendula yn y Latin gyphredin ac yn Saxonaec. ac Tormaen yn Camberaec./[117b]

Y phurf

Dail sy ido val dail Moron y meysyd ne Persli, blodæ gunion, pelydr preiphion a throetfed o hyd had val had Atriplex nei'r Leuguyn, gureidyn maur a guraid bychain cnapioc yn tyfy o y urtho./

Y le./

Meun tir caregoc a mynyd garu y tyf./ Y mae y lyseun hun yn tyfy meun

tumpathe gan y cae phord yr eloch ar draet o Dinbech ir plas yn Leueni./

Yr anser./

Mis Mehefin y blodeua ar amser hunnu eruyd bod yn hau ei adnabot urth ei vlodæ y gelir ei glascy. A dechre cynayaf y mae clasgy y guraid

Yr artempr./

Cyn chueruet yu y lyseun yma ac nad eb achos ydynt uy or oesoed hyn yu ei ady yn uresoc ac yn sych yn y drydy rad[118a]

Y rhinuedæ

Y Tormaen hun ef ar had y gwyd ar dail meun bragoudlyn o uin a mel ne uin melys sy da yu yfed er myn escor yr ail geni./ Yfed y gureidyn gyd a guin sy da rhac yr stranguri sef y gobiso, a rhac haint or chuysigen a maen y tosted./ Or mel y mae yn da rhac y pesuch./

Da yu yr lyseun hun hefyd rhac diphic anhetl a rhac dolur or arennæ./ A rhac pop haint a vagod o oerfel./ Poudr o honau sy da yu dody ar vuyt y nep a vo y gloesion leuic yu vlino./

---

i Y mae nodau dileu o dan y gair ond ni allaf ddweud ai R.M. a'i rhoddodd yno.

---

Suran y goc. 93./

Yr enuæ./

Oxis yn Groec a Latin, Alleluyia Cockowes meate, ne Woodsorell yn Saesonaec



a Suran y goc yn Camberaec./

Y phurf./

Lyseun isel ydyu a thraed hirion yn vnic a thair dalen bychain val ir  
meillion gunion a chyfung dufn[118b] y rhythynt a blas sur arnadunt./

Blodeun guyn yn tardy yn cenol y dail ar vn bonyn y syd ido./ Had rhudgoch  
meun cibæ ceimion. Gureidyn hir yn tyfy ar oguyd yn gymaloc, ac yn rhud./

Y le./

Meun arpl o leoed y tyf y lyseun hun nid amgenach nac meun coedyd, meun  
creigleoed dyfrlyd ac yn cyscot y caeæ pop bachgen a veidr arno./

Yr amser

Mis April ac ueithiæ yn y Mai y blodea sef pryd y clyuer gyntaf lais y  
Gôc. ac an hynny y galuant yn Suran y Gôc. Med Phucsius ac yr eil ai  
profod yn uir pan vlodeo y lysæ hyn yn deu ac yn ampl y byd anlder glaur<sup>i</sup>  
a lifeiriaint y vluydyn honno ac anamlder blodæ arnynt yn aruydo sychhin./  
A hynny a ueleis inneu yn uir am ulybur y vluydyn 1555. a rhac syched  
amser y blodæ braid im coeliæ nep pan adrodais y goel ydynt hyd anis  
profod diued yr yn rhy uir./[119a]

A naturieth y lyseun hun yu ymdyrchafy yn erbyn tempestl mal y ymuroli  
rhagdau./

Yr artenpr

Gulyb a sych ydyu y Suran hyn mal y Dringol ne Suran yr yd./

Y rhinued./

Da ydyu ar les y nep a vo a chyla guann ido a rhac y Vors. A da ydyu hefyd

y iachau cornuydyd ac archolion ac idu ac yn enuedic ar les heintiaë or genæ./ Da ydyu y diphodi sychet. Ac o dyuedut ei rhinuedæ meun crynodab yr vn rym ydyu a Suran yr yd./

---

i Diddymwyd yr "r" ar ddiwedd y gair, gan law ddiweddarach mae'n debyc.

---

Phenicul y cûn. 94./

Yr enuæ./

Parthenium ne Anaracua yn Groec a Latin, Dogge fenell yn Saesonaec, Phenicul y cûn nei yr Amranuen yn Camberaec./ Eithyr W.Turner a dybia mae yr lyseun a eluir Ffeuerfewe[119b] vn Saesonaec ar Wermot uen yn Camberaec ydyu Partheniû./

Y phurf.

Dail eidil tebic i dail Coriandr ne dail phenicul sy ido, blodæ cannaid a chnâp melyn phrisiedic yn ei cenol ac arogl taran drum a blas chueru./

Y le

Tyfy y byd gan ystlys caeæ a chân enylæ luybræ a mynych yr yngymysc ar Camæmil

Yr amser

Dechre guanwyn ac yn enuedic mis Mai y dechry ef ymdangos ac e bery dros gubul or haf./

Yr artenpr./

Guresoc ydyu yn y dryled rad a sych yn yr ail./

Y rhinued

Od yfir uedy sychy gyd a mel a vinegr ne gyd a halen peri a una ir color  
duy ac ir phlen parthy ir phord[120a] isaf./ Da ydyu rhac diphic anhetl.  
Iach yu yfed y lysæ hyn uedy tynny yr blodæ ir nep ne'r saul a vo yr  
tosted arno, a<sup>i</sup> diphic anhetl./ Da ydyu ef ar blodæ yu dody urth y tãn  
guylt ne urth ymlosc./

---

i Cywirwyd "na".

---

Marchredyn y deru. 95./

Yr enuæ

Polypodion<sup>i</sup> yn Groec. Ffilicula yn Latin. Polyodiũ ne Wallefern yn  
Saesonaec a Marchredyn y Deru yn Camberaec./

Y phurf./

Lysæ ynt ac yn cylch troedfed o hyd tebic ir rhedyn cyphredin gogedenoc ac  
ohanedic gureidin garu tu a phraphter bys bychan sy ydyn a gureidiach  
bychain yn tyfy o hano a phan grafer guyrd y guelir o y meun phraeth a  
tharan velys ydyu urth ei brofi. ar tu cefyn ir dail sy yn vaculæ  
rhytgochion ac nid oes had ir lysæ hynn./[120b]

Y le./

Y rhedyn hyn a dyf rhyd cerric musogloc a rhyd hen deru meun coedyd./

Yr amser

Clascy yr guraid a unair yn diued nis Aust./

Yr artempr./

Sych yu ansaud y rhyu yma ar redyn./

Y rhinued./

Peri carthy ne scurio a una./ Aei berui a unair gyd ac iar ne byscot ne Viatus ner Hockys pan gyueirier er myn carthy./ Y gureidyn yn vnic a unair defnyd o hono, ei dafely a uneir ai vuru meun dufr tuyen pan vynner cael ei sŷc y mevthy cyfared./ Nid ydyu da ar les y duyfron./

---

i Cywirwyd "Polynodiŷ".

---

Cas gan gythraul. 96./

Yr enuae./

Verbena yn Latin, Verven yn Saesonaec. Cas gan gythraul yn Camberaec./[121a]

Y rhyuiae./ ar phurf./<sup>i</sup>

Deuryu syd or lysae hŷn, ac yd y geilu Latinuyr uy yr vnion ar gogydedic ne

banyu a gur ryu./

Yr vnion ne'r gurryu sy lyseun o droetfed o hyd ne vuy ryu amser, a dail vn emyl a danned lif a liu guyrduyn ac yn tardy alan or paladr yr hun sy ai darn von yn tyfy yn vn eb phorchogi ac vely y mae vn gureidyn ido./ Blodeun melyn sy ido yr hun ydyu y not pennaf yu adnabot rhac y banyu./

Y goguydedic ne'r banyu sy ynn duyn cangæ o cufyd o hyd ac uelthiæ yn vuy, yn ochroc ac arnunt y mae dail bylchoc val dail deru pe nad lai a chulach a darnæ y rhyngthynt yn voelphyn a duyuyrd Gureidyn hir govychan blodæ rhudleision./

Y le

Y deuryu a dyf meun reysyd goastat a leoed gulybion./

Yr amser

Y gurryu a ymdengys vchlau yr[121b] dayar yn gynt na'r banyu./ Ei clascy a dleir yn enuedic y banyu yn cylch pempthecnos o vis Gorphenhaf o bleit y pryd hynny y blodea./

Yr artempr./

Pop vn or deuryu a sych ac a attal./

Y rhinued

Da yu y gurryu pyd a vinegr yu dody urth y tan idu ac y achup cornuydyd pytron<sup>ii</sup>. Peri y archol dyfy a una, ac or mel peri y hên archolion gyfany yn graith./ Dail a guraid y vanyu od yfir ar uin ai dody urtho sy gyfared da rhac pryfed a nadroed./ Da ydyu y rhyu hun hefyd y garthy cornuydyd dryuedic ac y esmuytho ar poethni./

Wy dyuedant o thaenelir y tuy a dufyr a vu yn sefyl yn cylch y lyseun hun y

byd lauenach gohaduwr./

Y trydy cygyn o y urth y dayar ef ar dail a vo yu ogylch a roir i vn a vo y cryd yn dyfod arno bob tridie ar pedueryd cygyn ir neb y bo y cryd yn deuod arno bop peduar[122a] diernot./

Ar lyseun gur ryu syd da iaun rhac dolur o benn o rhodir yn arlant yn cylch y penn dolurus./ Ac nid yu yn vnic da rhac dolur penn, anid le stair a una ir gualt syrthio

Isce! y gureidyn ai dala yn uresoc yn y genæ sy da rhac y dannoed ac i sicurhau y danne! ac y iachau chusigl genæ./ Ar guraid uedy ei brâs guro ai beruy meun dufyr hyd yr hanner ai hyfed dros benn die a uydīs urth gyfruydyd ei vod yn gyfared or rymusaf rhac y colic

Da ydyu hefyd rhac y tosted, rhac y cryd beuny, ar cryd bop peduar dyd./ A ei isce! uedy ei veruy meun guin sy da rhac y gout a rhac guayu yn y glun a rhac y gloesion leuc./ Ar sūc a uascer alan or gureidyn sy da y olchi idu cnaud. Ac ef elir ei gmaeryd gyd a mel ai rodi yn phroenæ yr eidu ac e una vourles./

- 
- i Ychwanegwyd "ar phurf./" yn ddiweddarach.  
ii Addaswyd "putron".

---

Rhedyn. 97./<sup>i</sup>

Yr enuae./

Ffilix yn Latin, Brake ne Fferne yn Saesonaec a Rhedyn yn Camberaec./[122b]

Y rhyuae./

Deuryu redyn sy sef y gur ryu ar banyu./

Y phurf./

Y rhedyn gur ryu y rhain a eluir yn sathredic Rhedyn Mair sy a dail ydyn eb paladr, eb vlodæ eb had yn tardy alan or vn troed o cufyd o hyd ac yn vylchloc ac ar dân yn ol pved adaned adar ac aroglæ taran drum. A gureidyn rhyd uynneb y dayar yn duy yn braph ac yn hir, a lauer o vân ureidiach yn tyfy o hono.

Y rhedyn benyu nid amgen na'r rhein a vedir y doi tai sy a dail ydyn val ir ail eithyr nid yn tyfy ar droet vnicol val yr eil, eithyr a lauer o gangæ yn tyfy yn vuch tu ar bric nac i rhei gur ufet./ Gureid hir goguydedic sy ydyn a melynrest ar y duy ac ueithie yn rhudgochi./

Y le

Wy a dyfan ym pop bân gan muyaf onid mynychaf y tyfan yn y mynyded yn y coedy! ac meun leoed cáreroc./[123a]

Yr amser./

Y cynayaf y mae ei codi uy./

Yr artempr./

Chueruon yu'r rhedyn a tharan attaliedic mal y mae yn digon eglur mai<sup>ii</sup> guresoc a sych ynt

Y rhinuedæ./<sup>iii</sup>

Peduar dram ne buys ceinioc o uraid or rhedyn gurryu ai hyfed meun mediclyn med nei dyrfel sy da i beri escor pryfed ne lyngvr lydain, eithyr rhaid yu bod vn die ar gythlunc a chymeryd ychydic vel or blaen./ Da ydyu ir neb a

vo yn cael poen gân y D̄uec./ Druc iaun yu guraid̄ y Deuryu ar les y d̄uyfron  
ac nid ydyu dim guel̄ i uraic na moruyn./ Natur y dail yu gurthlad̄ nadroed̄  
ac am hynny da yu ei tany meun le tybus ac o loscir uy peri a unant ai  
aroglæ ir nadroed̄ gilio ymaith

- 
- i Ysgrifennodd E.T. "Brake a female fern" gerllaw.
  - ii Glosiwyd "mai" â "taŷ".
  - iii Crynhowyd rhai o'r rhinweddau ar yr ochr mewn llaw gyfoes.

---

Clust y lygoden./ 93./

Yr enuae./

Pilosella yn Latin, 'house eare yn<sup>i</sup>[123b] Saesonaec a Chlust y lygoden yn  
Camberaec./

Y rhyuiae

Deuryu sy or lysæ h̄yn eb amgen amrafael yu gyfri rhythynt o dieithr ar ei  
blodæ./ Vn rhyu onadunt sy a dail muy ido ac yn cyfody o y urth y dayar ac  
a blodæ melynion Ar yr al̄ sy a dail yn gueinio gan ystlys y dayar ac a dail  
rhudleision ac yn diflanny ymaith yn ualtach./

Y phurf

Lyseun ydyu ai dail yn ymestyn val gueltglas ar hyd y dayar ac yn unluyd y  
tu nessaf ir dayar ar tu vchaf yn uydion ac a blodæ melynion ne  
rudleision a gureidyn bonfras blaenfain./



Y le

Y deuryu a dyf ar y mynyded ac ar vrynnyæ lymion: ar rhyu muyaf a gair yn tyfy meun terfynæ dyrys a vo rhung meysyd./

Yr amser

Y Mai ar Mehefin yu ei hanser[124a] uy y vlodeuo yn gnotaf./ Y rhyu leia re<sup>d</sup> Phucsius a dyhoyna ymaith cyn pen ychydic o dydie mis Mehefin ac yno ni chair gulet din muy o hano./ Eithyr ny uelun i din hano yn dechre guyuo ne dyhoyni dan dec diernot o vis Aust./

Yr artempr./

Mae ei blas uy yn dangos yn eglur mae guresoc a sychion ydynt ac am hynny y maent uy yn da dros benn y garthy ac y gyfany archolion

Y rhinuedæ

Dyuedyt y mae y medypon or oesoed dyuethaf mae diareb or da ydyu hlaud ei dail v gyfany archolion./

Sûc y dail irion a uescir alan i ludias achraith y cryd a vyd yn cyrchy bop peduar die./ A throchi a unair ynto vin arfæ er ei nousio a dody gleudur auch ynthon y deintio ar y dur noeth./ Ac uy a dyuedant mae da yu codi gureidyn y lysæ hyn ar vis Mai ai sychy ai uneythy yn boudr ai dodi ar diod ne vuyt ir neb a vo uedi torri ei lengic[124b]

---

i Y mae "q" gyferbyn a'r llinell "Pilosella...yn". Nid ydwyf ddim yn meddwl mai R.M. a'i rhoddodd yno.

---

Y Gulyd 99./

Yr enuæ./

Auricula muris y geilū Phucusius y lyseun hun yn Latin a Latinuyr yr eil a venthygant Alsine y gair Groec ido, Ninæ ai galun y Gulyd yn Camberaec./

Y rhyuæ

Cyd nad ydoed yr hên lyseuur Dioscorides ac yr eil hefyd yn yngan anid am vn rhyu Wlyd etto y mae Phucusius yn metry cael tri rhyu ne anguanec ac yn doŷy enuæ gohanol arnađunt./ Eithyr o eruyd i Wiliam Turner Sais tra ampl ei dŷc a gur craph iaun ar lyseuoed nad yu yn guelet deunyđ ar barthy y lysæ hŷn er ei vod yn ei gosot alan yn ei lyseulyfr tri amryu lŷn arnađunt, nid ynyrraf vinneu ar hyn o anser anid dan vn am y tri rhyu./

Y phurf

Lysæ ydynt a gwyđ goyscaroc yn ynlusco rhyd y dayar a changæ bychain yn tyfy oe cymalæ a dail nid antebic i glust y lygoden./[125a]

Y le

Tyfy a una meun luyni coed, meun hen vuræ prid, rhyd hên do haul putr ar penæ tai ac meun guascot

Yr anser

Cenol y gawaf y dechry dyfy a chenol yr haf y dechry uyuo./

Yr artempr./

Oer a gulyh ydyu y lysæ hŷn o bleit anian dyfrol yđ hanynt./

Y rhinued

Natur y lysæ hÿn yu attal ac oeri./

Da ydy ei cymmoni y meun blaüd haüd a dufyr yu dody urth lygaid rhac poethfa ne ymlosc./ Ei suc a vurir yn clustiaæ rhac dolur onadynt./ E uasanaetha y lysæ hÿn y pop neth y bo da y Paritori ido./ Wy a unant les hefyd y cornuydy! goruaedy! ac y boethfeyd or ni bont rhy danlyd./

---

Y Ganculum. 100./

Yr enuaæ./

Sanguinalis yn Latin, Knotgrasse[125b] ne<sup>i</sup> Swynes grasse yn Saxonaec ar Ganculum yn Camberaec./

Y phurf./

Lyseun yu a changæ eidil godener ac yn gulymaæ ne yn darnæ cymaloc or pën huygylyd ac yn gorued yn hedere rhyd y dayar ac a dail val dail Ruu anid ei bod yn huy ac ynghyssult pop deilien ar guyd y duc had o ba bleit y geluir yn ũr ryu ac a blodeun guyn ne ungoch./

Y le

Tyfy a una ym pop mathrfa domlyd uedy ei tyrrer a chan emylæ y luybrae. ac e dyf heb ei hau ac er ei sathry beynyd y dan draet./

Yr amser

Yr haf y blodea ar hunnu hefyd y clescir./

Yr artempr./

O dyfrol oerfel yd han yu yn bennaf ac am hynny y gelir dyuedyt tau oer ydyu yn yr ail rad neu can muyaf yn nechre y drydy: y mae e hefyd yn sych./[126a]

Y rhinued<sup>ii</sup>

Naturiet h suc y Ganculum od yfir yu peri attal ac oeri./ Y mae yn da hefyd i vn a vo yn poeri y gvaed, ac i vn a vo ei voly yn rhy rugl, rhac color, a rhac gobiso./ Ac e una lesaad diameu ar beri yr trunc ymescor./ Ac od yfir meun guin gvaredol vyd rhac brathæ pryfed gvenuynic. Iach vyd hefyd ei gymeryd aur o vlaen deuod cylch yr achraith ner grynfa or cryd./ Ac o rhodir urtho e attal gurs eu hanuyl ar verchet./ Helpu hefyd a una y clustiaæ a vo yn dolurio ne yn rhedec o burir ynthynt./ Ac o beruir meun guin a rhoi mel atto lesaad maur a una rhac cornuydyd ar yr opher gydiol./ Ar dail sy da rhac gures or duyfron, rhac buru gvaed, rhac tarde, tan idu, ymlosc ac archolion od irir ac uynt val y perthyne./ O thuyeltir y suc ir phroenæ e dýrarygvaedlin./ A da vyd ef hefyd ar les y goluc./

Cymeryd yr had yn ehelaeth a bair gahel mynet alan ac escor ar y trunc, ac y attal y gulybur annaturiol sef<sup>iii</sup> y reum./[126b]

- 
- i Ymddengys "ne" yn unig yn y geiriau cydio "ne Swynes".  
ii Crynhowyd rhai o'r rhinweddau ar yr ochr mewn llaw gyfoes.  
iii Rhoddwyd "q" gyferbyn â'r llinell "ac y attal...sef". Ni wn pwy a'i rhoddodd yno.
-

Yr enuæ./

Ruta hortensis yn Latin, Rue yn Saesonaec a Ruu ne y Rhut yn Camberaec./

Y phurf./

Y rhut id lyseun yn tyfv yn llyn cangoc ac aroplæ trum eb ued ac yn aros yn iruvrd yn oystad hayachen: Dail bychain ac yn grynon pe nad ychydic vai o diphic, goleision o liu, ac ampl ac yspyrsiæ cangoc, blodæ melynion ac a chodæ congloc yn cadu yr had./

Y le./

Meun lauer o erdi y cephir yn tyfy a honh rantho le heuloc sych./

Yr amser

Yr haf y blodea ar cynavaf y byd yr had aedfed ar amser hunnu y mae ei gwryd ef yu gadu./

Yr artempr

Nid yu y lyseun hūn a blas phraeth yn vnic eithyr y mae yn chueru hefyd, ac yn uresoc ac yn sych anianol./[127a]

Y rhinuedæ<sup>1</sup>

Losci a una chusigēny a pheri ir trunc ymescor. Attal y boly a una od yfir ne o buyteir./ Cyfared ragorol ydyu rhac guenyyn od yfir dogyu o hono meun guin./ Y dail hefyd o chymerir ehunain gyd a chnau Phrencic a phicus sychion diphruytho guenyyn ai lad a unant./

Da vyd ei cyweryd rhac nadroed Druc ydyu i neb ei harfer meun buyt na diot

a vo yn ei vryd geisio hiliogaeth oe gorph: ac nid iach i uraic veichioc  
di or ymgydram ar lysæ hyn o bleit hi a gaiph atgasruyd na unel hi anid  
ei duyn ymplith lysæ meun garlant am ei phén./

Wedy ei verui gyd ac Aneth uedy sychy ei cair yn da rhac gueuyr, rhac dolur  
or duyfrón, ac or ystlys, rhac diphic anhetl, rhac loscua or yscyfaint,  
rhac heiniæ or glûn ac or cymalæ a rhac achreithiæ yr crÿd cryny./ Ei  
verui gyd ac oleo ai yfed sy da i heri ir lynçer ymescor./ Y lysæ hyn yn  
ambrud a quedy ei halty ai buyta a uelhaa ar y goluc ac uedy ei  
gynyscy[127h] a blaud haid y gûna les rhac dolur or lygaid o dodir urthyn./  
Da ylynt eyd a dail Loryf rhac poethfa or ceiliaæ./ Sûc y lysæ yma gyd a  
suc phenicul a mel sy da i iro goluc a vo yn pyly./ O chnoir y Rût e dyrr  
dosted yr oinion ar parlec

Y dail uedy ei berui yd y deuparth sy da rhac y tordyn ne surhet./

---

i Crynhowyd rhai o'r rhinweddau ar yr ochr mewn llaw gyfoes.

---

Purs y bugail./ 102./

Yr enuæ./

Pastoria bursa yn Latin, Shephards purse yn Saesonaec: Purs y bugail yn  
Camberaec./

Y phurf

Anvynech y tyf vuchlau troedfed o hyd, a changoc vyd a dail val dail yr  
Aruoc anid ei bod yn lai, ac a blodæ bychain gunion, a had duy y meun

pyrsæ bychain. Gureidyn hirwyn./

Y le

Ar emyl y phyrð y tyf ac ar hên vuriæ prid./[128a]

Yr anser./

Mis llehefin ar Gorphenhaf y clescir./

Yr artenpr./

Oer ac attaliedic yu

Y rhinuedæ

' yd y dyuaid y lyseuyr diuethaf o bleit gyd ar hen na Groecuyr na

Latinuyr dyscedic nid oed son am y lyseun hūn

Ei gura uedy muydo meun vinegr a oera boethfeyd ac a oyscar ulybyroed a vo uedyr ymelascy ir vn le./ Ei doðir ef ar dân idu ac urth duyfron a vo rhy uresoc./ Ei suc ef a doueltir meun clustiaæ a vo yn rhedec./ Ef a iachaa archolion gwaedlyt./ Y mae e yn da rhac haint calon rhac poeri gwaed a rhac ancymesurdra<sup>1</sup> yr blodæ ar verched; a rhac gwaedlin phroenæ ac medant mae yn da y attal gwaed o bop bán./

---

1 Unais "ancŷ" a "mesurdra". Holltwyd y gair rhwng dwy linell ac anghofiwyd rhoi cyplysnod rhwng y ddwy ran.

---

Y Dorluyd. 103./

Yr enuæ

Potentilla yn Latin, Wylde tansie[128b] yn Saesonaec, Tansi gŵlt, y Dorluyd, ne Luyd y dŵn yn Camberaec./

Y phurf

Lyseun ydyu nid antebic i lysæ yr Tryu a lauer o belydr yn yspyrnio o y ar y gureidyn ac yn gorued rhyd y dayar: ac a dail nid ancyphelip y dail y Tansi yn uyrddion o y arnynt ac yn uynion o y danynt./ Blodæ melynion yn tyfy ar draet or neiltu, a gureidyn rhudgoch o y alan ac yn uŵn o y meun./

Y lē

Gnaut ido dyfy gan ystlys luybrae ac meun gulyptir a chan lân a thorlānæ afonyd

Yr amser

Yr haf y blodea ac y dleir ei glascy./

Yr artempr./

Y lyseun hūn ac yn enuedic ei ureidyn sy sych yn y drydyd rad ac ychydic anian gures ynto./

Y rniuedæ

Lyseun yu hūn hefyd or nid escri[129a]fennod yr hen auturiaid dīn o hano Eithyr y mae y guyr dyscedic or oesoed guedy yn cytuno ar vod liaus o rinuedæ cyfaredol arno nid amœnach nae vod yn da y lygaid a vo yn dyfrio ne yn gūnio mal pe bydei brycheun ynthunt, ac mae da ydyu y iachau archol



neuŷdfriŷ ac y attal gornodēd anhŷyl y merchet, a chadarnhau yr aylodæ ar  
cymalæ a una./ Ac mae da ydyŷ rhac y đannoed a rhac chuysic ne cancr or  
genæ, rhac haint cālon, a boly rhy rugl, a rhac dolur or glun ar cymalæ.  
Da hefyd medant ydyŷ y attal gŷaed./ Gyd a hynny y mae arno yr vn rhinuedæ  
ac ar y lyseun a eluir y Pempdalen ne crafanc yr eryr./

---

Pŷs. 104.

Yr enuæ.

Piŷun yn Latin, Pesen yn Saesonaec. Pŷs yn Camberaec./

Y rhyuiæ./

Deuryŷ pŷsŷmae Leonardus[129b] Phucsius yn escrifenny o honyrt sef o vn rhyu  
hys cyphredin y sy yn tyfy yn v meysŷd yn benbleth rhyd y đayar ac o ryu yr  
al y sy yn tyfy y vyny yn syth ac yn ymgynnal ar coet ne ar polion nesaf  
atto gan ymđirŷyn or dyueth ynglyn ŷrthyn./

Y phurf./

Ei gŷyđ a dyf yn ogŷyđedic rhyd y đayar ac yn chuibol oe neun vylant ac yn  
laun cangæ a bađlur eiđil a dail anol ac yn hŷy no phurf ys ail, ac a  
blodeun val cloun deo a liu rhud yn cylch ei vogelyn. Codæ hirion val  
bysed a gronnæ crynion ac a gureidyn eguan./

Y le

Da ganthau vrōn haul ac ny đichon aros oerfel. Ac vely gore cyfle ido dir

guresoc a mynech gauodyd a yn da arno./

Yr amser

Mis Mehefin a Gorphenhaf y blodea ac yno yr hada meun codennæ./[130a]

Yr artemr

Y Pŷs ynt oerion a sychion yn y rad gyntaf./

Y rhinuedæ./

Megis vn phurf ac vn ansauð yu<sup>r</sup> pŷs ar pha ac an hynny nid oes anrafael hanas vlvnt eithyr meun deubeth y maent uy yn amryfaely can nad ynt val y pha yn mazy euynt nac vn carthy ac o bleit anhaus ganthunt na<sup>r</sup> pha ymady or croth./

---

Cennin. 105./

Yr enuæ/

Porum yn Latin, a Leeke yn Saesonaec, Cennin yn Camberaec./

Y rhyuiæ

Dau ryuogaeth Cennin a varnod yr hên oesoed ei vod sef Porrum capitatum Cenninenbenn y geluir vn, am vod ei gureidyn yn tyfy yn benn crún, ys al a eluir yn Latin[130b] Porrum sectium, Cēninendōr ne Cēninén baur o bleit torri ei dail a unair val y bo rhaid urthynt

Y phurf./

Y Gēninēnben a dyf y vyny o y ár vn penn ac a dail hirion cefyn priboc goruch y dayar. Ar Genninēnbaur sy a phaladr hir idei ac yn chuibol oe meun a liaus o vlodæ ar y brigyn vchaf yn vn siobyn cyngafoc ac guedy darfo yr had aedfedy arno, crino a una hithe./

Gureidyn claerwyn sy idei a lauer o ualturaid yn tyfy o honau a guiscoed lauer anlano./

Y le

Goræ y tyf puy vrassa vo'r tir a chās genthei a vo amgen./

Yr anser

Y deunoufed tie yn ol ei heheu yr eginaf a duy vlyned y pery./

Yr artemnr./

Simeon Sethi a dyuaid mae guresoc a sych ydyu yn y rad gyntaf ac anian oinion sy ynthei./[131a]

Y rhinuedæ./

Y Genninen bēn a vac uynt ac a bair vaguriaeth ariach a gueled breuduydion blin trapherthus, escor y trunc a una, a da ydyu ar les y groth. Teneuhau a una a pheri yr lygaid dyuyly. Peri i anhuyll y merchet gael ei purs a briuo y chuysigen heinus ar arennæ a una./ O beruir y Cennin gān neuidio yr dufyr nei muydo meun dufir oer ny bydan cyn dosted a lai o lauer yr ymchuythan ac y magan uynt./ Yr had sy phraethach ac sy ac anian attaliedic yntho./ Ei suc gyd a vinegr a thus ne Manna a attal uaed ac yn enuedic y gwaedlin phroenæ. A da ydyu rhac heiniæ or duyfron, a rhac nyctot anid nid da ydyu ar les y goluc ar duyfron./ Y suc uedy ei yfed alan o vel sy

gyfaredol yn erbyn bratheu pryfed./ Da ydyu yu dody ar tardiat a del o uynt y nos./

Y Cennin paŕr ne dŕr sy da y attal gŕaedin phroenæ o chymerir uedy ei curo ai cynyscy ac afal y deru ne vintys ai dodi yn y phroenæ caead./

Da ydyu yfed y suc gyd a laeth bronnae rhac lif yn ol escor cŕn[131h] amser, rhac hen pesuch, a rhac heiniae or duyfron ar yscyfaint./ Da hefyd yu y dail y iachau losc./

Iachus yu yfed y suc ar diot o uin rhac brathau nadroed./ Da ydyu ar diot ne vuyt ir saul a vo yn poeri yr gŕaed, ne yn nychy; a hefyd rhac cluy yr brenhin a rhac y gout./

E vâc anladruid, e diphod sychet ac a oyscar vedot./ Eithyr nid iach yu ar les y goluc./ E bair y uraged vod yn adasach y blanta./ Y pennæ uedy ei berui meun dau anryu dufyr a attaliant y boly./

---

Rhedegot y deru 106./<sup>i</sup>

Yr enuæ./

Pulmonaria yn Latin, Lyverwort<sup>ii</sup> yn Saesonaec, Rhedegot y deru, Clustfæ yr deru, ne Galodr yn Camberaec./

Y mae Phucusius urth escrifenny a dosparthy y lyseun hun (yd y medraf i dealt) yn eady y Cynlennyd ar Calod yn vn rhyu[132a] lyseun; a dyuedyt y mae hefyd na vedrei ef gahel guybot pa ued y galuei yr hen escrifennydion y lysæ hynn./

Phurf a delu y lysæ vchot yd y dengys Phucusius

Dail medallion sy ido yn cyclyny yn ei gylyd a gofylchæ ynthynt, a lauer o vannæ luydion arnadynt, y tu vchaf yn uydion ar tu isaf yn velynuyn a chrugynnæ bychain o y arnyn val pe pigid a blaen noduyd o y dano. Ac o bleit hyn y mae y Latinuyr yn ei alu Pulmonariam sef yu hynny lysæ yr yscyfaint

Y le

Ar y deru ac meun leoed carregoc y tyf. Eithyr y lysæ rhein a alun i y Cycclyny<sup>iii</sup> a dyf yn ol ei enu rhyd ceulennæ<sup>iv</sup> yr afonyd neu rhyd cerric gulybion. Ac edrychuch le bo mur pyteu<sup>v</sup> neu bont uedy ei guneythyd o vain nad medallion a chui geuch ueled y lysæ hyn yn tyfy arnadynt

Yr amser

Ei ceir ar hyd yr haf ar y leoed vchot./[132b]

Yr artempr

Y lyseuyr neuyd sy yn doedyt tau oer a gulyb yu'r lysæ hynn, eithyr Leonard Phucusius sy yn barny arnadynt ac yn nynny y mae sych a guresoc ynt, ac vely yn ei gosot yn vn or rhyuogaeth hyduym./ Ac e vyn yn bendifade ir lysæ sy yn tyfy ar y deruen vod yn ymardymhery peth o y urth ei hithei nid amgenach no bod yn neshau ar naturieth sychdur, gures ac attal./

Y rhinued

Erudyd ido vod ac anian sychy ac anian attal yntho da ydyu y gyfany archolion neuyd ac yn bendiadnot briu or yscyfaint. A da ydyu yn dinam y attal y blodæ ar verchet ac ir neb a vo yn poeri gvaed, ac i vn a vo ei voly yn rhy rugl er ys hir o amser./[133a]

- 
- i Y mae "q" gyferbyn â'r enw hwn. Nid ymddengys i mi mai R.M. a'i rhoes yno.
- ii Glosiwyd: "Loongwort".
- iii Cywirwyd "Cycclenyd".
- iv Cywirwyd "ceulennyd".
- v Cywirwyd "puteu".
- 

Prén Bocs: 107./

Yr enuæ

Buxus yn Latin, Boxe yn Saesonaec. Prén Bocs yn Camberaec./

Y phurf

Prén ydyu ai vric yn parhau yn iruyrd bop amser a dail bychain val dail Kelyn Mair hayach anid nad ydynt yn pigoc, a gogrynon ydynt, a blodæ deilioc a had rhytgoch ac yn grún yr hún sy gâs gan bop anifail

Y le

Da ganto le oer y dyfy ac er hynny ym bron hawl Mr Wiliam Turner sy yn doedyt vod y prén hyn yn tyfy yn y mynyded yn Germania yn ampl ac na thyf yn Loecr anid yn le y planner./

Yr amser

Guyrdfric vyd yn oystat ac ni syrth ei dail vn amser ac am hynny y cenmyl caneuuyr Germania y prén Bocs vegis y gûna cyuyduyr ein[133b] gulad ninnæ am y Gelynen. O bleit vn o hanynt uy a unaeth ymrysongerd rhung yr Helygen ac y hi, vn o hanon ninnæ a gyphelypod ne yn hytrach a ancyphelypod y

Veduen a hitheu gan englynio val hŷn./

Glana uyd ti'r Gelynén/ or goeduic/

A ymŷeduis yn irbrén

Ef adod y Veduen

Duyn ei phais odi am ei phen./<sup>i</sup>

Yr artempr./

Y dyscedic diuedar a dyuedan mae cymmetrol a thymporaidd yu ansaudd y prén hun, yr hyn o lauer o achosion ofer gan Phucsius ei hadrodd nis guel ef yn cyphelypol. A myn dieu yu ei vod yn culŷmy ac hefyd ynn sychy./

Y rhinued

Nid oes chuaith ampl rinued vediginiaethol ar y Bocs. Ei dail ef uedy ei berui meun leisu a liuant ualt yn uineugoch ne yn velyn./ Ei vlaud ne ei greifion uedy ei berui meun dufyr sy da ar les boly rhy rugl./

Druc iaun ar les yr emennyd yu cyscy dân y pren hun can vod ei aroglæ mor urthuynepol i na[134a]tur dŷn. Eithyr uy dyuedant yr a neidr a vo uedy ei briuo yn iach pan brofo beth o ureidyn y prén yma./ Hŷn yma ol o rinuedæ a dangosod Phucsius./ A Wiliam Turner ai gedeuis eb yngan amdanynt ac im tyb i eruyd nad ynt yn perthyne chuaith at ran physigurieth./

---

i Ysgrifennwyd "impecitò" ar yr ymyl gyferbyn mewn llaw gyfoes.

---

Yr enuæ./

Volucrum maius yn Latin, Woodbynde yn Saesonaec, Guyduyd yn Camberaec./

Y phurf.

Lyseulwyn ydyu yn tyfy ai uyd yn linyunnæ plethedic ai dail uedyr osot y rhythynt yn glustiaæ sythion pyferbyn aei gylyd yn ueluyr! o liu a blodæ gunion val i pha yn boyntle crynion pennæ egoret, ac a had caled anhaud gantho ymady a guraid praph crun./[134b]

Y le

Rhyd y coet ar caeæ y tyf gan yblythy ar pren nesaf atto: ac ef a blennir yn ein dydie ni yn y gardæ./

Yr amser

Mis Mehefin a mis Gorphenhaf y blodea./

Yr artempr

Tra guresoc a sych ydyu yr hyn a elir ei deal urth ei brofi a ei vlas: 0 bleit y mae rhyu phraethder yn ei dail ef

Ei rinuæ

Y gyyr dyscedic or amser dyuethaf a dyuaid o chymerir dram o had hyn uedy aedfedy ai sychy alan or haul a bod meun gun dros deugain die nae da ydyu ar les y duec a rhac ludet, rhac diphic anhetl ar eigan./ Wy dyuedan hefyd y pair y drunc guaedlyt ymescor yn ol y chuechet dyd, ac y rhuydha ar ureic urth escor ei beichiogi./ Ar vn rhinuæ sy ar y dail. Ac od yfir dros



nam tri,[135a] die deugain peri nad ymdyner<sup>ii</sup> a una./ Da ydy hefyd rhac  
crusyndot a vyd val marchuraint ne'r eryr./

- 
- i Ato'wyd "Family Herbal 181" a "hony-Succlle" a "periclymenum" gan  
E.T. yn ymyl.  
ii Y mae llinell doredig o dan "nad ymdyner" ac uwch ei ben ceir y  
glos "sterilitatē".
- 

Guenith. 109./

Yr enuaē

Triticum yn Latin, Wheate yn Saesonaec a Guenith yn Camberaec

Y rhyuaē

Tri rhyu uenith y mae Phucsius yn ei narthy. Eithyr mae lafuruyr ein bro  
ni yn enui muy o ryuaē nid amgenach. Guenith guēn bach, Polardluyd, Luyt  
cutta, Coch y maes, Barf y gath, Y Coch Seisnic, Y Coch Maur, Moeluy  
nnyd, Guenith Cambereic./

Y phurf./

Y rhyu cyntaf ar uenith syd a gueltyn huy ido nar haid ac a[135b] thri  
chulum<sup>i</sup> arno a dail val dail cyrs ac a thyuysen goruuch y dail ai dyrny a  
unair ar laur val rhyu uenith aral./ Ar ail rhyu sy yr vn phynyt ei ueltyn  
ei glymaē ai ronynae ar cyntaf, ac nid oes amrafael rhyngto ac ef anid bod  
yn collioc ac yn tyfy yn duy restr./ Y trydy rhyu sy a pheduar glin nei  
gulum a chymal ar ei ueltyn ac anid hynny yn vnued agos ym pop peth a hunnu  
or blaen./

Y le./

Y Guenith or rhyu cyntaf ar ail a dyf ym pop le, y trydy rhyu a dyf yn y maes yn emyl Dinas Tubinga yn Germania./

Yr amser

Ym mis Mehefin y blodea val guenith yr al ac ym mis Gorphenhaf y metir./

Yr artemnr./

Y guenith pan roder yn vediginiaeth o y alan sy sych yn y rad gyntaf: ni dichon hagen na sychy na gulybyry yn eglur. Eithyr pan uneler[136a] am<sup>91</sup>ii sef gweiscion nei syth o hono yno y mae yn oerach ac yn sychach aros hynny./

Y rhinuedæ

Goræ guenith ar les iechait dyn yu y guenith a darfo ido gubyl aedfedy ac a vo a liu afal arno./ O buyteir ef yn ambrud magy lynger a una./

Da ydyu uedy ei gnoi ai roi urtho rhac brath ci./ Bara a uneler o ei beilliaid a bair vagurieth da./ Blaud y guenith gyd a suc yr Henban sy da yu dody urtho rhac losced y geuynnæ a hefyd rhac guynt or colud./

A chyd a dyfrfel y mae yn da rhac y brychder ar losc haul a vyd ar groen dyn./ Y rhudion uedy ei verui meun vinegr cryf aei dody urtho a dilea y cluy maur./ Ac o dodir urth ymlosc a vo yn dechre, esmuytho a una./ Ac o beruir meun iscel Ruu e estung y dolur ar vronnæ a vo yn vnchuyd./ Iach yu rhudion hefyd rhac brath neidr a rhac y gnofa hefyd./ Ar toes a uneler o vlaud guenith sy a nerth yntho y uresogy ac y dynny alan./ O beruir aei uneythyr mal yud tenæ ne syth[136b] ai lyfy da vyd ir neb a vo yn buru peth gwaedlyd./ Guedy ei verui gyd a Mintys ac emenyn grymus ydyu rhac y pesuch ar crygi./ Graun y guenith guedy ei losci a hayarn sy da anianol ir

vân a vo uedy pherry gan oerfel. Da yu manus guenith ne haif uedy ei tujmo  
yu dody urth vn a vo uedy torri ei lengic./

- 
- i Y mae hwn yn un o'r geiriau cydio rhwng 135b ac 136a. Ar 136a y mae nodau dileu oddi tano a "q" gyferbyn ag ef ar yr ochr. Ni allaf ddweud ai R.M. a'u rhoddodd yno.
- ii Un o'r geiriau cydio rhwng 136a ac 136b ydyw hwn. Rhoddwyd nodau dileu oddi tano a'r llythyren "q" gyferbyn ag ef ar yr ymyl ar 136a. Ni fedraf i ddim dweud ai R.M. a'u rhoddodd yno.

---

Troed yr Wyd. 110./<sup>i</sup>

Yr enuæ./

Pes anserinus yn Latin, Goosefoote yn Saesonaec, Troed nei Balf yr uyd yn Camberaec./

Lyseun yu hun nid esrifennod yr hen athraon dim o hono, etto ar ido vod yn tyfy mor sathredic ni edeis Phucusius eb dangos ei hanes./

Y phurf./

Paladr cyhyd a chufyd sy ido ac yn elinioc ne yn yscuydæ chuydedic urth von y ceingiaæ a dail mal dail Halicacabus a bylchæ hagen ar ei hemylæ ac yn gyphelip iaun y droet guyd a blodæ eidil guridoc[137a]<sup>ii</sup> a hadæ yn tyfy yn vagadæ nei bentyrre val ar yr Atriplex guylt ar vric pop cangen ido a gureidyn goguydedic a lauer yr eil o rei mân yn tyfy arno

Y le

Ym pop le y tyf y bo rhugldom uedy ei dyrry.

Yr amser

Gnotaf ido vlodeo ym Mehefin

Yr artempr.

Nid rhaid ameu nad yu ef yn oer yn yr ail rad nid amgenach noc vn dempr<sup>iii</sup>

Solanum ne morel y gardæ

Y rhinued.

Guenwyn ir yd yu y lyseun hūn yr hyn a ueled yn uir urth brofi. Ar vn rhinued ar Solanum dof ydyu i gorph dyn. Ac am hynny edrych am ei ansauð yn ei gyfle./

- 
- i Ysgrifennwyd "Atriplex" yn ymyl gan E.T.
  - ii Ychwanegwyd "Haliacabum Alkengi Solanum versicarium" ar waelod 137a gan E.T.
  - iii Cywirwyd "no thempr" yn "noc vn dempr".
- 

Y Rhôs. 111./

Yr enuae./

Rosa yn Latin Rose yn Saesonaec a Rhosyn yn Camberaec./[137b]

Y rhyuiaë

Yr athro Phucsius a ueles vod yn digon (cyd guydei yspyssy o anguanec<sup>i</sup>) parthy y Rhôs yn deuryu sef yn dof ac yn uylt./ Y rhôs guyltion ynt yn arçach ei guaiail ai dail ac yn vuch<sup>ii</sup> aroglæ ac yn vuy<sup>iii</sup> rhei dofion noc uynt puy rei a alun ni yn Ros yr Egroes. Ac o yr deuryu y mae guynion

a guyngochion o liu./

Y phurf./

Paup a eduyn y Rhos sef guaiail a mannæ duon sy ydyn ac yn danned bachoc pigogion a dail yn rhintach val min crŷman garu yn duy uyrđion ac yn eiruon. Bagluro yn gyntaf a una yn vn botymæ blaenfeinion o penp dalen ne cibynnæ guiscedic yn gogylchyny y rhosyn yn dyblygion yn ei gylyđ ac yno urth aedfedy yr ymdetyt bop ychydic yđ ani aner ac or diued ei alu yn Rosyn: ac yn ei genol yr ymdengys tipynnæ blodeuoc melynion ynglyn urth draedæ meinedigion. Coet y rhos guyltion[138a] sef yr Egroes a duc hefyd phruyth o gnapiæ musogloc y rhain a uerth y Potecarieit pheilsion yn le Bedegar, ac a duc phruyth al crun yn uyn yn y dechre ac yno rhud uyn vyđ

Y le

Y rhos dofion a dyfant yn y gardæ ar guyltion yn y caeæ ar luyri

Yr amser

Y rhos yu vn or guanyn vlodæ dyuethaf a dyrr alan: ac nid oes hefyd hir amser ido chuaith. Ac an hynny y byđ rhaid ei clascy yn y Mehefin rhac ei darfod./

Yr artempr./

Rhinued y rhos a hanyu o phurf dyfrol guresoc ac o đau o ansodion eil nid angen o gymysc attal a chueru y cyfansodir hefyd./

Y blodæ melynion sy yn cenol y rhosyn sy vuy attaliedic na'r rhôs ehunain ac vely diameu mae sychion ynt./

Y rhinuedæ

Y rhôs sy oer ac attaliedic eithyr muy attaliedic ydyu guedy sychy./[138b]

Y suc a uescir alan o dalennæ y Rhos gan dorri y vaes a guelæf yr hÿn a vo guyn o nadynt a churo y guedil meun mortar a dleir ai vaedy meun guascot anid el yn deu ac vely ei gadu y uneythyd eli lygaid. A dir yu sychy y dalennæ alan or haul ai choaly yn vynecu rhac ei luydo./

Y suc ne'r leithdra a uascir alan or rhôs sychion uedyr beruy meun guin sy da yu iro ac adain, yu olchi, ne yu dyualt y meun rhac dolur or penn, or lygaid, or clustiaæ, or cernæ, or eistedle or colon vaur, ac or vamoc i verch ne'r luyhyr idi./ Ar dalennæ hynny hefyd eb ei guascy anid uedy ei curo ai dodu urtho, ynt iachus y rhac poethni yn cylch y galon a rhac gulybur or cyla, a rhac tân idu./ Yfed y pennæ sy da y attal y boly ac y lestair buru yr gwaed./

Y blodæ a bair cyscy ac a lestair ir gwaedlin misaul gerdet ar verchet ac yn enuedic yr rhyu guyn od yfir uy ar bosel. Ar had goræ ydyu yr hun a vo o liu Saphron ac or ny bo hÿn no bluyd ac yn y guascot y sychir./ Ny elir les or had duy./

Da yu ei dodu urth dant rhac y danoed[139a] E gymel y tronc y gerdet./ E ai dodu urth y dufron ac urth y tân idu ny bo uedy gredfy, ac yn y phroenæ er carthy y penn./ Bonæ gunion dalennæ y rhôs a vediginiaetha y sych pilen ar lygaid urth dechre deuod o dodu uy yn sychion y gyd a bara./

Y rhos guyltion gyd a brasder arth sy da rhac arfoeli./ Y cnapiæ musogloc a dyf ar uyd yr Egroes uedy ei crafy yn boudr sy dra da yn erbyn maen y tosted ac y beri cabel guneythy dufr./

- 
- i Unais "angua" a "nec". Holltwyd y gair rhwng dwy linell ac anghofwyd rhoi cyplysnod rhwng y ddwy ran.
  - ii Dilewyd "ei"(?) ar ôl y gair hwn.
  - iii Y mae bwllch bychan yma o led gair, ac yno ychydig o ôl ysgrifen sydd bron wedi ei chwalu yn llwyr.

---

Y Redic. 112./

Yr enuae./

Raphanus yn Groec a Latin, Radyshe yn Saxonaec, Y Redic yn Camberaec./

Y rhyuiaē

Deuryu Redic a dyuaid y Groecuyr ei vot sef y dof ar guylt./ Y dof a eluir gyd ar lyseuyr Latin Raphanus minor y Redic leiaf./ Ac enu yr guylt gan y Latinuyr yu Armoracia: ac gan y lyseuyr cyphredin y caant ei galu Radix sef y[139b] Redic ne'r Gureidyn an ei vod yn vuy no guraid erail, ne Raphanus maior y Redic vuyaf y gatfyd am vod yn vuy ei dail na'r rhei dofion, neu an ei bot yn phraethach ac yn vuy ei nerth./

Y phurf

Y Redic dofion a dyf y vyny yn vn palatr a mynech y tyf a gureidyn val prén o galeduch ac yn gyphelip ir Maip a dail bylchoc ac a chonglæ geiruo: ac a blodæ cannaid a had meun codæ./ Ar guylt yr hun a eluir y Rudic<sup>i</sup> sy a guyd amplach no chorph ido ac a dail tebic hayachen ir dofion anid ei bot yn gyphelypach ir Lampsan yn hirion ac yn vlaenfeinion: ac a gureidyn eidil medal a chyn dosted ar mustard yn gymeint ac y dring ir penn ac y cypel dacre or lygaid./

Y le

Y Redic a dyf yn y gerdi a da gantun dir bras gurteithus a uedy ei ymchoelyd yn vynech a myned yn phaeth. Ar guylt hefyd yr ys yn ei hlannu

yn aur yn y gardæ[140a] ac ynte urth ei ysmuto yn dofi ac yn rhyuogi yn vonedigach./ Ac oei natur e hun gnotach ido dyfy gar lau y prifphyrð ac meun leoeð tyfodoc. Ac yn vynec h o amser e dyf oe uaith ehun yn ehelaeth meun gweirglodiæ megis yd y dyuaid Phucsius y mae yn tyfy y meun gweirglod a eluir gweirglod yr Opheiriait yn emyl dinas Tubinga yn Germania ac yn gweirglod y menych gynt y tu gorleuin y Vonachloc Aberconuy sef yr hön a vuriuyd i laur yn emyl Aberlechoc ac o y yno y perais ei ysmuto im gard./ Digon arpl y metrir arnun yn tyfy yn uylt eithyr mi ai gwelais uy yn tyfy eb ei planny meun luyndyrys le geluir y Geufrón ym pluyf Lân Turoc yn Aruon./ Mi ai gwelais uy hefyd yn tyfy yn gard Phouk ap Rhys of yn Dinbych ac yn gard Rhys ap dd ap Ieuan yn Lanyvyd

Yr amser

Yn pymeint a bod y Radic yn galu godef oerfel yn ore vn ef elir ei glascy nid yn vnig yr haf anid hefyd y gayaf ac ei gofynnir[140b] beunyð yr haf y blodeua./

Yr artempr

Y Radic dofion sy uresoc yn y drydy rad a sych yn yr ail./ Y gylt sy nertholach ym pop vn or duy rad A muy yu nerth yr had na'r lyseun./

Y rhinuedæ

Y Radic<sup>ii</sup> sy uresoc ac a vâc uynt muyn ydyu ir genæ eithyr gelyn yu ir cyla./ Peri bretheirio a phiso a una./ Y groth a una yn da./ Puy bynnac ai cymero gwedy buyt haus vyd ido ei dreulio./ Ac os o vlaen buyt y cymerir ei dyrchaf a bair./ Da ydyu ei roi o vlaen buyt er muyn cyfogi./ Y synhuyræ a olymha./ Y Radic uedy ei berui sy iach yn erbyn yr hên pesuch a thrysgled a vaco yn y duyfron./ Cymeryd ei risc nei groen ar vinegr vël a bair cyfogy



yn gynt o lauer./ Da ydy rhac y gout. O ei iro y gūna les ir Duec./ Gyd a mēl y dilea pop[141a] haint a vo yn cynnydy urth gerdet./ Guared da ydy rhac brath neidr./ Peri ir gualt dyfy yn le hun a syrthio a una./ A gyd a blaud y Buluc y carth ymaith y brychni./ Peri yu gūaedlin naturiol gerdet ar verchet a una./ Ei had uy a gynnyrfa gyfoc ar trunc./ Ac od yfir ar vinegr leihau y duec a una./ Y Rudic uylt a veruir ei dail ai gūraid mal y Caul gyd a buyt, Guresogy a una a chympel y trunc ac angerd gures sy ynto./

- 
- i Cywirwyd "Redic".
  - ii Cywirwyd "Redic".
- 

Marierun./ 113./

Yr enuæ./

Maiorana yn Latin, Marierun gentle yn Sasonaec ac nid oes anid benphygy yr vn gair Marierun ir Camberaec./

Y phurf./

Llyseun cangoc yu hun ac yn tyfy ueithiæ yn orueidioc ac a dail cedenoc aros i grynion a naus cochni ynthynt ac yn tebic i dail Mintys y gath ac aroglæ tec a had ampl[141b] y rhain sy yn tyfy meun cibæ bychain a blodæ grynion bychain./

Y le

Ei cephir uy ym pop gard yn tyfy ac meun lestri prid yr hehir uy hefyd, da yd a arnunt uascot haul a dufyr a thail./

Yr amser

Yr haf tra vo yn ei vlodæ y clescîr

Yr artempr./

Y lyseun hûn sy deneubarth a threulgar a sych a guresoc yn y drydy rad./

Y rhinuedæ./

Isceļ hûn yma sy da rhac y dropsi sef rhac y dufyr rhunc cic a chroen pan vo yn dechrey A da ydyu ar les y neb ny chapo yn huylys uneythyd dufyr ne a vo cnofa arno./ O dodir yn y cyfle, da yu yr lyseun hûn y gymnel y guaedlyf<sup>i</sup> anianol ar y merchet./ O chyueirir gyd a pheiliaid blaud haid da vyd yu dody urth y lygaid./ E bair ystreui./ Ar dail uedy ei sychy gyd a mêl a dilea gleisia a vo ar groen dyn o dodir urtho[142a]

---

i Addaswyd "guaedlin".

---

Spinach. 114./<sup>i</sup>

Yr enuaæ/

Spinacia yn Latin, Spynache yn Saxonaec a deuised Cambero yr vn a vynno ai ledieithy gyd ar Groecuyr ai alu Spinach ay gyd ar Latinuyr ai doedyt Spinac ay o gyfneseifruyd cymydogeth y gyd ar Saeson ei enui Spinaeds./

Y phurf.

E egina ar y saith die yn ol ei heheu ai dail yn y dechre a vyd yn dri

chongyl, yn vedal ac ar hynt yd aant val dail Endif a ei traed or hyn  
mynychaf vyd yn gynhuyiad ne ynn vylchæ ac a blas ledf, a gureidyn bychan  
a mân ureidiach yn tardy o honau. A phaladr cyhyd ac hanner lath a mynech  
yn huy ac o y meun yn chuibol; a blodæ gunion ar ei vric, ac yn tyfy yn  
rhestri urtho ynguartha ei gylyd yn grynion ac eidil, ai had yn bigoc aru a  
lymion./

Y le

Nid yu y lyseun hun chuaith muythus o bleit ym pa le bynnac yd heher[142b]  
tyfy yn lauen a una./

Yr amser

Ei heheu a unair ym mis Meti eb ofal am oerfel y gayaf er muyn ei gahel  
erbyn y guanuy y dody meun buydyd. Ar Maurth yd hehir hefyd, ar Mehefin  
ar Gorphenhaf y blodea ac yd hada./

Yr artenpr

Oer a gulyb ydyu yn y rad gyntaf./

Y rhinuedæ./

Medalhau y groth a una, a guel y dyry vagurieth na'r Atriplex ne yr  
Leuguy, eithyr lithro yn haud alan or groth a una./ Clascy gunt a una./  
Peri cyfoc a una hefyd ani vurir y maes ne ymaith ei ulybur guaethaf./ Ei  
iscel uedy ei veruy a ylch y boly./ Afles a una ir cyla. A chubul agos o  
rinuedæ yr eil or eino yr Atriplex a vuyha./[143a]

i "Espinnachia a pot herb well known" yn 61 E.T. ar yr ymyl.

---

Yscal y moch. 115./

Yr enuæ./

Sonchus yn Latin Sowthystle yn Sasonaec Laethyscal ne Yscal y moch<sup>i</sup> yn Camberaec./

Y rhyuiæ

Deuryu laeth yscal y sy. sef vn sy uyltach pigocach a duach Ar al sy tenerach a gulydeidiach ac nid cyn dued./ Ac Apuleius aei geilū Yscal yr yscyfarnoc o bleit ir yscyfarnoc pan diphycio o dra gures ymvediginiaethy ac efo./

Y phurf./

Y laeth yscal sy a phalatr ido cyhyd a chuyd yn ceu ac ueithie yn ogoch o liu ai phruyth yn deigrny o laeth./ A dail sy ido yn vylchæ bob eiluers o ei hamgylch a blodæ melynion y rhain val blodæ y Greulys venyu a dyhoynan eb ohir yn ualtach ne yn yscarthiach gufn y vaes./

Y le

E dyf agos yn hen glodiæ pop gard ac yn enuedic yn y perlannæ./[143b]

Yr amser./

Y Mehefin ar Gorphenhaf y blodea y deuryu yscal./

Yr artempr./

Ei artempr sy meun mod uedy'r gŷmyscy. o bleit cyfansoddedic ydyu o hayn dufr a dayar a phop vn yn daran oer oi bod./

Y rhinuēd

Rhinuēd oer syd ir deuryu yscal, ac yn attal yn gymmetrol, ac am hynny y mae yn da yu dody urth duyfron ry uresoc ac y iro poethfeyd./ O dodir ei suc uy neun lymeitfuyd esmuytho cnofeyd a guascfae y cyla a una, a pheri digon o laeth./ O dodir meun gulân esmuytho ymlosc yr eistedle ar vam a una./ Cystadl yu iro ar guraid ac ar lysæ y vãn y bratho Scorpion./

Da yu gureidyn y laeth yscal rhac yr Stranguri sef yu hynny rhac yr haint gobiso./[144a]

---

i Ceir yn y llawysgrif "Yscal y moch ne Laethyscal" gyda "2" uwch ben yr "Yscal" ac "1" uwch ben "Laethyscâl". Diwygiais y darlleniad a'r treigladd yn ôl y gofyn.

---

Endif./ 116./

Yr enuæ

Intubus yn Latin, Endive yn Sasonaec, a benthygy yr vn gair ir Gamberaec: Tyb Syr Tomas ap Wiliam<sup>i</sup> mae yr Ysuyd y galun ni ei alu./

Y rhyuiæ./

Y lysæ hŷn a ohana y Latinuyr yn deuryu Sef yn dof a guylt./ Y dof y galuant yr hun ni thyfo anid truy lafur ac ystryu dyn./ Ar guylt y galuant

yr hún a dyf oe naturieth ehunan eb emyr o lau dyn ar gyueirio le ido./ Y  
guylt ynte a rennir yn duy rith: Y cyntaf a eilu y Groecuyr Picris. Y  
chueru ar Latinuyr Ambubeia. Ar lyseuyr cyphredin ai geilu Cichoream.  
Sicori sef yu hynny Ceidwad y phord/ ar rhith yr al ar dail lydain a eluir  
Hedypnois am ido ohad cyscy./ Gan ryu rei eil y geluir yn gyphredin Dens  
leonis, Dant y leu nid amgenach nac am fod emylæ yr dail val danned ne  
yscithraint y Leo./

Y phurf./[144b]

Yr Endif dof sy a phalatr phyrf ido, yn grun ac yn vylchoc ac yn laun  
cangæ ac a dail guythfoc yn deilio or bôn isaf tu ac i vyny./ Ac a  
blodeuynæ gleision ac ueithie yn union yn tyfy ymplith y cangenni/ Y rhith  
cyntaf o honau vegis y dyuetpuyd or blaen sy a dail lydain ar ys al a rhei  
culion./

Ar rhyu cyntaf or guyltion yr hún a eluir Sicori a dechrey vagluro a thardy  
oi neuyd yn ol y Cynhayaf a dail val dail Beatus yn vylchoc ac yn tyfy yn  
vynycha yn orueidioc rhyd y dayar, ac a phaladr praph yn pipel ac yn anhaud  
ei dorri, a lauer o vân gangæ ystuythion: ac a blodeun glas ac ueithie yn  
uyn yn torri alan bob vn ac vn y dân y Cynayaf yr hún a ymegyr ar diernot  
ni bo anid yn cymyloc ar gyfodiat haul ac a ymerlid ac ef yd ani el i  
vachlut./ Yn hyd y nos y tric yn gaead ar dyd yr ymegyr./ Gureidyn sy ido  
val i Heliotropium a mediginaethol ydyu./

Ar ail rhith or[145a] guyltion yr hún a eluir Dant y leo sy a luosogruid o  
dail ido yn dannedoc o pop parth ac yn gorued urth y dayar ac a guyd o  
droetfedæ ac yn chuibol, yn lyfnion ac eb gulum na chymal arnadynt.  
Blodeu melynion ac a dalênæ yn gantel<sup>ii</sup> oe ogylch. a phan heneidio  
diflanny a una yr blodæ yn ulanach a mynet y gyd ar guynt./

Y le

Y dof ni thyf anid yn y gardæ a hynny druy lafur a guaith lau dyn ac nid anhaud chuaith ganto dyfy le yd heher. Ar rhith gyntaf or guylt a dyf ym pop bán gar lau phyrð Ar ail a dyf yn y gardæ ac ymbel o ván aral ny thyfo oe uaith ehunan

Yr amser

Y dof a vlodea y Mehefin ar Gorphenhaf./ Y Cichori a dechre vlodeo yr vn amser ac a hery y dân y Cynayaf./ Dant y leo a darda yn vlodæ y Maurth ac a arosant yd yr haf./

Yr artempr./[145b]

Yr Endif dof sy lyseun gochuera, a chueraach yu y guylt noc ynte, o ba bleit y geilū rhei ef Picris, ac eil ai geilū Cichorium. Sych ac oer ydyu pop vn yn yr ail rad. Eithyr oerach yu yr vn dof na yr guylt./ Ac y mae cymysciat y gulybur lauer yn dyphodi<sup>iii</sup> y sychdur, ac etto y mae yr dau yn gyfrannol or ansauð attaliedic./

Y rhinuedæ

Y mae y rhein ol yn attal, ac yn oeri ac yn da ar les y cylaf. Wynt a attaliant y boly o chymerir uy gyd a vinegr./ Eithyr guel yu yr guyltion ar les y cylaf./ Da ydynt yu buyta ir neb a vo ry uresoc Ei cymeryd ehunain ne gyd a pheiliaid blaud haid ai dody urtho a esmuytha caethiued y calon./ Cyfaredol ydynt ir gout ac i boethder or lygaid./ Y lyseun ef ar gureidyn sy uaredaul ir saul a gafas vrath gan Scorpion./ A gyd a pheiliait blaud haid y mediginiaetha y tan idu./ Suc y lysæ hyn gyd ac oel[146a] rhos a vinegr e estung y dolur or penn./ Ar vnrhyu suc gyd a guin a dodir urth yr avu, urth y chuysigen ar poethfa or lygaið./ Y rhyu cyntaf or guylt sef

Cichorium y syđ oer ac o chymerir meun buyt ai đody urth gascl, ai suc uedy'r veruy a elung y boly yn rhyd./ A da ydyu ar les yr avy ar arennae ar cylaf./ Hefyd o beruir meun vinegr goyscary cnofeyđ y trunc a una./ Gyd a hynny da ydyu ar ved<sup>iv</sup> ne winfêl o dieithyr bod y cryd rhac cluyf y brenhin./ Cyueirio yr chuysigen a una./ Ai iscel uedy y beruer meun đufyr sy gystadl y lanhau yr merchet oe hampured ac a bair ydyn gael escor ar etiued maru./ Dant y leo uedy'r veruy a attal gyla rhyd, ac yn ambrud yr attal y boly./ A da yu rhac haint calon ac yn enuedic gyd ar had ne'r gronynnæ a eilu yr Sason Refs./ Da ydyu hefyd ir saul a vo uedy'r ymdrylio o y meun, ne rhac aduyth y cramp ne gulum guythi./ Guar[146b]edy hefyd a una y neb y bo ei natur yn cerđet gan lesced ne uendit anid ei yfed bob eildyd./ Yr had a vediginiaetha y crydie a vaco o color melyn anid nid yu ar les y Duec./

- 
- i Y mae "q" gyferbyn â'r llinell "=beraec: Tyb...William". Ni fedraf ddim dweud ai R.M. a'i rhoddodd yno.
  - ii Y mae "q" gyferbyn â'r llinell "=deu melynion...gan=". Ni allaf ddim dweud ai R.M. a'i rhoddodd yno.
  - iii Addaswyd "diphodi".
  - iv Y mae llinell doredig o dan y gair a "q" gyferbyn ag ef ar yr ochr. Ni allaf ddim dweud pwy a'i rhoddodd yno.
- 

Y Moron. 117./

Yr enuæ./

Pastinaca yn Latin, a Carot yn Sasonaec a Moron, ne lysæ Guydelic yn Camberaec./



### Y rhyuiæ

Deuryu voron y sy, vn dof ac o hun y mae deuryu drachefn vn rhyu a eluir yn gyphredin Carota. sef Moron Phreinc ar guraid cochion nei velynion a'r al yu vr Moron sathredic ar guraid gunion./ A'r rhyu guylt a eluir yn Groec Staphilinos, ac yn Camberaec Moron y meysyd./

### Y phurf

Moron y maes sy a dail ydyn mal dail y lysæ a eluir y Serfel anid[147a] ei bot uy yn lydanach no dail hūn, ac yn ochueruon. Paladr vnionsyth aggaru a siobyn arno val ar yr Anet yn torri yn vlodæ gunion a bychydic guyngoch ac vn rhvu gynhelryp peth tua liu Gaphron. Gureidvn o braphder baud a nau modfed o hvd ac yn arogloc yr hun a vuyteir uedy ei verui./ Moron y gardæ ynt ' vn vn phynyt a rhei y maes anid nad oes vn van ungoch ar y blodæ. a bod y gureidyn, yn ail yn ungoch vn y penn vchaf y vyny ar ys al yn hytrach yn velyngoch./

### Y le

Ym pop bán hayachen gar lau yr phyrð ac meun leoed carregoc ac y meun gorchglodiae gerdi y tyf y moron meysyd oei guaith ehunain. Ar moron dofion a dyfant yn y gardæ./

### Yr amser

Y Gorphenhaf ac ym mis Aust y duc y deuryu vlodæ a had a vyd cyphelyp yr Dauc./

### Yr artempr./

Guresogy a glanhay a una y deu[147b]ryu, eithyr yn hytrach y rhyu or maes

Y rhinuedæ

Had y moron maes uedyr yfed ne ei dody urtho a bair ir blodæ ar verchet ymescor./ Ac ar diot y mae yn da y haushau phord y trunc ac y esmuythau ar y neb y bo cruc yn ei ystlys, ac ir neb y bo y gout arno./ Wy dyuedant na dygon guenuyn argyoed ir saul a gymero hun oe vlaen./ Da yu y beri dymduyn./

Y gureidyn a gynpel y trunc ac a bair chuantach./ O gosodir urtho peri cahel yscor ar y ledfegyn a una./

Y dail uedy ei curo gyd a mêl ai roi urtho a garth ymaith y crugynnæ a vo ar yssy yr cnaud. Eithyr cymesurach yu y moron gardæ yu ymarfer gyd a buyt./ Wy a uasanaethan ir vn vediginiaeth anid ei bod yn uannach ei rhinued./[148a]<sup>1</sup>

---

1 Yn y bwlch sy'n bumed rhan isaf 148a, ceir gwybod gan E.T.: "The wild carrots are good to provoke Love and venery as some old writers Testifieth".

---

Y Moréla. 118./

Yr enuæ./

Solanum yn Latin, Morel yn Sasonaec ac vely y geluir yn gyphredin yn Camberaec./

Y rhyuiæ

Peduar rhyu Morel sy yn ol yr hen athraon Dioscorides a Galen. Y cyntaf a eluir Morel y gardæ, eruyd bod yn arfer gynt oei heheu gyd a lysæ yr eil

yu dody meun caul./ Ac yn aur y tyf ehunan ac o anfođ y garduyr./ Ac e a ei geluir hefyd y Morel duy sef am vod dail duon ido ne ynte am vod ei phruyth yn duy pan vo gubyl aedfed./

Yr ail rhyu a eluir Halicacabum ne Vesicaria<sup>i</sup>. s: Y Chuysigēnol dros ei vod yn duyn petheu y chuysigenny, nei ynte am ei vod yn da rhac cerric yn y chuysigen./ Ac y mae rhith al or Halicacabum uedy ei gahel yn huyr o amser a ruedy ei duyn y Germania o ulad al. Yr hun er muyn ei fod yn ohanol barthedic a elir ei alu yr Halicacabum estran./

Y trydy yn ol ei rinued a eluir y Morel hungar./[148b]<sup>ii</sup> Yr eil ai geilu y Morel cusc neu Morel y mōr gan vot yn ei gahel yn tyfy ar greigiæ gar lau'r mōr./

Y pedueryd rhyu a enuir yn Groec Manicon. sef y Morel cyndeirioc. Y lyseuyr ai geilu Solatrum mortale, hynny ydyu y Morel maruol./

Y phurf

Morel y gardæ sy lyseuluyn gulydaid, eidil ac a lauer o gesseiliæ ido, a dail duon, phruyth crynion guyrđion a guedy'r aedfeto yn duy ne yn rhudgoch yd ant./ Blodæ guynion a duc ef./

Halicacabum sy a dail val ir cyntaf anid ei bot yn led./ Ei belydr ef uedy darfo ydynt dyfy a oguyđant tu ar dayar./ Ei phruyth a duc meun codæ bychain crynion ar lūn chuysigennæ<sup>iii</sup> yn rhytgoch o liu, yn grun, yn lyfyn mal graun y grāp yr hun a blethir meun garlantæ./

Y Morel estran sy gymessūraf yn y byd y gudio a guascodi rhotfeyd o bleit y mae a changæ tra goyscaroc ido./ Dail ledhirion sy ido ac yn vylchæ./ Blodæ cannaid a chodæ mal ir Halicacabū yn cadu yr had a chyphelip yu ir[149a] pys, ne i bys y lygot, ac yn cenol yr had y cair guelet lun uedy ei dynny val cālon dyn./

Y Morel cusc sy lyseuluyn a changæ lauer ido yn deų ac yn galed mal prēn

ac yn anhaud ei torri, ac a dail breision ac yn laun afalæ bychain ai vlodæ sy du goch a maur, ac a had melyngoch meun codæ: Ac a gureidyn ai riscl yn ouridoc ac yn phyrf./

Y Morel cyndeirioc sy ai dail val dail yr Arŵoc<sup>iv</sup> ne hagen yn vuy ac a dec ne deudec o belydr hirion yn tyfy o y ar vn gureidyn yn gyhyd a pheduar cubit neu duy lath o vchter ac a siobynnæ arnynt ar lûn phruyth y pren Olif, eithyr yn eiruon ac yn vuy ac yn lydanach./ Blodæ duon ac ar ei ol nuythe phruyth val rasines yn grynion, yn duon ac ynthynt dec ne deudec o deincot ne gniuy! mal graun yr Eideu ac yn vedalion megis graunuin ne'r grâps./ Gureidyn guyn phyrf chuiboloc cyhyd a chubyd./ Ei plennir yn ein dydie ni meun gardæ yn Germania. Ar lyseun hûn a eluir yn[149b] yr Italaec ne iaith popul Rufain Stramonia a phruyth pigoc a duc yr hûn y mae rhei yn ei ady yn vn o ryuogeth y Morel ac nid o eruyd ei vod yn tebic ido anid o bleit ei vod yn cyphelypy y dail Opium. A blodæ y lyseun yma sy ac aroglæ tec arnynt val ar y Lili. A thebic nad oes vaur amrafael rinued rhyngtho ar rhyuiæ dyuethaf or Morel./

Y le

Morel y gardæ a dyf yn ampl y meun le ny bo tyuyn haul a gar lau luybræ./ Yr Halicacabum a dyf digon yn y guinlannoed: Y Morel cusc a dyf ynte meun creic leoed ac ar dued y môr. A cnaud ir Morel cyndeirioc dyfy yn y mynyded ac meun le amluc dyrnot guynt, a le tyfo y coed Platan ne yr Masarn./

Yr amser

Morel y gardæ a vlodea yn hyd yr haf hayach ar cynayaf yd aedfeda ei phruyth./ Halicacabum a duc ei chuysigennæ nei godæ ynte yn[150a] diued mis Aust ac yn cylch dechre mis Meti ai liu yn gyntaf vyd guyrd a guedy

hynny rhudo a unant./

Yr artempr

Morel y gerdi sy oer ac attaliedic yn yr ail rad a guir artemperus o ulybur a sychdur ydyu y dail./ Ar vn artempr yu dail Halicacabū./ Y Morel cusc sy oer yn y drydy rad./ A rhisc guraid y Morel cyndeirioc sy oer yn dechrey yr ail rad a sych yn eithaf yr ail rad ac yn dechre y drydy

Y rhinuedæ

Rhinued y Morel gardæ yu oeri, ac am hynny da yu'r dail gyd a pheillieit blaud haid y iro y cic druc, a yr tân idu, a chrugæ a vo yn cerdet val yr eryr./ Da hefyd ydynt ehunain uedy ei curo yu gosot urth lygaid rhonca ac y iachau dolur penn./ Ac iach ynt ar les cyla rhy uresoc./ Ei curo gyd a halen ai hiro ar chuarrennæ ai dilea uy ymaith./ Ei suc uy sy da yu gymyscu ac eli tân idu ar cic druc./ A gyd a bara y cymyscir urth ly[150b]gaid rhonca sef a chuidul yn y gongl nesaf ir trwyn ac a eluir yn Latin Aegilopi. ne i uaredy y marugic a vo yn y lygaid./ Da vyd ei defnynnu ef y meun clustiaæ./ O gosodir e meun gulan ai doddi le perthyn attal gwaedlin y merchet a una./ Ei suc uedy ei dylino gyd a halogruyd iair a vo eb gerdet anid meun tuy, sy da yu doddy ar gadach liain urth lygaid rhonca./ Yr vn rhinued ar vn nerth sy ar Halicacabum ac ar y Morel anid na thal dim ei vuyta./ Ei phruyth a yfir o bleit ido escor y tronc a charthy cluy yr brenhin./ E uescir alan suc y deuryu ac ai sychir meun guascot er muyn yr vn rhyu betheu./ Puys dram o risc guraid y Morel cusc ar diot a bair cyscy ac yn diphernigach no suc y Papi./ Y phruyth a gympel y tronc yn dra maur. A deudec hayachen or graun a rodir rhac y gout./ Peri marugusc a una ne ryu gyndared od yfir anguanec onadynt./ Yfed med[151a] yn dieiriach sy remedi rhac y diot yma./ O beruir meun guin a dala yr iscel hunnu yn y

geneu guaredy y dannoed a una./ Suc y gureidyn gyd a mel sy da y iro y lygaid rhac tyuyli./ Od yfir puys dram o risc y Morel cyndeirioc peri guelet lauer drychiolaeth digrif a gueledigaethæ godidoc a una./ Ac anid yfed puys dau dram o hanau peri cyscy val yn varu dan benn y tridie a una./ Ac od yfir puys peduar dram peri cyscy hûn Vaelgun yn egluys Rôs a una./ A gore guared yu rhacdo yfed med yn dra ehelaeth a chael ei vuru y vynyd./ Ac y mae Phucusius yn dangos y mod y darfu y dau vachgen veiru o bleit buyta graun y Morel cusc/ Iohn Eduard or Waun a dyuad y mi vuyta o dau vachgen yn tref Pennærlâc o phruyth y lysæ hên, a chyscy o onynt ac o eruyd bod vn yn vap y ureic dlaut a huythe yn meiru or nodæ yno y pryd hynny a ei glady a unaethpuyt yn y vân cyn cahel de[151b]phro ar al a dadebrod oe hûn ac a honnod val y bysei ef ar bachcen al yn buyta graun y lysæ hynn./ Elisa ap Wiliam o Benlyn a vynagod i mi mae yn caer Gurle y bysei y damuain hyn./

- 
- i Cywirwyd "Vesccaria".
  - ii Atodwyd gan E.T. ar waelod 148b: "Solanum, the herb night shade. medd Y Dictionary Etymological."
  - iii Cywirwyd "chuysegennæ".
  - iv Ceir llinell doredig o dan "Arûoc" â'r glos "Eruca" gyferbyn ag ef.

---

Y Gasuenuyn. 119./

Yr enuæ

Succisa yn Latin, Divels bytte yn Sasonaec ar Gasuenuyn yn Camberaec./ A hun yu yr lyseun y mae lauer Nasiun yn ol phuc rhyu hên chuedl yn ei alu Tammaid Diauol: o bleit y lyseuyr annyscedic ai geilû yn ei Latin uy Morsus Diaboli. Popul Germania yn ol yr vn destyn sy yn ei alu Teuffels

abbissz: ar Phrancot uythe sy yn dylun yr vn buyl gan rodi yn enu arno  
Mors de diable sef Tameit diauol o bleit sygany y mae hen chuedl  
dorri[152a] or cythraul damaid o ureidyn y lyseun hun o dra chenfigen rhac  
cael o dyn vuynhau rhinued mór rhagorol/

Y phurf./

Dau cuvyd o hyd med Phucsius vyd y lyseun hun eithyr ny ueleis i yr vn ein  
gulad ni cyhyd a hynny, a dail mal ir luynhidyd anid ei bot yn lyfnach, yn  
sythach ac ymbel dant neu urthmin arnynt, ac a blodæ rhudion a gureidyn  
luchduy val petei uedyr dameidio./

Y le.

Gnota mân ydyn dyfy yu meun mynyd tir ac meun glylnoed a thir nid arder. uy  
dyfan hefyd meun gueirglodiae a thumpathæ./

Yr amser./

Ym mis Aust y cephir luosogruid maur o honynt yn y cyfleoed a henuyd  
vchot./

Yr artempr

Nid oes ued mór chueru ydyu, ac am hynny y dygon paup deal y mae guresoc a  
sych ydyu./[152b]

Y rhinued

Nid oes vediginiaeth mór gyndrychiol y aedfedy ac y uaret plôr ar lyseun  
hun o churir yn ir ai dody urtho ne yfed y guin y beruet yntho./ Ac od yfir  
yr vnrhyu uin ne vuyta yr lyseun y mae yn da rhac doluriae yr groth ai  
pherthynas./ A hediū am vod yntho nerth i dattod a thorri, ef a arferir o

hono i rydhau a dattod tolchennæ o uæd./

---

Y Bengalet. 120./

Yr enuæ./

Scabiosa yn Latin, Scabiouse nei Macfellon yn Sasonaec, ar Bengalet, Y Clafrllys ne'r Benlas uen yn Camberaec./

Y mae Phucsius yn cyfadef na uyr ef pa enu a rodei yr Groec uyr nac ir lyseun hūn nac ir Gasuenuyn./

Y phurf./

Dail cigoc y syd ido yn vylchæ ac yn glustiaæ yn oaru anid nad ynt[153a] yn bigoc, blodæ tec hir bara a liu rhung glas a guyngoch a gureidyn praph./

Y le

E dyf agos ym pop le anid mynychaf ido dyfy meun gueirglodiaæ gulybyroc./

Yr amser

Y Mehefin cyn amser lad guair y blodeua./

Yr artempr

Yn gymeint ai vod yn dra chueru nid yu anuybot y nep ei vod ef yn uresoc a sych ac yn vn artempr ar Gasuenuyn./



Y rhinuedæ

Yr vn rhinuedæ sy arno ac ar y Gasuenuyn, a da yn bendifade ydyu y iachau  
cramēnæ ar pesuch Ac o bleit yr rhinued y geluir yn Latin Scabiosa sef yu  
hynny y Grāmennoc

---

Guden y coet. 121./

Yr enuæ

Smilax lænis yn Latin <sup>i</sup>[153b] yn Sasonaec a Guden y coet y galuaf  
vi ani chaphuy enu muy cyfadas idei o bleit yr amplet y cephir ei guelet yn  
rhuymo yr caeæ ni vedrais i dyscy gan nep etto vn enu priodol idei

Y phurf

Dail cyphelip hayach ir Eideu sy i hun anid ei bod yn vedalach hagen ac yn  
lyfnach ac yn teneuach ac a changennæ yr vn phynyt ac efo eb dim pigæ  
arnadynt ac ympleth ar coed a una hun val ys al./ phruyth a duc val Lupin  
ne lysæ yr blaid yn duy ac yn vchan ar yr hun yn oystat y byd blodæ  
guynton: crynion ac yn ampl ar hyd cubyl or uden./

Yr haf y guasanaetha hi yn luest ne yr arber ar cynayaf y syrth y dail./

Y le

Meun tumpathe y tyf ac yn ymdiruy a gurysc y caeæ y cehir hefyd./ Da  
genthei<sup>ii</sup> le lafurier a deuisaf mân med Phucusius genthei dyfy yno./

Yr amser

Yr haf y blodea ar cynayaf yr hada./[154a]

Yr artempr/

Gochueru ydyu urth ei brofi./

Y rhinuedæ./

Had hun gyd a Dorycnion od yfir puys ceinoc a dimæ o bop vn a bair medant uelet lauer o vreuduydion trapherthus./ Plinius a dyuait nad oes chuaith rhinued arnei./ Etto y mae yr Potecarieit yn arfer o sūc y Volubilis maior: (o bleit vely y galuant) yn vediginiaeth y heintiaæ guresoc ac yn enuedic ir saul a vo ar y penn neu'r lygaid./

- 
- i Gadawyd bwlch yma i gynnwys enw Saesneg.
  - ii Cywirwyd "genthey".
- 

Y Berur 122./

Yr enuæ

Sisymbrium<sup>1</sup> yn Latin, Cresses yn Saxonaec ar Berur yn Camberaec./

Y rhyuaæ./

Nid yu Phucsius yn parthy y Berur anid meun dau ryu. Y rhyu cyntaf a eilu ef Sisymbrium eb air anguanec urtho yr hun a eluir[154b] gyd ar lyseuyr cyphredin Basamita ne Mentha aquatica sef Mintys y meirch ne Mintys y dufyr./

Yr ail rhyu a eilu ef Sisymbrium Cardamine gan dody gair atto a hun a eilu

ii  
y Latinuwr y Dom Nasturtium aquaticū a hun yu Berur y dufyr./

Y phurf./

Sisymbrium sef y rhyu cyntaf sy tebic ir Mintys gardæ a phalatr peduar ochroc a mal yn guridogy vn dail ar Mintys yn vylchoc anid bod y rhein yn led ac yn vuch ei aroglæ ai vlodæ yn tyfy yn gylchæ cnaploc ac yn mynet yn coron gopoc./

Sisymbrium cardamine sef Berur y dufyr sy a dail crynion urth dechrey tyfy, eithyr guedy tyfont hetys ymohany a unant val dail yr Aruoc Paladr cau o hanner troedfed ac yn y bôn eithaf yn laun guraid ac o cesseiliae y paladr y nae ampl vaglur crychion yn tyfy alan. Blodæ gunion sy ido. A had meun codæ mal had Eruca yn dost ac yn vychan./[155a]

Y le

Pop vn or deuryu a gâr banyloed ne phossyd gulybyroc./

Y rhyu cyntaf a dyf ar ael lynnoed a chorsyd, ar ail meun phynnoniae oerion ai goferyd./

Yr amser

Yr haf ac yn enuedic mis Aust ar vnaith ar Mintys y blodeuant

Yr artempr

Y rhyu cyntaf sy uresoc a sych yn y drydy rad./ Ar ail rhyu pan sycho sy hefyd uresoc a sych yny dryded rad pan vo yn ulybyroc ac yn ir or ail rad y mae./

Y rhinued

Y Sisymbrium cyntaf sy uresoc Ei had ef od yfir meun guin a ueryd y clefyd

gobiso a maen y tosted. Torri ar y gnofa ar eigion a una./ Y dail a irir ar y neidruyd ar talcen rhac dolur or penn./ Mae uy yn da hefyd rhac brath cackun a guenyn./ Ac od yfir uy ludias chuydy a unant./

Sisymbrium calamine sef Berur[155b] y dufyr sy uresoc ac a cympe y trunc./ Ac ei buyteir yn amrud./ Y Berur hyn hefyd od irir dros nos ar vrychni ne losc haul, e ai dilea erbyn tranoed ac a elir ei sychu ynte y vaes y bore./ Ar vn phynyt y gelir ei arlyu rhac chuydic ne gusan hubach ne gyfryu osymeth a del ar uynep merchet y nos, eithyr bod yn uel ei dody urtho dros deirnos ai dynny ymaith y dyd ac erbyn penn y pedueryd diernot yd iachaa./ Ni thal hun dim y uraged beichiogon yu vuyta o dieithr uedy maru yr beichiogi, ond na uneler anid ei roi urtho e ai hescor./

Berur y coet sy da rhac maen y tosted. Ac o mynnir diphroy vn defnyner e gyd a vinegr ar ei benn ef./

- 
- i Cywirwyd "Sisymbrium".
  - ii Dilwyd "y", efallai gan R.M.

---

### Y Wilphrei. 123./<sup>i</sup>

Yr enuæ./

Stratiotes millefolia<sup>ii</sup> yn Latin,<sup>iii</sup> Mylfoyle yn Saxonaec Y Wilphrei ne lysæ yr gwaedlin, a Mildail yn Camberaec./[156a]<sup>iv</sup>

Y phurf

lyseuluyn bychan ydy cyhyd ne huy na throedfed./ Dail sy ido val draenblu cyuon adar neu yd deor a thraedæ byrrion ydyn ac yn ohanredol o y urth ei

gylyd Tra thebic yu ei byrder ai garuch ir Cumin guylt anid bod y rhei hyn yn vyrrach a bod cadair vlodæ hun yn deuach ac yn gyflounach ac a changēnos yn y bric vchaf ac arnynt siobynæ val ir Anet. Blodæ guynion bychain./

Y le

Gnota ido dyfy meun neysyd geiruon ac yn benphetur gar lau phurd a luybræ./

Yr amser

Yn hyd yr haf y blodea./

Yr artempr

Attal talm a una ac vely sych ydyu

Y rhinuedæ./

Tra da yu y lyseun hun i dorri gvaedlin gueli ac y vediginiaethy hen a neuyd cornuydon ac idu cnaud./

Ac arfer y mae y medygon on oes ni o gymryd y Wilphrei y iachau[156b] pop rhyu ueli ne archol, ac y datot gvaed a pherro ne a grino ynghyt ac attal gvaedlin anianol y merchet a una./

- 
- i Ysgrifennwyd "Stratiotes knights wounds woort or water yarrow or water sengreene" uwch ben yr enw. Gwnaethpwyd hyn mewn llaw gyfoes. Yr un un llaw ydyw ar un a ysgrifennodd adrannau "Lupines", "y Pumarcholl" a "Mantell fair".
  - ii Ychwanegwyd "Achillea" yma gan y llaw y cyfeirir ati yn y nodyn uchod.
  - iii Atodwyd "yarrow" yma gan y llaw y cyfeirir ati yn nhroednodyn "i".
  - iv Ar waelod 156a y mae'r llaw y sonnir amdani yn y troednoduadau uchod yn rhoi y paragraff hwn:  
"Achillea yarrow or comon Milfoyle"

y llyssiewyn hwn a gađ yr enw hwn odiwrth filwr arđerchoc Achilles gwroldeb yr hwn a đangossir mewn llyfre o waith Homer. Achilles wedi i đysgu gan Chiron o rinwed y llyssiewyn hwn a iachad Telephus mab Hercul...".

Collwyd diwedd y paragraff wrth i'r ddalen gael ei thorri, pan rwydwyd y llawysgrif.

---

### Y Garlec. 124./

Yr enuæ./

Allium yn Latin, Garlec yn Sasonaec, a Garlec yn Camberaec./

Y rhyuiæ

Tri rhyu Arlec y sy. Y cyntaf yu Garlec y gardæ sef y Garlec cyphredin./

Yr ail a eluir yn Latin Allium sylvestre, sef Garlec guylt a hun a dyf oe natur ehun yn y meysyd ac yn y coedyd./ Ac o hun y mae drachefyn dau ryu./

Ac hefyd y trydy rhyu or Garlec a eluir yn Latin Allium vrsinum yn Sasonaec Rammes, ne Ramseyes ac yn Camberaec y Cra ne Cra dynion./

Y phurf./

Y Garlec cyphredin a dyf yn y gardæ ac a dail guyrdion val ir Cennin a[157a] phalatr crun cau, ei vric yn peleny o vlodæ ac yno o had ai ureidin yn gnaf o euined ne gniuyt bychain a philion yu amuisco oe gogylch ol, a philionennæ gohanredol yn gyfung rhung pop vn ai gilyd a gureidiach crychion ar y talcen isaf ydynt a phurf dygyn ac aroglæ phraethdost./

Y Garlec guylt sy a dail hirion gogrynon ac o y meun yn chuibol nid ancyphelip ei gued i vruyn, paladr aduyn lyfyn, ac yn duyn blodæ rhudgochion ac a thopyn hynot rhung ei liu ai lun ac a gureidyn clupagoc

val ir Bulbus yn gyssyltedic o euined ar brigyn vchaf yn vn phluoch o ualt./

Allium vrsinum sef y Cra sy ac aroglæ medal ac a dail mourion ac yn gyphelip ir lyseun a eluir yn Latin Ephemelum non lethale ac a blodæ guynion yn ei vric ac a phên taran eiðil./

Y le

Y Garlec cyphredin a blennir yn y gardæ. Y guylt val y dyuetpuyt or blaen a dyf yn y meysyd Ar Cra yn y coedyd. Ac yd y dau im cof a mi yn vachgen yn suyd[157b] Lancastr myfy a uelais yr ail rhyu yn tyfy yn y gardæ uy ac euin nân ar y penn vchaf ido a garlec Mair y galuent./

Yr artempr./

Y Garlec ynt sychion a guresogion yn y beduared rad./

Y rhinued

Y Garlec a uresoga yr corph ac a oyscar dryc ulybyroed ac a ohan ulybyræ lysnafedoc./ Garlec uedy ei veruy duy uaithe ne deirguaith meun dufyr a ymedy ai dosted ac er hynny ni chyl ei rinued ar teneuhau petheu trysclin. Eithyr e anguanega ei nerth druy hynny cyd boed anhaud ei deal y doddi maguriaeth ir corph yr hyn nisgunai cyn ei verui./ Nid yu Garlec vuyt da yn vnic eithyr mae yn vediginiaeth da hefyd o bleit e elung y caeth ac a ei goyscar i vaes./ Cyfryu vuyt ydyu y garlec a oyscar uynt ac ni phar sychet./

Y garlec guylt ne arlec y brain val y mae yn vuy grym rhinued pop lyseun guylt, a bair i bryfed lydain[158a] vynet alan or boly. ac o chymerir y gyd a buyt ef a bair vrin ne drunc, ef a ueryd rhac brath guiper./ A da ydyu ei vuyta nei doddi urtho rhac brath ei ne anifal cyndeirioc./ Y mae e

yn da hefyd rhac yr argyoeđ a dychon damuain o adail tir sef o neuidio dufyr ne ulad./ Ef a eglura y leferyđ ac a dyrr ar hēn pesuch anid ei gymryd yn ambrud ne uedy ei verui. Ac od yfir gyd ac iscel Origan e difa yr lau ar ned./

Ludu garlec guedy ei losci a iacha yr ysictot ar cleisieu a del o phornodiae o gosodir gyd a mel urtho./

A gyd ac oleo Spicnard y gueryd rhac arfoeli, gyd ac oleo a halen yđ iacha y plorot, a chyd a mēl y dilea yr haint yscen marudon, brychni a chornuydæ gulybion y penn, ar cluy maur./

Aroglæ garlec a ŷr ymaith scorpion a nadroed./

Mūc y garlec a bair y guaedin naturiol y gerdet ar verchet ac y uely yr etiued ymescor./ Ar vn peth a damuain od eistedant ar vchaf iscel y garlec a chyfryu[153b] lysæ ac y mae yr vn rhinued hōn arnynt./ Garlec uedy ei verui meun laeth neu ei vriuo ai gymyscy a chaus medal a lestairs yr gulybyroed descen a eluir Catarh./ Ac y mae e yn da rhac crygi./ Yr euined bychain uedy ei torri meun vinegr ai sengi yn y dant sy da rhac y dannoed. E dyrr hefyd y uŷn o rhostir ai doddi yn y dannoed os y uŷn a vagod o ormod gulybur./ Vn pēn garlec od yfir gyd a gureidyn Angelica ne'r Pelitori o Yspaen yr hun a eluir hefyd Magistrantia sy da rhac y cryd a dau ar gylch pop peduar diernot./

E bair gyscy ac a uridoga liu yr corph ac a drythyla od yfir gyd a Coriander ir ne uin cadarn./ Ac e dyuaid Plinius y gueryd e y geg ar iair ne geiliogot./ Garlec sy iach rhac y Colic a dēl o uynt, ar dolur clūn a dēl o phlēm./ E deneua y maguriaeth a'r guaet./ Eithyr druc yu yr neb a vo o anian guresoc ymarfer ar garlec o bleit eniued ir goluc, ir pēn, ir escyfaint ac ir arennae a una./ Druc ydyu hefyd ar les guraged beichiogon ac ar les plant a vo yn sugno[159a] A garlec med Galen yu triacl popul y ulat./<sup>i</sup>



---

i Gadawyd o gwmpas chwarter y dudalen yn wag cyn dechrau'r adran wedyn.

---

Phicusprén. 125./

Yr enuæ

Fficûs yn Latin, a Ffigtree yn Sasonaec. Prén phicus yn Camberaec./

Y phurf

Y phicuspren dof id prén nid yu dra vchel cyd capher rhei tra mourion eb ady rhagor meint ir Gelycprén. paladr byrr rhiscyn lyfyn a phabuyryn cigoc dail mourion guascaroc a bylchæ dyfnion eb vlodæ ai phruyth yn tyfy goruch bôn y dail yn dancydæ bychain, yn vedal ac a graun oe meun ac a suc laethoc pan aedfetuynt, guedy hynny val mêl vyd. Guraid lauer, hirion a throuision./[159b]

Y le

Phucusius a dyuait vod yn ei planny yr ourhôn yr rhyu prennæ hynn meun gardæ yn Giermania ei ulat ef ac nad oes nemor yn duyn dim phruyth aedfet. Yn tref Aberconuy ac yn y Maes glas yn Tegeingl y mae y pren yn tyfy i ein gulad ninneu. ac meun manneu yr eil./ Daf<sup>i</sup> gan y pren hûn le guresoc a brôn haul: ar pren yma sy vn or rhei teneraf<sup>ii</sup> a muythusaf or y syd a gelynnieth ido reu ac oerfel./

Yr amser./

Ym pel or gwanuyn y baglura ne ychydic o vlaen hirdyd haf./<sup>iii</sup>

Yr artempr./

Y Phicusprén sy o artempr guresoc ac o rannæ teneu val y dengys ei leithder ai suc ei dail./ O bleit tra guresoc yu pop vn or dau./ Ar phicus hefyd yn irion ac yn sychion ynt uresogion<sup>iv</sup> yn y rad gyntaf neu yn dechrey yr ail ac v maent uy yn sychion ym perfed y gyntaf./[160a]

Y rhinuedæ

Y phicus aedfet ac yn irion ynt druc ar les y cyla, Peri yr boly yn rhedegoc a unant, eithyr haud vyd attal a unelont uy. Peri chuysy a thryscled ar vorph a unant, eithr torri sychet a diphod gures. A guedy sychon nagv gures a pheri yn hytrach sychet a magurieth a bod yn da ar les y boly. A druc ydynt ar les cyla ne voly rhedegoc. A da ar les y sefnic, pipel yscyfaint, ner corn breuant, yr arenæ ar chuysigen A mlyn vydant ir saul a darfu ydynt ysbrychy gan hir nyctod ac ir neb y bo diphic anhetl nar haint diguyd nar gout druc urtho./

O beruir uy gyd ac hyssop ai hyfet uy garthant yr ampured a vo yn y duyfron./ Y maent uy yn iach ar les hen pesuch ac ar les hir glefyd or yscyfaint./ Medalhau yr groth a unant o churir uy gyd a salpetr a saphran ac yno ei buyta./ Ei iscel sy da i dorri poethder y geneu ar munugl o y meun anid ei dala[160b] y voglym<sup>v</sup> yn y gæg./ Beruy phicus gyd a Rut ac yfet yr iscel a esmuytha ar y cnofeyd./ Phicus a duy yr creyd a iacha esceiræ a vo yn rhedec a chyfryu ac a vo anhaud ganthunt iachau./ Ac o beruir uy meun guin y gyd a uermod a blaud haud ai hiro ar y gout mediginieth ido vyd./ Curo phicus ambrud meun mustard gulyb sy da yu dody yn y clustiaer er guaret a dadurd a chosi./ Suc y phicus guylt val y dofion a bair megys<sup>vi</sup> y couair ir laeth geulo ac ai dadmer val vinegr uedy ido

vynet yn gaus./

Suc y phicus gyd ac almons uedyr curo ai hyfed guedy a rydhaa yr boly./ Suc y phicus a nelyn uy o gosodir urth y le cyfaðas a bair y gwaedlin naturiol yr merchet./

Y sŷc gyd ac yud o beilieit a dufyr a garth ymaith y cluy gohanol, haint yscen, y brychi o ŷaith yr haul a chramennæ ac afiechyd y marudon./ Ar suc yma hefyd sy da yu defnŷny yn y vān le bratho scorpion a phryfed guenyneic ne pi cyndeirioc./ Ei gymeryd meun gulan ai dody urtho syd[161a] iach rhac y dannoed./ Dileu plorot a<sup>vii</sup> una od irir ar suc hŷn gyd a braster oe gogylch./

- 
- i Dilewyd yr "f" yn y gair gan law ddiweddarach yn ôl pob golwg.
  - ii Cywirwyd "tyneraf".
  - iii Y mae "q" gyferbyn â'r is-adran hon. Ni allaf ddweud ai R.M. a'i rhoes yno.
  - iv Rhoddwyd nodau dileu o dan yr "ion" yn "uresogion" a bachau petryal am y tair llythyren. Ni allaf ddim dweud ai R.M. a'i rhoddodd yno.
  - v Ar waelod 160b o dan y geiriau cydio "y voglymy", ysgrifennwyd "gargarizare" gan R.M.
  - vi Addaswyd "megis".
  - vii Addaswyd "i".

---

Louaeds. 126./

Yr enuæ./

Smyrnion yn Groec a Latin, Louage yn Sasonaec ac ni ŷn i dim anid Camberaec venthic mal y mae'r ieithoed yr eil y gan ei gylid

Y phurf./

Paladr y sy ido mal ir Esmalaeds a lauer o geinciae oe ogylch a dail lydanach nac ir Esmalaeds yn goguydo tu ar dayar, govreision cryfion arogllost ac o liu melynuelu, topiae ar y brigae mal ir Anet. Hadae crynion duon a blas tost. Gureidyn tost, arogloc, tener sucoc yn brathy/r/bochae duy o y alan, gunlas o y meun neu orufn./

Y le

Y mae yn tyfy hedyu yn y gardae yn gyphredin hoph gantho le gulyp./[161b]

Yr amser./

Yr haf y blodeua./

Yr artempr./

Guresoc a sych yn y drydy rad yu./

Y rhinuedae./

Naturieth uresoc sy ar y lyseun hun ef ar guraid ar had./ Y dail a vuyteir val y caul. a rhuymo yr boly a unant./ Y gureidyn oei yfed sy da rhac brathae nadroed, a rhac y pesuch./ a diphic anhetl a ueryt./ Mediginieth ydyu rhac anhauster guneythy dufyr./ Od irir uy arno iachau a una gornuydyd a chuarennae caledion./ E bair i ueliae greithio./ Ei had sy da ar les y Duec, yr arennae ar chuysigen./ E escor y blodae ar ail geni./ Gyd a guin y guna lesaad rhac y guayu yn y glun yr hun a eilu rhei or medygon Cambereic y Sitic ne y Siatic./ Chuys a bretheirio a bair e: ac ar diot y mae/r/had hun yn enat dim yn gyfared iach rhac y gout a'r cryd./[162a]

Saeds gūylt. 127./

Yr enuæ

Stachis yn Groec a Latin, Ambrose yn Sasonaec ac urth y Phrancaec y dyscun y ei galu yn Saeds gūyltion ne Saeds y mynyd ar hen enuæ Cambereic ynt y Veduen chueru, ne y Chuerulys.

Y phurf./

Lyseulwyn tebic ir môr danat anid ei vod yn vuch a dail laured eithyr yn hyl a geiruon, caledion, arogloc ac yn luyd, a lauer o yspyr ynt y tyfy o y ar yr vn gureidyn a muy gūynnach ynt na'r môr danat, ac o amgylch bric pop vn y mae blodæ gūngochion yn tyfy yn vodruyæ./

Y le

Meun leoed geiru meun mynyded a brynæ y tyf y lysæ hynn./

Yr amser

Yr Mehefin ar Gorphenhaf y blodea./

Yr artempr./

Y lysæ hyn sy a blas chuerudost arnynt a guresoc yn y drydy rad./[162b]

Y rhinued

Iscei y dail sy da yu yfed yn vediginiaeth y gael escor y blodæ ar ail geni./<sup>1</sup>

i Gadawyd tua chwarter tudalen o fwllch cyn adran 128.

---

Rhŷc. 128./

Yr enuaë./

Secale yn Latin, Rye yn Sasonaec, a Rhŷc yn Camberaec./

Y phurf

Y rhŷc sy lysæ digon cydnabyddŷs gan y bobyl anyscedic, huy ac aifilach ydyu ei gyrs ef na chyrs y guenith ac a pheduar culum arnynt or hŷn rynyachaf ac a thyuys pengeinion a lyfnach ei cŷl nor guenith a gronnnae ar uynep y man usot a dæis ar dihitlo ac yn dudrist./

Y le

Rhyc a dyf ym pop tir hayach anid[163a] ei urtheithio. Eithyr nid aduaen i dir yn Cymbry na Loecr yn dŷyn rhyc eb dail na gurteith mor rhagorol a thir plas Leueni./

Yr anser

Y Mehefin y blodea diued Gorphenhaf y metir eithyr ef vyd ueithie dan uythnos o Aust ne fuy eb aedfedy vegis y bu yr haf 1555. dan y deudecued o Aust eb vedi yn Leueni./

Yr artmpr

Yd ys yn gady y rhyc yn uresogach na'r guenith ac etto yn dioerach na'r haid./

Y rhinuedæ./

Mae yntho ryu natur ledfdra ac attegy ac am hynny y byd trum ar y duyfron y bara a uneler o hono o dieithyr gogrynnny yn vanal y rhuchion a rhudion alan o hano. Am ei rinuedæ yr eil chui eluch ei cahel ac yspysruyd andanynt le yd escrifennir am y guenith ar haid./[163b]

---

Y Laulys. 129./

Yr enuæ

Staphis agria yn Groec ac Herba pedicularis et Pitintaria yn Latin, sef y Laulys ne y Poerlys ydyu yr geiriæ hynny yn Camberaec: ai alu vely a unair am vod ei rinued y difa lau ac y beri poer./ A bid deheach genym ni ei alu vely no dylyn dieithruyd y Groec eb achos mal y mae yr Sason gan ei alu Staues acr./

Y phurf./

Dail crafangoc val i Labrusca a saith dalennoc or mynychaf syd ido a phaladr vnion medal duy ac a blodæ mal Isatis sef y Woad a<sup>i</sup> chibæ bychain bruynerd ac ynthynt had triochr duy a naus rhygoched yntho ac o y meun yn uŷn a blas tost./

Y le

Plinius a dyuait tau meun le bo guascot y tyf vo. Ac y mae rhyu o hano yn tyfy meun lauer o ardæ[164a]

Yr amser

Yr haf y blodea./

Yr artempr./

Can ys bod nerth y lysæ hŷn y loscy rhaid ydyn vod yn uresoc yn y pedueryd rad./

Y rhinuedæ

Pempthec gronyn or hadæ uedy ei curo meun dyfrfel a bair gyvocy y gulybyroed ampur y vyny./ Eithyr rhaid ir neb ai yfo vynny rhodio./ A dir vyd hefyd ei discuyll yn dyfal a dody med ido yu yfed o bleit pericl tagy: a loscy y bochæ a una<sup>r</sup> had hunnu./ Ar vnrhyu hadæ uedyr curo ai iro gyd ac oel a difa lau, ac a vediginiaetha ymgos a chlaur./ A rhyfed yu maint y poer ar phlêm a barant y dystilio yn y geneu pan gnoer uy: a gyd a mel yd iachant haint y geneu./ O beruir uy meun vinegr a golchi yr danned torri yr uyn a una./ Attal dryc ulybyroed a rheun rhac guneythyr eniued yn y geneu a chic y danned a una./

Y blodæ uedy<sup>r</sup> curo a yfir ar lŷn[164b] rhac guenyyn y nadroed./ Rhai a ira y lyseun urth vrath nadroed: rhai yr eil a gymer suc y lysæ ef ac oleo ac a irant y penn ne yr corph y bo lau druc urtho./ Ef elir hefyd ei veruy meun guinegr ai daynely rhyd y dilad er guared yr atcasruyd yma./

---

i Dilewyd "had" ar ôl y gair hwn.

---



March yscal gardæ./ 130./

Yr enuæ

Carduus yn Latin, ne Cinara: Archichok yn Sasonaec. a Marchyscal y gardæ y galua vi ef yn Camberaec./ O bleit defot y Groeguyr ar Cambry ydyu dody march ar beth anveidrol ei veint: O bleit y tafol muya a aluant uy Hyppolapathon, y Mieri mourion a alun ninnæ y Marchfieri. Ac vely pa am na alun ni alu yr yscal rhagoraul o veint yn Varchyscal?/ Ar gair yma gardæ a rodeis yn estyn yu gohany uy o y urth yr yscal guylt ac y<sup>i</sup> duyn cof na cheisier diu hanyn yn tyfy yn y meysyd[165a]

Y phurf./

Vn phurf yu ei dail ar yscal du guylt anid ei bod yn duach ac ynn phyrfach ac a bylchæ tra dyfnion ynthynt: palatr hir yn laun dail ac arno dopyn yn euined pigougion yn beithynnedic ar ei gylyd yn uyardion o y alan ac yn discleiruyrn o y meun./ Blodeun rhuigoch yr hun a dyhona ymaith mal pluennot gunion./ Ar topyn pan heneidio a ymegyr yn euined rhiscynoc gan dinoethy yr had yn vnued a had Cnicus. Gureidyn dubraph ai meithric./

Y le

Nid yu y rhyu hun ar yscal yn tyfy yn vnle yn ein guledyd ni odieithyr yn y gardæ yd hehir./

Yr amser

Ynghylch hirdyd haf y blodea yr amser med Hesiodus y byd lafara lef y ceilligot rhedyn./

Yr artempr./

Guresoc ar diued yr ail rad neu yn dechreat y drydy yr hun artempr med Mr  
William Turner ny vedrei ef[165b] dya! vod y lysæ yma sy yn tyfy ynn  
Loecr./

Y rhinuedæ./

Aetius a dyuait am ureidyn y Marchyscal dofion o beruir meun guin y par y<sup>ii</sup>  
lauer o drunc dreuedic ymady ar corph. Ac am hynny y gueryd yr ol corph  
rnac trum aroglæ./ Galen sy yn doedyt mae magurieth druc a dyry y lysæ  
nynn y gorph dyn. Ac am hynny gorau yu ei buyta uedi ei berui gyd ac oleo  
a guin./ Plinius a dyuait, o chymerir y lysæ hyn ar uin y parant  
anladruyd. Eithyr med mastr Turner vod yr vnrhyu Plinius yn testiolaethy  
vod yr hen auturieit Hesiodus ac Alseus yn dangos megys<sup>iii</sup> y anguanega y  
lysæ yma ar uraged chuant guyr ac yn y gurthuynep y leihaa yr vn rhyu  
chuant ar uyr./

- 
- i Addaswyd "i".
  - ii Addaswyd "e".
  - iii Addaswyd "megis".
- 

Y Gloria. 131./<sup>i</sup>

Yr enuæ./

Sphatula foetida yn Latin, Gladdon yn[166a] Sasonaec ar Gloria yn  
Camberaec./

Y phurf./

Dail val dail y phlour de lîs ne'r Elestr syđ ido anid ei bod yn lai ac yn gulach: ac y mae pelydr ido ym perfed y dail yn dŷyn codæ a had ynthynt nid ŷn antebic ir Pioni benyŷ ac guedy'r aedfedy y cephir guelet yr had yn ronynnæ crynion rhudgochion yn y codæ ledhylic a gureidyn a lauer o vanuraid yn tyfy o y arno./

Y le

Hun a geuch chui ei uelet uedyr blanny meun conglæ lauer o ardæ a pherlannæ./

Yr amser

Ei phruyth ne godæ a duc e y cynayaf ac yr ymagor gan dangos ei ei had./

Yr artempr

Cyn dosted ydyu ei ansauđ ac y clyu dŷn ei vochæ mal yn loscy pan guro./  
Wrth hynny y mae yn eglur mae guresoc a sych ydyu./

Y rhinuedæ

Cyphelip nad anghyspel ei rinuedæ[166b] o y ŷrth y Lauyls ne'r Poerlys. Crafy gantho a ŷna yn dirfaur. ac am hynny y mae ei suc yn vediginiaeth tra budfaur rhac claur ne grammennæ./ Ei dail ef aei gangæ a dyn beth alan eb dolur mal y gŷna Xiphium a Xyris. E lad hefyd y pryfed a eilu y Latinuyr Cimices ac aei gyrr ar pho./ a chynrhon medir./<sup>ii</sup>

---

i Ysgrifennwyd "q" o flaen y llinell hon, o bosibl gan R.M.  
ii Atodwyd "a chynrhon medir./" yn ddiweddarach.

Gualt y voruyn. 132./

Yr enuæ

Capillaris yn Latin, Mayden hayre yn Sasonaec, a Gualt y voruyn yn Camberaec./

Y phurf./

Surn tebic yu Gualt y voruyn i Redyn gur ryu y rhein a eluir Rhedyn Mair anid bot pelydr y rhei hyn ai dail yn eidilach o lauer./ O bleit nid muy ei dail no dail Lenticula ne bys y lygot a thyfy a unant yn duy restr vychain val maint phyrtingæ[167a] or bôn yd y bric aei traed groes yn groes ai pylyd, Ei pelytr sy gyphelin i urych ludyn huch a liu luchdu yn discleirio eb duyn blodæ na had./

Y le

Tyfy a una'r lysæ hyn ar creicleoed ynust le ni bo tyuyn haul ar hyd nuroed gulybion ac ar oror phynnoniæ a mynych y tyf le tyf Tafod yr hyd. Ac y bont vaen ar Lugu y gueleis i lauer yn tyfy

Yr amser

Yr haf y codir a dechre cynayaf./

Yr artempr

Cymmetrol o ures ac oerfel yu Gualt y voruyn eithyr peri sychy a una, teneuhau a thodi ne dreulio./

Y rhinuædæ

Iscei gualt y voruyn sy da rhac diphic anhetl, rhac mynych vcheneidio, rhac

y Duec, rhac y cryd melyn a rhac anhauster guneythy dufyr. O bleit e dyrr maen y tosted./ E dyrr y phlux ne<sup>r</sup>[167b] Darymret./ E ueryd rhac brath neidr ne bryf guenyunic. E vediginaetha gyla rhedegoc od yfir ar uin, e dyuys yr ail geni ar blodæ ar verchet: E attal rhac chuydy ne poeri yr gwaet./ Y lyseun yn ambrud syd da i vediginaethy brath pryfed guenyunic o dodir urtho./ E adleinu yr arfoeled a gualt ac a dilea blorot a chuarennæ: a gyd a leisu y mediginaetha y warudon ar cén o y ar y pén./ E achup y gualt rhac syrthio o chymyscir a Ladanum ai dody arno y gyd ac oleo myrt, oleo Lili nei gyd ac Ysop a guin./ Iscel yr vnrhyu lysæ meun leisu a guin a ueithia yr vn rhinued anid golchi yr penn ac uynt./ O rhoir y lysæ hynn ymplith buyt soflieir a cheiliogot e bâr ydynt ymlad yn greulonach noc y gunæen ebdo:/ Y lysæ hyn hefyd a escor ulybyroed teu uydyn or duyfron./[168a]

---

Yr Orpin./ 133./

Yr enuæ

Telephium yn Latin, Orpyn yn Sasonæc, a<sup>r</sup> Orpin yn Camberæc./

Y rhyuiaæ./

Yr hen autur Groec Dioscorides sy yn guneythy deuryu or lysæ hyn vn a blodæ gunion yr hyn a eluir yr Orpin gūyn. Yr al a blodæ guridougoch yr hun er gohan rhyngto a alun yr Orpin guridoc./ Ac eb lau bod y deuryu hyn yn ymrafaely liu ei blodæ etua y mae ail amrafael ar ei dail o bleit le mae dail y cyntaf ynn uyrðion y mae dail yr ail yn ueluch, cubyl onid hyn

sy yr vn phynyt ac yn enuedic ar y dail puy rei ynt uir gyphelip y dail y  
pha pe nad brasach a theuach./

Y phurf./

Vn dail a phaladr ar Purslan yu yr Orpin ac yn tyfy bop duy a duy a phob  
eiluers yn croesæ. a chuech nei saith o gangæ a dyf o y ar yr vn  
gureidyn yn laun dail gleision teuion cnodic. Blodæ melynion  
guyn[168b]nion ne uridogion a blaenæ yr gureidyn yn laun cygnæ./

Y le./

E dyf yn y perlannæ ac meun leoed goleith a lafuriet./

Yr amser./

E dard alan y guanuyrn yn ogŷnar ac a vlodea y Gorphenhaf a mis Aust.

Yr artenpr./

Yr Orpin sy sych yn yr ail rad nei yn diogel yn dechrey y dryded eithyr nid  
yu or guresockaf./

Y rhinuedæ./<sup>i</sup>

O dodir ei dail urth yr yscen nei'r tardgrach a vo ar y corph y aros dros  
chuech aur ai iro guedy a blaud haid iach vyd./ Y mae yr lyseun yma yn da  
hefyd rhac brychæ melynion ar y croen ac y iachau gueliae a chornuydon  
gorlyt ac y attal guaet rhac cerdet ac y vediginiaethy vn rhyu or  
Vors./[169a]

i Ysgrifennodd E.T. yn ymyl "yscenn. Scurff in the head", ac ar ddiwedd yr adran "vulnary Burning Erosions &c".

---

Beatus. 134./

Yr enuaë./

Beta yn Latin, A Beete yn Sasonaec, a Beatus yn Camberaec./

Y rhyuiaë

Deuryu Veatus a unant vn guyn ar al duy. Enu y guyn gyd a rhei or Latinuyr yu Sricula ne Sicla. ar duy a eilu guyr Germania roter Mangolt ac syd yn aros y liu

Y phurf

Paladr guialennoc sy ido daugyuydol a dail agos ne debic y dail Atriplex, blodæ bychain melynion, had ampl ar hyd y pelydr, vn gureidyn hir yn ymestyn rhacto a mân ureidiach lauer yn edafed urtho./

Y le

Y Beatus a dyf yn y gardæ a le y lafurier ydyn./

Yr amser

Y Gorphenhaf ac Aust y blodeant ac yd hadant./

Yr artempr

Simeon Sethi a dyuait mae guresoc[169b] a sych yn y drydy rad ydyu a hod

talm o natur attal yn y Beatus duy./

Y rhinuedæ

Y Beatus duon a veruir gyd a Lentilla y attal y boly: a gore y gueithia y gureidyn./ Y Beatus gunion sy da ar les y groth eithr nad da naus suc yr vn or deuryu o bleit anian y salpetr nei<sup>r</sup> haled sy ynthynt, eruyd pa am o burir ei suc gyd a mel yn y phroenæ carthy yr penn a una ac iachau dolur or clustiaæ./ Iscel y gureid ar dail a dilea y marudon ar ned ac a esmytha y cibysæ./ Y dail ambrud a ueryd y brychæ melynion ar arfoeled o rhuglir uy yn gyntaf a salpetr: a da ydynt rhac lindard a vo yn yssu y cnaud./ A guedy ei berui yr hausaant ar y plorot a vo yn torri alan, a losc tân, a phoethfeyd a vacco o ures y color./ Yd ys yn deal vod suc y Beatus a natur clasgy ymaith yntho, yn gymeint ac y pair ir boly vod yn rhedegoc ac y brath y cyla ac yn enuedic hychuimp[170a] ne hyfriū, ac am hynny y mae yn vuyt druc ar les y cylaf o buvteir dogyn maur o hano./ Bychan yu magurieth y lysæ hynn ac vely ydyu am lysæ pottes yr eil: Eithyr y mae yn da rhac tagiad yr avy ar Duec./ Y Beatus ynt o dau amrafael anian: y suc sy uresoc ac<sup>a</sup> attal y boly ac a bair sychet: Eithyr ei corph id o rannæ didenau yn uyntoc, yn oer, ac yn anhaud ei dreulio

Suc y Beatus duon syd da y beri vrin nei<sup>i</sup> drunc: a da ydyu hefyd rhac Daryuret anid ei derbyn y meun./ Ac e dyrr ar uyn y dannoed od irir y daint./ Ac y mae yn rhinuedol rhac brath neidr./

---

i Addaswyd "nec".

---



Y Liulys./ 135./

Yr enuæ

Tinctorius flos yn Latin <sup>i</sup> yn Sasonaec ar Aur Vanadl, y Liulys ne yr  
Lysæ liu yn Camberaec./

Y phurf

Nid antebic ydyu ir Banadl a changæ[170b] val brwyn ac yn eiruon ei dail  
hagen yn huy ac yn lydanach no rhei y Banadl ac agos yn tebic i dail yr  
Ysop a blodæ melynion val pys a had meun codæ val pys y ceiru./ A  
gureidyn prenn ido./

Y le

Ar le vchel y tyf ac meun leoed sychion or ni theithir ac meun lauer  
gueirglod./

Yr amser

Y Mehefin ar Gorphenhaf y blodea ac ar chuaen yr hata./

Yr artempr

Chueru ydyu yn vnued ar Banadl val nad aneglur mae guresoc a sych yn yr ail  
rad ydyu./

Y rhinuedæ.

Megis y mae hun yn vn phurf ac yn vn artempr ar Banadl bid dieu mae yr vn  
rhinuedæ sy arno ac hynny edrych amdanynt yn ei cyfle./

i Gadawyd bwlech i gynnwys yr enw Saesneg.

---

Y Meillion. 136./

Yr enuae

Trifolium pratense yn Latin Three[171a] leued grasse yn Sasonaec ar Meillion yn Camberaec./

Y rhyuiae

Tri rhyu a pair yn tyfy yn y gueirglodie gyd a ni, Y cyntaf o nadynt a eluir Meillion y meirch ond ni a debygun nae yr March veilion y dyleit ei galu yn iaunach./ Yr ail urth liu ei blodae a eluir y Meillion gunion./ Ar trydy a eluir y Meillion melynion./ Od edrychir ar dail y rhein ol nid oes ormod rhagor nac amrafael y rhythynt. O bleit pob vn or tri rhyu sy yn dair dalennoc anid ei bot yn lydanach ir cyntaf, yn huy ac yn gulach ir ail ac yn ueluch ne<sup>i</sup> uynnach, Ac ir trydy yn lai ac yn grynnach./

Y phurf./

Paladr crun cyhyd a chufyd sy ydynt cangae eidilion a dail yn drloed a darnae lymion or paladr y rhythynt: A blodae ar y bric ail ai yn rhudgochion ai yn uynion ai yn velynion Gureidyn hir ac yn brenn./

Y le

Y gueirglodiae a vyd yn laun o hanynt./[171b]

Yr amser./

Ym Mai ar Mehefin y blodeant./

Yr artempr./

Dangos a unant urth ei profi vod anian attal ynthynt, anid nad tra maur:  
mal y galant vod o rannæ teneu o bleit ef elir guybot arnynt ei bot megis  
yn gyfrannol o dalm o vlas tost./

Y rinuedæ

Dinaa yu vod arnyn dalm o rinued y beri sychy ac y beri ir buyt verui: mal  
nad yu yn erbyn rhesun ir lyseuyr or to dyuethaf yr ourhôn dyuedyt mae da  
yu'r Meillionæ hyn ar les anhuyl y merchet. Ac o dodir yr vnrhyu lysæ  
urth y bo poethfa, uy aei aedfedant./

---

i Cywirwyd "ac yn".

---

Teim. 137./

Yr enuæ

Thymus yn Latin, Thyme yn Sasonaec. Teim yn Camberaec./[172a]

Y phurf

Lyseulwyn cangoc ydyu a luosogruyd o dail culion bychedigion aei vric yn  
laun blodæ guridogion aroglbêr ar lun margruc yn cycglyn a gureidyn prenn  
a lauer o attu guyrðion urtho pa eruyd y gureidia yn y dayar./

Y le

Tyfy a una meun tir teneu caregoc: ac nid da ganto na le bras, na le teiluyd, eithyr gore ganto vronn haul. Yr aurhonn y mae yn tyfy meun lauer o erdi./

Yr amser

Blodeo yn huyr a una nid amgenach nac yn cylch yr hirdyd pan yu y guenyn yn mela ar goel ar y mêl./

Yr artempr

Y Teim sy dirfaur uresoc ac y vely yn uresoc a sych yn y drydy rad y mae cymuys ei adel./

Y rhinuedæ

Ei yfed a uneir gyd a halen a vinegr y dyuys phlem druy yr[172b] boly./ Ei iscel ef a una les rhac cyfyngdra duyfron nei diphic anhetl./ E bar y lyngyr y boly, yr blodæ, yr plentyn ef ai uely ymescor./ E bair vrin. E dilea y defeit a vo yn ibin./ E ueryt uaeu yr glun os dodir urtho gyd a guin a blaud haid a dufyr./ Da yu yr Teim hefyd rhac yr haint diguyd o bleit ei aroglæ ai cyfyd o ei guymp./ Ac e dyuedir tau iach yr neb y bo'r haint diguyd ne'r gloesion leuic arno gyscy ar y Teim medal./

---

Yr enua<sup>1</sup>.

Typha yn y Groec a'r Latin, Cattes tayle yn Sasonaec Yr Hesc melfedoc yn Camberaec./

Y phurf./

Dail hirion sy ido a phaladr hir lyfyn mal vn or tostfrwyn nei or brwyn garanot ac amgylch ei vrisyn y mae blodeun yn tyfy mal rhol[173a]yn o phustion aplys duy a mal cynphon lygoden a blaen y paladr mal truydeu yn ynsengi y vyny tryuod ar blodæ a difanna ymaith yn yscarthiach<sup>ii</sup>./

Y le`

Heun corsyd a lynnæ y tyf. Mi a ueleis o hono yn y lŷn syd vn cylchyny castel y Dreuen yn gyfagos i dref Groes Osualt./

Yr amser./

Mis Gorphenhaf y byd bric y paladr yn vn rholyn phlockyssoc ac Aust y diflanna yn garthiach y vaes./

Yr artempr./

Yd y gelir dya! urth ei rinuedæ nid yu e yn eglur yn enuedic ei vlodeun nac yn uresoc nac yn oer, e glasca dalm gyd ac ef ac a sych./ Eruyd ei vod yn vediginieth rhac losc ac yscaldiad a bod Paulus yn y lyfr 4 ar pennod. 11. yn testiolaethy mae eliaæ a escubo ac a sycho i phord heb na gures nac oerfel hynod a vyd rhaid i hynny dieu yu vod ei artempr val y dyuedassom./

Y rhinuedæ

Ei vlodeun uedyr olchi gyd a hên vlonec ludyh huch a vediginiaetha  
losc./[173b]

- 
- i Atodwyd "Typha Iuncus asper cestrum" gerllaw gan E.T.
  - ii Unais "ys" a "carthiach". Holitwyd hwy rhwng dwy linell heb  
gyplysnod rhyngddynt.
- 

Yr Ereinlys. 139./

Yr enuaë./

Hypericon yn Groec a Latin, St Iohāns worte yn Sasonaec ar Ereinlys yn  
Camberaec./

Y phurf

Lyseuluyn cangenoc ydyu o droetfed o hyd ac yn uridougoch a dail mal i Rut  
a blodæ melynion y rhei o guesci yn duys rhung dy euined ti gei uelet suc  
val dafnaë gwaet yn dyfot alan o honynt a chodaë crynion tu a meint  
gronynnæ haid ac a had duy oe meun vn arogl ac ystor./

Herba perforata sef y Lyseun tyloc y geluir y lyseun hun y gyd ar lyseuyr  
cyphredin am ido ymdangos yn laun tylæ urth ei daly rhot ar haul

Y le

Meun le guylt aru y tyf./

Yr amser

Yr haf y blodea yn enuedic mis Gorphenhaf a mis Aust./

Yr artenpr./

Yr Ereinlys sy uresoc a sych ac o haan manol./[174a]

Y rhinuedæ

Peri vrin ne drunc a una a thyuys y blodæ o gosodir urtho./ Ei yfed ar uin sy da rhac y cryd a del bop tridie nei bop peduar diernot./ Od yfir ei had deugain die e vediginaetha uaeu yr glûn yr hûn a eluir yn gyohredin y Sitic./ Ei dail ny ar had sy da yu dody urth losc a vynner ido greithio ac iachau./ Ac o mynny vediginaet ny tard putrulyb cur y dail sychion yn vân a tlaen arno./ Natur had yr Ereinlys yu teuychy ac am hynny y mae yn da rhac darynret./ Da hefyd vdyu ei yfed ar uin er myn guaret maen y tosted./

---

Yr Henbân./ 140./

Yr enuæ./

Apollinaris yn Latin, Henbaen yn Phrangaec, Sasonaec a Chamberaec./ Eithyr ei geilû rhei o ein iaith ni yn Leuyc yr iair: o[174b] bleit doedyt a unan y leuyca yr iair anid mygu ar lysæ hyn danyn./

Y rhyuiæ

Tri rhyu sy o hono, vn yn dlyn blodæ guyngochion a dail val i Smilax sef y pha Phrencia a had duy./ A hûn a eilu y lyseuyr yr Henbayn duy. Ar ail yn dlyn blodæ melynion yn ol gued afal ac a dail a chodæ tenerion a had gorytcoch mal ir lyseun a eluir Irion yn Latin a enuir yr Henbayn melyn./ Y trydy a ofynnir meun nediginaeth ac sy lyseun bodauc bras tener a chedenoc

ac a blodæ ac a hadæ guynion ido ac a aluant yr Henbayn guŷn. Ac any chephir hunnu rhaid yu cymeryt y melyn yn ei le ac ymurthod ar duy mal ar guaethaf ol./

Y phurf./

Lyseuluyn ydyu anserchoc y goluc arno a phelydr preiphion ido a dail lydain gohirion yn holæ yn duon yn uythennoc ac yn vleuoc a rhyd y pelydr y mae yr blodæ yn tyfy[175a] mal chuysigennæ pennegoret ac uedy dyhoyno y rhei hynny y dau codæ bychain meun cibæ pigogion yn laun o had mal had y Papi ac a chroennæ yn cahau arnadynt rhac ei dyhitlo./

Y le

Y rhyu cyntaf med Phucsius a dyf yn gulat Galatia, yr ail ynglân y môr ac meun leoed y bu maguyr adail ac ymogor yn yr hen amser nei meun cyfryu le bras gar lau tai ne bresuylfa. Ar trydy yntey a dyf ar y morfa, nei meun gorystefyl a phossyd sychion./

Yr amser

Ni chlescir had yr vn nes darfod ido aedfedy./ E vlodea agos dros cubyl or haf ac yn enuedic y Gorphenhaf./

Yr artempr./

Yr Henbayn guŷn y sy oer hayachen yn y drydy rad, y deuryu eil id uenuynic./

Y rhinuedæ

Yr Henbayn ar had duy sy uaethaf vn ac nid yu gymeraduy./ E uescir rhyu sŷc yn yr haul alan or had fr,[175b] or dail ac or guyd uedyr briuo y gyd ac



yno ei sychy a unair a chadu'r suc hunnu a elir tros vn vluydyn urth raid a haud ganto lygry./ Ef elir hefyd uascy y suc alan or had sych ehunan anid ei dody meun dufyr tuym ac yno ei curo ai uascy yn duys./ A guel ydyu y suc a uascer alan a chynt y gueryt dolur na yr gulybur laethol a dau alan or lysæ urth ei scoytsio nei celely./

Y lysæ yn irion a sigir ac a gymmyscir a blaud guenith trimisyriat ac a uneir yn deisennæ bychain ac a geduir./ Y suc a uascet alan y mod cyntaf ar peth a uascuyt alan or had a roir yn gymuys meun cyfaredion a uneler y estung ac i dorri guniæ a doluria, ac y maent uy yn da rhac issuu guresouglyn, rhac dolur or clustia a rhac anesmuythder y vamoc./ A gyd a blaud guenith a blaud haid yd iachaant boethfa ac ymloc y lygaid ar traet ac o vannæ yr eil./ Y mae yr vn rhin ar yr had./ Y mae e yn da rhac y pessuch, rhac distiliat gulybur o y urth yr enennyd ac ar les lygaid a vo yn rhedec, a[176a] gunniæ aruthrol eil./ Ar vnrhyu had gyd a had y Papi meint puys dec gronyn a yfir ar ved rhac tra gvaedlin y merchet, a rhac gvaedlin nei issyu yr al a dorro alan./

E una les ir neb y bo yr gout arno, nei a vo a ei eirin uedyr chuydo o uynt, ac y vronnæ guraic etifydoc a vo yn vn chuyd, o churir ai osot urtho gyd a guin./ Ac e gymyscir yr had meun emplastra r eil a ordeinier rhac gunniæ o dolur./

Y dail sy da iaun yu dody meun pop eliae guneythuredic y dorri gueuyr nei unniæ, ond Ei cymeryd ehunain, ne ei cymyscy a blaud haid./ Y dail irion a osodir urtho y uaret pop gvaeu ne dolur./ Tair ne pedair or dail uedyr curo a yfir gyd a guin rhac crydiae oerfeloc puy ryu glefyd a bair bod yn uresoc ac yn oer ar vnuaith./

Y gureldyn uedyr veruy meun vinegr sy da rhac y dannoed./ Muc y lysæ hyn sy da rhac y pessuch anid ei derbyn ir genæ./

Plinius a dyuait y am yr oleo a uner o had y lyseun hun o dodir yn y

clustiȧ y par y dyn ampuylo. Ar vn peth a bar y dail od yfir muy no  
phedair onadynt./[176b]

---

Yssop. 141./

Yr enuȧ./

Hyssopus yn Groec a Latin, a thóry vaes y penn ola<sup>f</sup> ir geir a una y rhyu  
Sasonaec a Chamberaec sy ido. sef nid oes anid ei lediaithy gan y duy  
iaith ai alu Yssop./

Y rhyuiȧ

Deuryu Yssop a dyuait Dioscorides ei vo' sef Yssop y gardȧ ac Yssop y  
mynyđ. Yr Yssop dof a blennir yn y gardȧ er muyn cociniaeth<sup>i</sup>./

Y phurf./

Lyseuluyn o droetfed o hvd ydyu yr Yssop dof yn vn dail ar Safri dof ac a  
blodȧ rhu!leision mal tyuys yn cylchyny brigæ yr espyrs ac a gureidyn  
prennoc./ Yssop y mynyđ nid yu antebic i hunn yma or blaen./

Y le

Yn y gardȧ val yd yspysuyt or blaen y tyf yr Yssop dof ar mynydic yn y  
mynyđ./

Yr anser./

Yr haf y blodea ac yno y mae yr anser pennaf yu glascy./[177a]

Yr artempr./

Yr Yssop sy uresoc a sych yn y drydy rad ac y mae o bartheu teneuon./

Y rhinuedæ

Ei rinued ydy teneuo a guresogy E veruir gyd a phicus, dufyr, mêl a Rut ac ai yfir rhac cruc or avy, cyfyngdra duyfron, hen pessuch, dephec anhetl a rhac distiliat gulybyrocd or penn ir laur./ E lad y lyngyr./ F lyfir gyd a nel er muvn yr vn rhinued./ Ei iscel ef gyd ac oximel a yfir y escor trysgled ne lysnafed truyr boly./ Liu da a dyry./ Gyd a phicus a salpetr y gosodir urtho rhac y Duec ar dufyr rhung cic a chroen, a gyd a guin rhac ymlosc./ F dilea gleisiæ anid ei iro a dufyr beruedic./ A gyd ac iscel phicus y rae ef yn ore din v olchi o veun y guđu rhac y vynygloc yr suineg neir hychgruc./ E veruir gyd a vinegr y olchi yr danned, y dorri yr uyn neir bolur o nadynt./ A ei vuc a vedalna y melgyrn nei'r cilchuŷr[177b] poethion a vo yn cylch y clustiæ./

A Plinius a dyuait hefyd o churir yr Yssop neun oleo y gueryt e y leuokhaint ar ymerafy or penn. Nid yu e gystal ar les y duyfron./

---

i Cywirwyd "coginiaeth".

---

Y Banoc. 142./

Yr enuæ./

Verbascum yn Latin, Moleyne, Higges taper, ne Longe wurt, yn Sasonaec, a'r Banoc, y Deu banoc, ne Taper dunos yn Camberaec./

Ei geilu rhei clust y vuuch eil Dail y melfed, eil Hanerpán, ac eil ai geilu Canuyl yr adar, Ac ei gelu<sup>yn</sup> ganuyl meun ieithoed eil o bleit rhyu rei a ei trocha meun guer ne vraster al ac a ei cymmer yn rheit canuyl./

Y rhyuiæ./

Dau brif rvy or lysæ hyn sy yn ol barn yr hol her audurieit sef [178a] vn a dail guynnion ar al sy duy. Y rhyu guyn a berthir drachefyn yn ur ryu ac yn venyu./ Ac eb lau y tri hynn y mae y guylt./

Ac etua y mae dau Banoc yn vychain, ac enu y rhei hyn gyd ar lyseuyr cyphredin ydyu Herba paralysis, sef Lysæ'r parlys, y Couslop nei Brialy Mair./ Ac etua vyth y mae trydyd Banocyn yr hunn a eilu rhei Lychnitim nei Triallis sef y Rhos Campe./ A lyna rvyogaethæ y Banoc yn ol parthiat yr hæn benaudurieit Dioscorides a Galenus./

A Plinius sy vn radv agos yn uaith ofer ei parthy ai gohany or mod yma, cân ydyn vod or vn rhinued y eud ol./

Y phurf./

Y Banoc uen venyu id a dalennæ cynhebic ir bressych nei'r Caul eithyr ei bot o lauer yn vleuocach, yn lydanach ac yn uynnion a phaladr sy cyhyd a chufyd a muy yn ugn ac yn Banoc./ Blodæ guynnion nei velynuyn./ Had duy Gureidyn hir, tost, o braphter bys. [178b]

Y Banoc guyn gur ryu, yr hun am uynder ei dail a eluir yn Groec Leucophyllon sef y Guyndail sy a dail gohuy a chyfyngach ac a phalatr eidil./

Y Banoc duy sy yr vn phynyt ar guyn anid bod yn lydanach ac yn duach ei dail./

Y Banoc uylt sy a guieil aduyn cyn caletted ar prenn yn espyrsio y vyny yn belydr aei dail mal Saeds./ Ac mae arno gangenos bychain yn cylch y guail

mal ir Mordanat./ Blodæ cyn velynet ar aur dilin./

Y Dau Banogyn ynt vlewoc ac yn gorued gan y dayar a dail crynion ac yn lai o lauer, ac yn rhyhoc ac yn ei perfed y tyf conyn o baladr eidil o balfaut nei droetfed o hyl o liu ymluyc ac o ei vric y tard alan vlodæ melynion pop tri a thri nei hop peduar ai braid enylæ yn dannedoc, ac vn rhyu yn arogloc ar<sup>i</sup> al yn diarogl ac a baglur gorvelyn. Ar rhyu a eluir Lychnitis nei Thryallis sy a thair nei bedair ne vuy o[179a] dail ac yn deufion, yn vreision ac yn vlewogion ac yn vudiol o deunv canuylæ, ac a blodæ guridoŷuyn./

Y le

Y guŷn ar duy a dyf yn y meysyd ar coetyd./ Y guylt a dyf ynte yn y meysyd ac yn enuedic rhyd y sychfeysyd caregoc. Ar dau Banogiet a dyfant yn gynhredin yn y gueirglodiæ ar gardæ./ Ar Lychnitis a dyf val ys eil yn y meysyd./

Yr amser

Y dau Banogyn a gychuynant or dayar yn gynnar dechre guanuyn mal yn gennadæ cyuir y dangos ei vod ar dyuot./ Ar amser yma y byd rhaid ei cymeryd uy, o bleit diflanny ymaith yn phoadurus a unant ac ny bydant vuy tros visyriat oet or mynychaf, ac odit ydynt aros bot yn chuech uythnosic./ Y rhyuiæ yr eil a glescir y cynayaf pan vont y blodeo ac yn hady./[179b]

Yr artempr./

Dail pop vn or rhyuiæ ynt sychion a chlascedic./

Y rhinueda

Guraid pop vn or dau gyntaf sy attaliedic, eruyd pa am y' mysc lauered o

gyfaredion nid oes dim uel nar guraid hyn ar uin yu yfed rhac darynred nei haint calonn./

Iscei y gureidyn sy da ir neb a sigod ne a dorrod ei lengic, nei a gafas aduyth./ Golchy'r danned ac ef sy da er muyn torri yr uyn./ Y Banoc ar blodæ eurliu a liua y gualt, ac ym pa le bynnac v caduer ef e glasca y prifed blattas atto./ Y dail a veruir meun dufyr ac a dodir urthynt<sup>ii</sup> rhac oedenata a nuoethder or lygaid./ Gyd a vinegr yd iacha ueliæ./ A da ydynt rhac brath scorpion

Dail y guylt a roir urth losc yu vediginaethy./ A pha beth bynnac a lyno yn y corph a dynnir alan druy nerth yr had ar dail uedy ei briuo ai berui meun guin./ Y lyseuyr or to dyuaethaf a seiniant y rhinuedæ[180a] hyn ir dau panogvn./ Ei curo aei gosot urtho sy da rhac dolur or cymalæ./ Tagiat v chysigen ar arennæ a dattodir a gureidyn y lysæ hyn uedyr veruy./ Iscei y lyseun a yfir ac a roir urtho rhac ysictot anartemp a chleisiaæ./ Ar lyseuyr o ein amser ni ai gad uy yn uresoc ac yn sych./ Ar merchet a garo deckau ei pryd a ei gued a irant ei uynæ a suc blodæ y lysæ hynn./ O bleit ido uaret mór dichlyn y brychæ, y crychi a phop anlendit nei anferthuch a vo ar yr uynep./

---

i Dilewyd "ys" ar ôl y gair hwn.

ii Unais "urth" ac "ynt". Holltwyd y ddau rhwng dwy linell ac anghofiwyd rhoi cyplysnod rhyngddynt.

Y Mefys ne'r Syfi./ 143./

Yr enuaë./

Fragaria yn Latin, Strawberie leaues yn Sasonaec a Guyd ne dail 'iefys ne'r  
Svfi yn Camberaec a Ffragun y Latin y geluir ei phruyth Strawberie yn  
Sasonaec a Mefys nei Syfi yn ein iaith ninnæ./[190b]

Y rhyuaë./

Deuryu uvd 'iefys y syd vn yn duyn blodæ a phruyth braisc ar al yn duyn  
phruyth nid cmeint./

Y phurf./

Guyd y Svfi a dyf yn grafangæ isel boguvedic tu ar dayar eb paladr ido  
